Ymchwil Gymdeithasol Rhif: 81/2023

Dyddiad Cyhoeddi: 29/08/2023

# Adroddiad Gwerthuso Terfynol

# Cynllun Twristiaeth Wledig Cymru Gyfan

This document is also available in English.

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

© Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-83504-574-9

**Adroddiad Gwerthuso Terfynol Cynllun Twristiaeth Wledig Cymru Gyfan**

Awduron: Nia Bryer a Heledd Bebb, Ymchwil OB3

Safbwyntiau'r ymchwilwyr ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:
Siân Hughes
Yr Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd

**E-bost:** ymchwiltwristiaeth@llyw.cymru
ISBN: 978-1-83504-574-9
© Hawlfraint y Goron 2023

## Cynnwys


1. Cyflwyniad ... 4
2. Cynlluniau Twristiaeth Wledig Cymru Gyfan ... 7
3. Methodoleg ... 30
4. Diben y gronfa ... 36
5. Y ffordd y rheolwyd y cynllun ... 41
6. Cyflawni a gweithredu prosiectau ... 55
7. Y gwahaniaeth a wnaed ... 66
8. Gwerth am arian ... 86
9. Themâu ac amcanion trawsbynciol ... 91
10. Anghenion cyllido yn y dyfodol ... 99
11. Casgliadau a materion i'w hystyried ... 102

Atodiad A: Model Damcaniaeth Newid ar gyfer cynllun Twristiaeth Wledig Cymru Gyfan .. 113

Atodiad B: Fframwaith samplu prosiectau a ariannwyd ... 115

Atodiad C: Offerynnau ymchwil ... 120

Atodiad D: Adolygiad o bolisïau ... 148

Atodiad E: Data'r sector twristiaeth ... 159

Atodiad F: Rhestr o adnoddau ... 164

# Rhestr o'r tablau a'r ffigurau


Tabl 2.1: Crynodeb o'r pedwar cynllun Twristiaeth Wledig Cymru Gyfan ... 18

Tabl 2.2: Manylion cynlluniau Twristiaeth Wledig Cymru Gyfan a ariannwyd o 2017/18 i 2020/21 ... 22

Tabl 2.3: Rhaniad rhanbarthol cynlluniau Twristiaeth Wledig Cymru Gyfan 2017/18 i 2020/21 yn ôl nifer y prosiectau ... 23

Tabl 2.4: Rhaniad rhanbarthol cynlluniau Twristiaeth Wledig Cymru Gyfan 2017/18 i 2020/21 yn ôl gwerth y cyllid grant ... 24

Tabl 2.5: Gwariant cynllun Twristiaeth Wledig Cymru Gyfan ar ymgyrch 'Blwyddyn' Croeso Cymru ... 25

Tabl 2.6: Targedau terfynol a ariannwyd a chyflawniadau'r MSBF ... 26

Tabl 2.7: Targedau a ariannwyd a chyflawniadau TAIS ... 26

Tabl 2.8: Targedau a ariannwyd a chyflawniadau RTEF a TPIF ... 27

Ffigur 5.1: Dull o glywed am gynllun Twristiaeth Wledig Cymru Gyfan ... 41

Ffigur 5.2: Pa mor hawdd oedd cwblhau'r Datganiad o Ddiddordeb a'r ffurflen gais ... 44

Ffigur 5.3: Barn ar y canllawiau ymgeisio am gyllid ... 44

Ffigur 5.4: Barn ar y cyngor a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru ... 45

Ffigur 5.5: Barn ar yr amser a gymerwyd i asesu Datganiad o Ddiddordeb a chais llawn ... 46

Ffigur 5.6: Barn am y ffordd y gweinyddwyd y grantiau ... 50

Ffigur 6.1 A yw'r prosiectau a ariannwyd wedi cyflawni (neu'n disgwyl cyflawni) eu nodau a'u hamcanion ... 57

Ffigur 6.2: A yw'r prosiectau a ariannwyd wedi cyflawni (neu a ydynt yn disgwyl cyflawni) eu targedau ... 58

Tabl 7.1: Newidiadau mewn trosiant busnes blynyddol ar gyfer busnesau a ariannwyd gan grant MSBF a nododd gynnydd yn eu trosiant (2017/18 i 2020/21) ... 74

Ffigur 8.1: Y canlyniad tebygol i brosiectau yn absenoldeb cyllid grant ... 86

Tabl 8.1: Gwariant yr MSBF ... 89

Ffigur 9.1: Y cyfraniad a wnaed gan brosiectau at themâu ac amcanion trawsbynciol ... 92

Ffigur A.1: Damcaniaeth Newid Cynllun Twristiaeth Wledig Cymru Gyfan ... 113

Ffigur B.1: Lledaeniad daearyddol y prosiectau a ariannwyd gan gynllun Twristiaeth Wledig Cymru Gyfan ... 118

## Geirfa

| Acronym/Allweddair | Diffiniad |
|---|---|
| COVID-19 | Clefyd y Coronafeirws 2019 |
| EAFRD | Cronfa Amaethyddiaeth Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig |
| FTE | Cyfwerth ag Amser Llawn |
| IPS | Arolwg Teithwyr Rhyngwladol |
| IQ | Holiadur Rhagarweiniol |
| MSBF | Y Gronfa Busnesau Bach a Micro |
| RC-RDP | Cymunedau Gwledig - Rhaglen Datblygu Gwledig |
| RTEF | Cronfa Ymgysylltu Twristiaeth Ranbarthol |
| SuDS | System Ddraenio Gynaliadwy |
| TAIS | Cymorth Buddsoddi mewn Amwynderau Twristiaeth |
| TISS | Cynllun Cymorth Buddsoddi mewn Twristiaeth |
| TPIF | Y Gronfa Arloesi Cynnyrch Twristiaeth |
| UE | Undeb Ewropeaidd |
| WEFO | Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru |
| WTIF | Cronfa Buddsoddi mewn Twristiaeth Cymru |
| Y DU | Y Deyrnas Unedig |
| Y Ddeddf Llesiant | Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol |

# 1. Cyflwyniad

1.1 Comisiynwyd Ymchwil OB3 gan Lywodraeth Cymru i gynnal gwerthusiad o Gynllun Twristiaeth Wledig Cymru Gyfan.

1.2 Nod y gwerthusiad oedd adolygu pedwar cynllun twristiaeth a ddarparwyd o dan Cymunedau Gwledig - Rhaglen Datblygu Gwledig (RC-RDP) 2014-2020 a darparu asesiad annibynnol o sut y cafodd y cynllun ei weithredu a'i gyflawni, gan gynnwys canlyniadau ac effaith y cynlluniau. Bydd canfyddiadau'r gwaith hwn yn cael eu defnyddio i lywio'r cymorth ar gyfer twristiaeth yn y dyfodol ac astudiaeth werthuso terfyn rhaglen y Rhaglen Datblygu Gwledig.

1.3 Roedd disgwyl i'r gwerthusiad:

- ystyried sut yr oedd y prosiectau'n cyd-fynd ag amcanion polisi strategol y Rhaglen Datblygu Gwledig a Llywodraeth Cymru
- adolygu pa mor effeithiol y rheolwyd y cynllun – gan gynnwys y broses hawlio, systemau monitro, cyfathrebu, a'r cymorth a oedd ar gael ar ôl i gyllid gael ei ddyfarnu
- ystyried y ffordd y cafodd y cynlluniau eu cyflawni a'u gweithredu
- asesu i ba raddau yr oedd y prosiectau a gefnogwyd yn gallu cyflawni'r amcanion a nodwyd yn eu cynlluniau
- adolygu canlyniadau ac effaith y cynlluniau, lle bo modd
- asesu pa mor ymatebol oedd yr amrywiol gynlluniau i anghenion canfyddedig y diwydiant twristiaeth, gan gynnwys sut y cynigiwyd cymorth i fusnesau o wahanol feintiau, a phrosiectau ar raddfa fawr neu fach
- asesu gwerth am arian lle bynnag y bo modd
- cynnig argymhellion a disgrifio gwersi a ddysgwyd ar gyfer grantiau tebyg yng Nghymru.

1.4 Cynhaliwyd y gwerthusiad rhwng mis Medi 2022 a mis Gorffennaf 2023. Roedd yn cynnwys paratoi adroddiad ar Ddamcaniaeth Newid (heb ei gyhoeddi, Tachwedd 2022) a'r adroddiad gwerthuso terfynol hwn.

1.5 Roedd y fethodoleg a fabwysiadwyd ar gyfer yr adroddiad gwerthuso terfynol hwn yn cynnwys ymchwil desg a gwaith maes gyda phrosiectau a defnyddwyr a ariannwyd, swyddogion Llywodraeth Cymru, a rhanddeiliaid eraill.

1.6 Cyflwynir yr adroddiad hwn mewn 11 o benodau, fel a ganlyn:

- pennod un: cyflwyniad i'r adroddiad
- pennod dau: trosolwg o gynlluniau Twristiaeth Wledig Cymru Gyfan, sut y cawsant eu gweinyddu a'u cyflawniadau
- pennod tri: amlinelliad o fethodoleg yr astudiaeth
- penodau pedwar i chwech: ystyriaeth o ganfyddiadau’r gwaith maes mewn perthynas â diben y gronfa (pennod pedwar); y ffordd y cafodd y cynllun ei reoli (pennod pump) a'r ffordd y cafodd y cynllun ei gyflawni a'i weithredu (pennod chwech)
- penodau saith i naw: ystyriaeth o ganfyddiadau’r gwaith maes mewn perthynas â’r gwahaniaeth a wnaed (pennod saith), gwerth am arian, lle y bo’n bosibl (pennod wyth), a chyflawni'r themâu trawsbynciol a'r amcanion (pennod naw)
- pennod 10: canfyddiadau'r gwaith maes ynghylch anghenion cyllido yn y dyfodol
- pennod 11: ein casgliadau a'n hargymhellion.

1.7 Mae’r wybodaeth ganlynol i’w gweld yn Atodiadau A i F:

- Atodiad A: y model Damcaniaeth Newid ar gyfer Cynllun Twristiaeth Wledig Cymru Gyfan
- Atodiad B: manylion y fframwaith samplu a ddefnyddiwyd fel sail i ddewis prosiectau o fewn y gwaith maes

- Atodiad C: amlinelliad o'r offerynnau ymchwil a ddefnyddiwyd ar gyfer y gwaith maes, gan gynnwys canllawiau trafod ac offeryn arolwg
- Atodiad D: ystyriaeth o addasrwydd Cynllun Twristiaeth Wledig Cymru Gyfan o fewn y cyd-destun polisi a'r cyd-destun strategol a barn rhanddeiliaid ynglŷn â hynny
- Atodiad E: ystyriaeth o ddata'r sector twristiaeth yng Nghymru ar dueddiadau ymwelwyr ac adborth
- Atodiad F: rhestr o adnoddau y cyfeirir atynt yn yr adroddiad.

## 2. Cynlluniau Twristiaeth Wledig Cymru Gyfan

2.1 Mae'r bennod hon yn rhoi trosolwg o gynlluniau Twristiaeth Wledig Cymru Gyfan, sut y cawsant eu gweinyddu a'u cyflawniadau.

**Cyflwyniad**

2.2 Mae cynlluniau Twristiaeth Wledig Cymru Gyfan wedi cael eu cyflawni o dan Cymunedau Gwledig-Rhaglen Datblygu Gwledig (RC-RDP) 2014-20 sydd â'r nod o hyrwyddo cystadleurwydd a chreu twf cynaliadwy a swyddi i'r bobl sy'n byw ac yn gweithio yng nghefn gwlad Cymru[1].

2.3 Roedd disgwyl i'r cynlluniau gyfrannu at Flaenoriaeth 6 y Rhaglen Datblygu Gwledig sy'n canolbwyntio ar hybu cynhwysiant cymdeithasol, lleihau tlodi a datblygiad economaidd mewn ardaloedd gwledig. Mae'r pedwar cynllun yn cyd-fynd â Maes Ffocws 6B[2] y Rhaglen Datblygu Gwledig. Roedd y cynlluniau RTEF a TPIF, a'r ymgyrchoedd marchnata hefyd yn cyd-fynd â Maes Ffocws 6A[3].

2.4 Cafodd y pedwar cynllun hefyd eu mapio yn erbyn tri is-fesur y Rhaglen Datblygu Gwledig, fel a ganlyn:

- roedd disgwyl i'r MSBF gyfrannu at is-fesur 6.4, sef cymorth ar gyfer buddsoddiad mewn creu a datblygu gweithgareddau anamaethyddol drwy gefnogi mentrau bach a microfentrau newydd a phresennol gyda chyllid grant.
- roedd disgwyl i TAIS gyfrannu at is-fesur 7.5, sef cymorth ar gyfer buddsoddiadau at ddefnydd y cyhoedd mewn seilwaith hamdden, gwybodaeth i dwristiaid a seilwaith twristiaeth ar raddfa fach drwy ddarparu buddsoddiad ar raddfa fach i wella'r arwyddion i safleoedd twristiaeth, i adeiladu a moderneiddio canolfannau croeso, i ddarparu gwybodaeth ac arweiniad i ymwelwyr[4]
- roedd disgwyl i'r RTEF a TPIF gyfrannu at is-fesur 16.3, sef cydweithio rhwng cwmnïau bach i drefnu prosesau cydweithio a

[1] Dogfen Rhaglen Datblygu Gwledig 2014 i 2020 | LLYW.CYMRU tud.154 (Saesneg yn unig)
[2] Maes Ffocws 6B: meithrin datblygiadau lleol mewn ardaloedd gwledig
[3] Maes Ffocws 6A: hwyluso arallgyfeirio, creu a datblygu mentrau bach a chreu swyddi
[4] Dogfen Rhaglen Datblygu Gwledig 2014 i 2020 | LLYW.CYMRU tud.371 (Saesneg yn unig)

rhannu cyfleusterau ac adnoddau, ac ar gyfer datblygu/marchnata twristiaeth[5] drwy ddarparu grantiau ariannol i gefnogi gweithgareddau cydweithio gan amlygu dulliau arloesol rhwng o leiaf ddau endid a chynllun grant refeniw i annog datblygu arferion a phrosesau newydd mewn busnesau bach gwledig, gan gynnwys gweithgareddau a chyfleusterau a rennir, gyda'r nod o sicrhau effeithlonrwydd busnesau, a datblygu cyfleoedd twristiaeth lleol[6]

2.5 Dim ond prosiectau wedi'u lleoli mewn wardiau cymwys penodol ledled Cymru y gallai'r cynlluniau eu cefnogi, fel y'u diffinnir gan Cymunedau Gwledig - Rhaglen Datblygu Gwledig.

**Y Gronfa Busnesau Bach a Micro (MSBF)**

2.6 Cynlluniwyd y Gronfa Busnesau Bach a Micro (MSBF) fel cronfa gyfalaf i gefnogi datblygiad prosiectau safonol, 'unigryw, sy'n denu sylw' ac 'uchelgeisiol' a fyddai'n rhagori o ran eu hansawdd, eu gradd, profiad yr ymwelydd, gwasanaeth, arloesi ac ychwnaegu gwerth[7].

2.7 Pwrpas y gronfa oedd 'datblygu cynhyrchion twristiaeth cynaliadwy o safon' a oedd yn creu swyddi ac yn sbarduno twf mewn marchnadoedd newydd a'r rhai sy'n bodoli eisoes[8]. Disgwyliwyd y byddai'r gronfa yn blaenoriaethu buddsoddiadau a fyddai'n llenwi bwlch yn y farchnad, ar draws:

- cynhyrchion twristiaeth arloesol o ansawdd uchel sy'n datblygu enw da
- gwestai moethus
- atyniadau pob tywydd, drwy gydol y flwyddyn
- atyniadau blaenllaw
- gweithgaredd arloesol
- profiadau unigryw yn ymwneud â bwyd Cymreig sy'n canolbwyntio ar ymwelwyr

---

5 Cronfa Amaethyddiaeth Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru, tud.1264
6 Ibid., tud.1265
7 Nodyn Cyfarwyddyd MSBF EAFRD (Saesneg yn unig)
8 Ibid., tud.1

- profiadau glampio a gwersylla arloesol
- cyfleusterau sba a chyfleusterau hamdden o ansawdd uchel
- prosiectau arloesol yn ymwneud â diwylliant neu dreftadaeth
- tafarndai, llety Gwely a Brecwast, a llety gwesteion nodedig o ansawdd uchel
- lleoedd anarferol i aros.

2.8 Roedd yr MSBF ar gael i fusnesau'r sector preifat a mentrau cymdeithasol gyda llai na 50 o weithwyr cyfwerth ag amser llawn (FTE) a throsiant o lai na €10 miliwn. Darparodd rhwng £25,000 a £500,000 ar gyfer prosiectau buddsoddi cyfalaf wedi'u targedu, ond ni allai'r cymorth ariannol fod yn fwy na 40 y cant o gostau cyfalaf cymwys. Gellid defnyddio'r gronfa i gefnogi prynu asedau diriaethol (fel tir, adeiladau, peiriannau a chyfarpar) ac asedau anniriaethol (fel meddalwedd cyfrifiadurol, trwyddedau, a ffioedd technegol).

2.9 Gweinyddwyd y gronfa ar sail ceisiadau treigl, ac roedd modd gwneud ceisiadau ar unrhyw adeg rhwng 2017/18 a 2020/21. Ystyriwyd y ceisiadau mewn dau gam:

- i ddechrau roedd yn ofynnol i ymgeiswyr gwblhau a chyflwyno ffurflen Datganiad o Ddiddordeb MSBF[9] a gafodd ei gwirio gan swyddogion Llywodraeth Cymru i sicrhau bod y prosiectau'n bodloni'r meini prawf ar gyfer cymhwystra a blaenoriaeth. Roedd y rhain yn cynnwys gwiriadau i sicrhau bod yr ymgeiswyr yn sefydliadau cymwys a'u bod yn cydymffurfio â chymorth gwladwriaethol ac yna gwahoddwyd yr ymgeiswyr i gyflwyno cais llawn
- roedd y ceisiadau llawn yn cael eu gwerthuso gan swyddog achos Llywodraeth Cymru a'u hadolygu gan banel buddsoddi. Adolygwyd ceisiadau am hyd at £100,000 gan banel MSBF penodol ac

[9] Defnyddiwyd y term Holiadur Rhagarweiniol (IQ) hefyd gan Lywodraeth Cymru i ddisgrifio'r ffurflen gychwynnol hon, a defnyddiwyd y ddau derm yn gyfnewidiol ar draws y cynlluniau cyllido. At ei gilydd, bydd yr adroddiad hwn yn cyfeirio at Ddatganiadau o Ddiddordeb.

argymhellwyd y rhai a sgoriodd dros 60 y cant i'w hystyried gan Weinidogion. Ystyriwyd ceisiadau dros £100,000 gan y Panel Sectorau a Busnes, a phleidleisiwyd arnynt, cyn eu cyflwyno i'r Gweinidog eu hystyried.

2.10 Roedd arfarniad o'r ceisiadau hefyd yn ystyried y set ganlynol o ddangosyddion:

- nifer y swyddi a grëwyd ac a ddiogelwyd (disgwylir y byddai hyd at £10,000 o gyllid yn cael ei ddyrannu fesul swydd FTE[10] a grëwyd neu a ddiogelwyd)
- nifer y gweithwyr a gefnogwyd a oedd yn bobl ifanc rhwng 15 a 25 oed, a oedd yn fenywod, ac a oedd yn siaradwyr Cymraeg
- cyfanswm y cyllid ymyrraeth a'r arian cyfatebol
- nifer y lleoliadau / buddiolwyr sy'n derbyn cymorth ar gyfer buddsoddi mewn gweithgareddau anamaethyddol mewn ardaloedd gwledig
- nifer y gweithrediadau a gefnogir
- prosiectau sy'n bodloni blaenoriaethau'r gronfa ac yn atgyfnerthu brand Cymru.

**Cymorth Buddsoddi mewn Amwynderau Twristiaeth (TAIS)**

2.11 Roedd y gronfa Cymorth Buddsoddi mewn Amwynderau Twristiaeth (TAIS) ar gael i sefydliadau cyhoeddus, sefydliadau'r trydydd sector a sefydliadau dielw i gefnogi'r gwaith o ddatblygu seilwaith twristiaeth ar raddfa fach. Bwriad y gronfa oedd datblygu seilwaith twristiaeth hygyrch ar raddfa fach ar lefel cyrchfan[11] a mynd ati i gefnogi cynigion creadigol a fyddai'n gwneud gwahaniaeth ac yn ychwanegu gwerth at brofiad yr ymwelydd, boed hynny fel cynnyrch strategol sy'n newid canfyddiad pobl, neu fel rhan o glwstwr o brosiectau sy'n helpu i ddatblygu cyrchfan ac ysgogi twf economaidd.

2.12 Nodwyd blaenoriaethau ehangach TAIS fel a ganlyn:

[10] Diffinnir amser llawn fel o leiaf 30 awr yr wythnos a rhan-amser fel o leiaf 15 awr yr wythnos
[11] Cymorth Buddsoddi mewn Amwynder Twristiaeth EAFRD (TAIS) 2017-2020 Nodyn Cyfarwyddyd

- hyrwyddo dull sy’n cael ei arwain gan gynnyrch a chefnogi cynhyrchion o ansawdd uchel sy’n datblygu enw da
- datblygu cyrchfannau y mae pobl eisiau ymweld â nhw a’u hargymell i eraill drwy ddarparu cyfleoedd i gynnig profiadau cofiadwy i ymwelwyr, gwella enw da Cymru fel cyrchfan sy’n darparu ystod o brofiadau unigryw, annog mwy o gyfleoedd i greu ymdeimlad unigryw o le, a gwella enw da Cymru fel cyrchfan twristiaeth gynaliadwy.

2.13 Roedd disgwyl i TAIS helpu i fynd i'r afael ag amddifadedd a hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol mewn ardaloedd gwledig. Disgwyliwyd hefyd y byddai'r prosiectau a ariannwyd yn atgyfnerthu brand Cymru.

2.14 Roedd disgwyl i'r gronfa gefnogi prosiectau cyfalaf fel[12]:

- gwelliannau amgylcheddol megis tirweddu caled a meddal neu gynlluniau i gerddwyr
- gwell arwyddion a deunydd dehongli, gan gynnwys arwyddion twristiaeth gwyn ar gefndir brown ar gefnffyrdd
- mannau parcio i geir a bysiau a chyfleusterau toiled gwell mewn cyrchfannau allweddol
- gwell mynediad i ddŵr ar gyfer gweithgareddau a phrosiectau'n ymwneud ag ansawdd dŵr
- cynlluniau rheoli traffig ac ymwelwyr megis cyfleusterau parcio a theithio
- seilwaith digwyddiadau
- llwybrau cerdded a beicio
- prosiectau adeiladu yn ymwneud â'r themâu 'Blynyddoedd'[13]

[12] Newidiodd yr enghreifftiau hyn rhyw ychydig yn y nodiadau canllaw ar gyfer cylchoedd cyllido un a dau
[13] Gweler paragraff 2.47 yr adroddiad hwn am ragor o fanylion am ymgyrchoedd thematig 'Blynyddoedd' Croeso Cymru

2.15 Roedd sefydliadau cymwys yn cynnwys awdurdodau lleol, cyrff cyhoeddus eraill fel Parciau Cenedlaethol, yn ogystal â sefydliadau'r trydydd sector a grwpiau gweithredu lleol megis mentrau cymdeithasol a chwmnïau buddiannau cymunedol. Sicrhawyd bod cyllid cyfalaf rhwng £25,000 a £128,000 ar gael, a chafodd cyfanswm y gwariant cymwys ar gyfer prosiect ei gapio ar £160,000. Roedd angen i ymgeiswyr ddangos bod ganddynt 20 y cant o arian cyfatebol.

2.16 Gweinyddwyd dau gylch o'r gronfa. Lansiwyd y cylch cyntaf ym mis Mai 2017 a daeth i ben ym mis Mehefin 2017. Lansiwyd yr ail gylch ym mis Ebrill 2018 a daeth i ben ym mis Mai 2018. Roedd disgwyl i brosiectau llwyddiannus gael eu cwblhau erbyn mis Rhagfyr 2020.

2.17 Roedd y broses ymgeisio am gyllid yn cynnwys dau gam:

- fel cam cyntaf, roedd yn ofynnol i ymgeiswyr lenwi ffurflen Datganiad o Ddiddordeb TAIS
- yna gwahoddwyd y Datganiadau o Ddiddordeb â'r sgorau uchaf i gyflwyno cais llawn. Roedd yn rhaid i'r Datganiadau o Ddiddordeb hyn gael isafswm sgôr (o 120 allan o 200) a rhoddwyd ystyriaeth hefyd i'r cyllid a oedd ar gael wrth benderfynu sawl un allai symud ymlaen i'r cam ymgeisio. Cafodd y ceisiadau eu hadolygu gan swyddog achos ac yna'n cael eu hasesu a'u sgorio gan banel cymedroli annibynnol, cyn cael eu hargymell i'r Gweinidog eu hystyried a phenderfynu arnynt.

**Y Gronfa Arloesi Cynnyrch Twristiaeth (TPIF)**

2.18 Cynllun refeniw a fwriadwyd i annog cydweithio rhwng partneriaid twristiaeth oedd y Gronfa Arloesi Cynnyrch Twristiaeth (TPIF), a hynny er mwyn datblygu a gwella'r cynnyrch a gynigir i ymwelwyr a fyddai o fudd i'r sector twristiaeth a chymunedau lleol yn ogystal â helpu i dyfu'r economi twristiaeth yng Nghymru mewn ffordd gynaliadwy. Dim ond ar gyfer cynigion cydweithredol yr oedd cyllid ar gael.

2.19 Bwriad TPIF oedd helpu i gyrraedd y targed twf o 10 y cant a nodir ym Mhartneriaeth Twf Strategaeth Twristiaeth Llywodraeth Cymru drwy gefnogi gweithgarwch a fyddai'n:

- annog cydweithio agosach rhwng consortia twristiaeth, partneriaethau, a grwpiau masnach i ddatblygu a gwella'r cynnyrch a gynigir i ymwelwyr
- helpu partneriaid i gydweithio mewn ffordd gydgysylltiedig
- galluogi'r sector preifat i wneud y mwyaf o'r buddion yn sgil sicrhau cyfatebiaeth rhwng eu gweithgareddau ac ymgyrchoedd thematig 'Blynyddoedd' a Ffordd Cymru[14].

2.20 Disgwyliwyd y byddai TPIF yn cyfrannu at flaenoriaethau Cymunedau Gwledig - Rhaglen Datblygu Gwledig (RC-RDP) i leihau tlodi a hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol mewn ardaloedd gwledig, yn ogystal â hwyluso arallgyfeirio, creu a datblygu mentrau bach a meithrin datblygiadau lleol mewn ardaloedd gwledig.

2.21 Disgwyliwyd hefyd y byddai'r prosiectau a ariannwyd yn cyd-fynd ag amcanion a gwerthoedd brand Cymru ac yn gwneud y mwyaf o gyfleoedd i sicrhau bod eu gwaith yn cyd-fynd â'r dull marchnata 'Blynyddoedd' a fabwysiadwyd gan Croeso Cymru. Yn achos cyfnod cyllido 2019/2020, roedd disgwyl i gynigion ychwanegu gwerth at thema'r flwyddyn flaenorol, sef Blwyddyn y Môr (2018), yn ogystal â thema'r flwyddyn i ddod, sef Blwyddyn Darganfod (2019), a themâu eraill yn y dyfodol.

2.22 Roedd y gronfa'n agored i bartneriaethau a grwpiau sector y diwydiant twristiaeth yn ogystal â sefydliadau unigol (o'r sector preifat, y trydydd sector neu'r sector cyhoeddus) a oedd yn gweithio mewn partneriaeth â, neu ar ran, partneriaethau a grwpiau'r sector preifat. Roedd cyllid grant refeniw rhwng £30,000 a £150,000 dros gyfnod o ddwy flynedd ar gael, ac roedd yn ofynnol i brosiectau a ariannwyd gyfrannu o leiaf 10 y cant o arian cyfatebol.

[14] Gweler paragraff 2.48 am ragor o fanylion am Ffordd Cymru

2.23 Gweinyddwyd dwy rownd o TPIF. Agorodd y cylch Datganiadau o Ddiddordeb cyntaf ar gyfer 2018/19 ym mis Hydref 2017 a disgwyliwyd i brosiectau a ariannwyd gael eu cwblhau erbyn mis Mawrth 2019. Agorodd yr ail gylch Datganiadau o Ddiddordeb ym mis Hydref 2018 a daeth i ben ym mis Tachwedd 2018, ac roedd yn ofynnol i'r ymgeiswyr a fu'n llwyddiannus yn y cam Datgan Diddordeb gyflwyno ceisiadau llawn erbyn 1 Chwefror 2019. Dechreuodd prosiectau llwyddiannus a ariannwyd drwy'r ail gylch ym mis Ebrill 2019 a disgwyliwyd i'r holl gostau gael eu hawlio erbyn mis Rhagfyr 2020.

2.24 Roedd yr ail alwad am gyllid yn fwy rhagnodol na'r alwad gyntaf ac yn canolbwyntio ar brosiectau a oedd yn cynnig dulliau marchnata arloesol, cynnwys deniadol, pecynnu cynnyrch a'r gallu i'w harchebu[15] gan awgrymu efallai fod y canllawiau a osodwyd ar gyfer y cylch cyllido cyntaf wedi bod yn rhy amwys. Y prif newid arall a ddigwyddodd oedd dileu cyllid i gefnogi digwyddiadau busnes-i-fusnes erbyn ail gylch cyllido TPIF: roedd y cylch cyntaf yn caniatáu i arian TPIF gael ei ddefnyddio i gefnogi pedwar cynnig rhanbarthol/cyrchfan i ddenu cynadleddau a digwyddiadau busnes mawr i Gymru ond bod yn rhaid i'r cynigion hyn fod yn hunangynhaliol y tu hwnt i'r cyfnod cyllido cychwynnol hwn.[16]

2.25 Disgwyliwyd y byddai'r gweithgareddau a ariannwyd yn ystod yr ail gylch yn cynnwys[17]:

- datblygu cynnyrch meddal e.e. deunydd dehongli ffisegol a digidol, digwyddiadau ar raddfa fach, datblygu cynnyrch newydd
- marchnata e.e. creu cynnwys, cysylltiadau cyhoeddus, datblygu pecyn teithio, pecynnu cynnyrch, gwybodaeth i ymwelwyr
- costau staff, hyd at 20 y cant o gyfanswm costau prosiect (ac eithrio ar gyfer sefydliadau'r trydydd sector).

2.26 Gweinyddwyd y ddau gylch TPIF drwy broses dau gam, yn cynnwys cam Datgan Diddordeb cychwynnol i sicrhau bod yr holl feini prawf cymhwystra

[15] Cronfa Arloesedd Cynnyrch Twristiaeth EAFRD 2018-2019 Nodyn Cyfarwyddyd
[16] Cronfa Arloesedd Cynnyrch Twristiaeth EAFRD 2018-2019 Nodyn Cyfarwyddyd, tud. 7
[17] Nodwyd enghreifftiau ychydig yn wahanol yn y Nodyn Cyfarwyddyd cyllido cyntaf.

yn cael eu bodloni a chais llawn fel ail gam. Cyflwynwyd y ceisiadau a aseswyd i Weinidogion Llywodraeth Cymru i'w hystyried a'u cymeradwyo.

**Y Gronfa Ymgysylltu Twristiaeth Ranbarthol (RTEF)**

2.27 Darparodd y Gronfa Ymgysylltu Twristiaeth Ranbarthol (RTEF) gyllid refeniw i hyrwyddo a datblygu cyrchfannau nodedig o ansawdd uchel i ymwelwyr drwy gyflawni cynlluniau rheoli cyrchfannau. Un o'r amodau cyllido oedd bod yn rhaid i geisiadau gael eu cymeradwyo gan Bartneriaethau Rheoli Cyrchfannau, lle bo modd.

2.28 Pwrpas yr RTEF oedd gweithio gyda phartneriaid ar lefel cyrchfan i helpu i gyrraedd y targed twf o 10 y cant a nodir yn strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer twristiaeth, Partneriaeth ar gyfer Twf. Yn ogystal â hynny, disgwyliwyd y byddai'r gronfa yn:

- cefnogi cyrchfannau ledled Cymru i hyrwyddo a datblygu cyrchfannau ymwelwyr nodedig o ansawdd uchel drwy gyflwyno cynlluniau rheoli cyrchfannau
- galluogi cyrchfannau i wneud y mwyaf o'r manteision yn sgil sicrhau bod eu gweithgareddau'n cyd-fynd â'r themâu 'Blynyddoedd' a Ffordd Cymru
- adlewyrchu pob un neu unrhyw un o'r tair thema allweddol ar gyfer hyrwyddo twristiaeth i Gymru, sef antur, diwylliant a thirwedd.

2.29 Fel gyda TPIF, disgwyliwyd y byddai RTEF yn cyfrannu at flaenoriaethau Cymunedau Gwledig - Rhaglen Datblygu Gwledig (RC-RDP) i leihau tlodi a hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol mewn ardaloedd gwledig, yn ogystal â hwyluso arallgyfeirio, creu a datblygu mentrau bach a meithrin datblygiadau lleol mewn ardaloedd gwledig.

2.30 Disgwyliwyd hefyd y byddai'r prosiectau a ariannwyd yn cyd-fynd ag amcanion a gwerthoedd brand Cymru ac yn gwneud y mwyaf o gyfleoedd i sicrhau bod eu gwaith yn cyd-fynd â'r dull marchnata 'Blynyddoedd' a fabwysiadwyd gan Croeso Cymru. Yn yr un modd, disgwyliwyd y byddai'r gweithgareddau a ariannwyd yn cyd-fynd â Ffordd Cymru a oedd yn darparu ffocws ar gyfer gweithgaredd marchnata rhyngwladol.

2.31 Roedd y gronfa'n agored i unrhyw sefydliad a oedd yn arwain ar gynigion cydweithredol ar ran partneriaethau a oedd yn cyflawni blaenoriaethau a nodir yn y Cynlluniau Rheoli Cyrchfannau. Roedd cyllid grant refeniw rhwng £30,000 a £150,000 dros gyfnod o ddwy flynedd ar gael, ac roedd yn ofynnol i brosiectau a ariannwyd gyfrannu o leiaf 10 y cant o arian cyfatebol.

2.32 Roedd pob cylch cyllido yn cynnwys dau gam. Roedd y cyntaf yn ymwneud â chyflwyno ffurflen Datganiad o Ddiddordeb i wirio bod y meini prawf cymhwystra wedi'u bodloni a gwahoddwyd ymgeiswyr llwyddiannus i gyflwyno cais llawn.

2.33 Gweinyddwyd dau gylch o'r RTEF. Agorwyd y cylch cyntaf ym mis Hydref 2017 a daeth i ben ym mis Tachwedd 2018. Gwahoddwyd yr ymgeiswyr y bu eu Datganiadau o Ddiddordeb yn llwyddiannus i gyflwyno ceisiadau llawn erbyn mis Chwefror 2018 a disgwyliwyd i brosiectau ddechrau cyflawni o fis Ebrill 2018 ymlaen. Agorwyd yr ail gylch ym mis Hydref 2018 a daeth i ben ym mis Tachwedd 2018. Gwahoddwyd yr ymgeiswyr y bu eu Datganiadau o Ddiddordeb yn llwyddiannus i gyflwyno ceisiadau llawn erbyn mis Chwefror 2019 a disgwyliwyd i brosiectau gael eu cyflawni rhwng mis Ebrill 2019 a mis Rhagfyr 2020.

2.34 Fel gyda TPIF, cafodd Canllawiau 2019-2020 eu diwygio rhyw ychydig i sicrhau y byddai cyllid yn ystod yr ail gylch yn cael ei ddarparu mewn modd mwy rhagnodol gyda ffocws ar brosiectau sy’n cynnig dulliau marchnata arloesol, cynnwys deniadol, pecynnu cynnyrch a'r gallu i archebu.[18] Y prif newid arall a ddigwyddodd oedd dileu cyllid i gefnogi digwyddiadau busnes-i-fusnes erbyn yr ail gylch: roedd y cylch cyntaf yn caniatáu i gyllid RTEF gael ei ddefnyddio i gefnogi ‘pedwar cynnig rhanbarthol/seiliedig ar gcyrchfannau’ i ddenu cynadleddau a digwyddiadau busnes mawr i Gymru ond bod yn rhaid i'r cynigion hyn fod ‘yn hunangynaliadwy ar ôl y cyfnod cyllido cychwynnol hwn’.[19]

[18] Cronfa Ymgysylltu Twristiaeth Ranbarthol EAFRD 2019-2020 Nodyn Cyfarwyddyd, tud.4
[19] Cronfa Ymgysylltu Twristiaeth Ranbarthol EAFRD 2018-2019 Nodyn Cyfarwyddyd, tud.7

2.35 Disgwyliwyd y byddai'r gweithgareddau a ariannwyd yn ystod yr ail gylch yn cynnwys[20]:

- datblygu cynnyrch meddal e.e. deunydd dehongli ffisegol a digidol, digwyddiadau ar raddfa fach, mentrau rheoli ymwelwyr
- marchnata e.e. creu cynnwys, cysylltiadau cyhoeddus, datblygu pecyn teithio, pecynnu cynnyrch, gwybodaeth i ymwelwyr, masnach deithio a digwyddiadau busnes
- cyrchfan Datblygu Busnes e.e., rhwydweithiau cymorth busnes, hyfforddiant sgiliau heb ei achredu
- costau staff, hyd at 20 y cant o gyfanswm costau prosiect (ac eithrio ar gyfer sefydliadau'r trydydd sector).

**Crynodeb**

2.36 Mae Tabl 2.1 yn rhoi crynodeb o'r pedwar Cynllun Twristiaeth Wledig Cymru Gyfan yn ôl gwerth y grant a phrosesau gweinyddu ceisiadau.

[20] Nodwyd enghreifftiau ychydig yn wahanol yn y nodyn cyfarwyddyd cyllido cyntaf.

**Tabl 2.1: Crynodeb o'r pedwar cynllun Twristiaeth Wledig Cymru Gyfan**

| | Math | Gwerth y grant | Angen arian cyfatebol | Trefniadau Gweinyddol |
|---|---|---|---|---|
| MSBF | Cyfalaf | £25,000-500,000 | 60% | Treigl dros y blynyddoedd ariannol 2017/18 a 2020/21 |
| TAIS | Cyfalaf | £25,000-128,000 | 20% | Dau gylch: Datganiadau o Ddiddordeb erbyn Mehefin 2017 a Mai 2018 |
| RTEF | Refeniw | £30,000-150,000 | 10% | Dau gylch: Datganiadau o Ddiddordeb erbyn Tachwedd 2017 a Thachwedd 2018 |
| TPIF | Refeniw | £30,000-150,000 | 10% | Dau gylch: Datganiadau o Ddiddordeb erbyn Tachwedd 2017 a Thachwedd 2018 |

**Trefniadau gweinyddu'r grantiau**

2.37 Roedd trefniadau gweinyddu Llywodraeth Cymru ar gyfer y pedwar cynllun grant yn weddol debyg ac fe'u crynhoir yn yr adran hon. Amlygir unrhyw wahaniaethau rhwng trefniadau gweinyddu'r cynlluniau.

<u>Cyfarwyddiadau Desg ar Arfarnu</u>

2.38 Ar gyfer pob cynllun, datblygwyd cyfarwyddiadau desg manwl ar arfarnu i swyddogion Llywodraeth Cymru yn ymwneud ag arfarnu Datganiadau o Ddiddordeb a cheisiadau llawn.

<u>Cyllid a hawliadau</u>

2.39 Derbyniodd prosiectau llwyddiannus lythyr dyfarnu cyllid gan Lywodraeth Cymru, a oedd yn gyfystyr ag ymrwymiad ffurfiol. Yn ogystal â hynny, roedd Llywodraeth Cymru wedi anfon llythyrau 'bwrw ymlaen a chymryd risg' at brosiectau cyn iddynt dderbyn llythyr cynnig cyllido ffurfiol, gan ganiatáu i brosiectau fwrw ymlaen â'u cynlluniau ar eu menter eu hunain.

2.40 O ran prosesau hawlio a monitro, amlinellwyd proffil taliadau mewn llythyrau cynnig ar gyfer y ddau gynllun cyfalaf. Gallai prosiectau ofyn am gyfnodau hawlio ychwanegol os oes angen. Gwnaed taliadau mewn ôl-daliadau, ond gallai derbynyddion grant yn y trydydd sector ofyn am daliadau ymlaen llaw pe bai angen. Roedd disgwyl i adroddiadau cynnydd a thystiolaeth gael eu cyflwyno gyda phob hawliad.

2.41 Ar gyfer cynlluniau refeniw, roedd disgwyl i brosiectau a ariannwyd gyflwyno hawliadau chwarterol a dyfarnwyd taliad ar sail tystiolaeth o wariant a dalwyd.

Monitro

2.42 Ar gyfer y ddau gynllun cyfalaf MSBF a TAIS, disgwylir i'r ddarpariaeth a'r cyflawniadau yn erbyn allbynnau y cytunwyd arnynt gael eu cofnodi a'u monitro, fel un o amodau'r cynnig, am bum mlynedd ar ôl cwblhau'r prosiect.

2.43 Ar gyfer cynlluniau refeniw, roedd disgwyl i'r ddarpariaeth a'r cyflawniadau yn erbyn allbynnau y cytunwyd arnynt gael eu cofnodi am hyd at chwe mis ar ôl cwblhau'r prosiect.

Caffael

2.44 Roedd disgwyl i brosiectau a ariannwyd fabwysiadu gofynion tendro cystadleuol penodol. Ar gyfer prosiectau a gafodd gyllid cyfalaf, roedd y rhain yn cynnwys un dyfynbris ysgrifenedig ar gyfer nwyddau neu wasanaethau hyd at £5,000; o leiaf ddau ddyfynbris ysgrifenedig ar gyfer nwyddau neu wasanaethau rhwng £5,000 a £25,000 ac o leiaf dri dyfynbris ysgrifenedig ar gyfer nwyddau a gwasanaethau dros £25,000 ac o dan £200,000. Ar gyfer prosiectau a ariannwyd gan refeniw, roedd y rhain yn cynnwys un dyfynbris ysgrifenedig ar gyfer nwyddau neu wasanaethau hyd at £5,000; tri dyfynbris ysgrifenedig ar gyfer nwyddau neu wasanaethau rhwng £5,000 a £25,000; a chystadleuaeth lawn ac agored am unrhyw nwyddau, gwasanaethau neu waith dros £25,000.

Gofynion cyllido'n ymwneud â'r Gymraeg

2.45 Roed y llythyrau a oedd yn cynnig cyllid drwy'r cynllun cyfalaf yn nodi'r hyn yr oedd disgwyl i brosiectau ei fabwysiadu o ran bodloni gofynion yn ymwneud â'r Gymraeg. Yn ogystal â bodloni gofynion deddfwriaethol, roedd disgwyl hefyd i brosiectau (oni bai eu bod yn targedu cynulleidfaoedd y tu allan i Gymru yn unig) roi’r canlynol ar waith:

- arwyddion a deunyddiau dehongli dwyieithog
- deunyddiau marchnata dwyieithog (wedi'u hargraffu ac ar-lein)
- cyfryngau cymdeithasol dwyieithog
- hysbysebion swyddi dwyieithog
- cynllun gweithredu a pholisi iaith Gymraeg.

2.46 Roedd disgwyl i brosiectau a gafodd gyllid refeniw greu cyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg (oni bai eu bod yn targedu cynulleidfaoedd a oedd wedi’u lleoli y tu allan i Gymru yn unig), drwy ddarparu:

- deunyddiau addysgol, rhyngweithiol a dehongli dwyieithog
- arwyddion, cyhoeddiadau, a gwahoddiadau dwyieithog i ddigwyddiadau ar raddfa fach
- deunyddiau marchnata dwyieithog
- gwefannau dwyieithog, a gwefannau Cymraeg wedi'u teilwra sydd wedi'u hanelu at gynulleidfaoedd 'yng Nghymru'
- cyfryngau cymdeithasol dwyieithog.

**Blynyddoedd Thematig Croeso Cymru**

2.47 Bwriadwyd i brosiectau a ariannwyd drwy gynllun Twristiaeth Wledig Cymru Gyfan sicrhau cyfatebiaeth ag ymdrechion Croeso Cymru i hyrwyddo Cymru gan ddefnyddio'r themâu blynyddol 'Blwyddyn', a'u cefnogi. Nod y blynyddoedd thematig oedd datblygu brand mwy pendant ar gyfer twristiaeth yng Nghymru a thrwy wneud hynny, cynyddu nifer yr ymwelwyr a gwerth. Y themâu blynyddol a fabwysiadwyd oedd:

- Antur yn 2016 a oedd yn dathlu Cymru fel lle egnïol, bywiog i ymweld ag ef

- Chwedlau yn 2017 a oedd yn arddangos diwylliant, treftadaeth a thirweddau Cymru ac a greodd chwedlau Cymreig newydd yn cynnwys enwogion y dydd, cynhyrchion a digwyddiadau
- Y Môr yn 2018 a oedd yn dathlu arfordir Cymru a digwyddiadau, gweithgareddau ac atyniadau arfordirol
- Darganfod yn 2019 a ddangosodd yr hyn sy'n gwneud Cymru'n unigryw, gan fabwysiadu dull hyrwyddo aml-haenog i'r tair thema flynyddol flaenorol, sef antur, chwedlau a'r môr.
- Awyr Agored yn 2020, a oedd yn canolbwyntio ar annog ymweliadau â gwahanol rannau o Gymru a hyrwyddo profiadau awyr agored a thirweddau unigryw.

2.48 Yn ogystal â'r blynyddoedd thematig, roedd disgwyl i brosiectau Twristiaeth Wledig Cymru Gyfan hefyd sicrhau cyfatebiaeth â llwybrau cenedlaethol Croeso Cymru a oedd yn rhan o'r ymgyrch 'Ffordd Cymru'. Y tri llwybr cenedlaethol hyn oedd Ffordd yr Arfordir, Ffordd Cambria a Ffordd y Gogledd a oedd yn hyrwyddo profiadau amrywiol yn gysylltiedig â phob taith bosibl.

**Beth gafodd ei ariannu?**

2.49 Dengys Tabl 2.2 fod cyfanswm o 140 o brosiectau wedi'u hariannu ar draws y pedwar cynllun grant rhwng 2017/18 a 2020/21. Dyfarnwyd cyfanswm o £13.1 miliwn o gyllid grant i'r prosiectau hyn. Roedd y cynigion grant unigol yn amrywio o £14,000 i £409,000, gyda gwerth cyfartalog cynnig grant yn £93,522. Cyfanswm costau'r prosiectau a ariannwyd oedd £28 miliwn, felly gwnaed cyfraniad o £15 miliwn o arian cyfatebol[21].

2.50 Fel ar 1 Tachwedd 2022, roedd £12.29 miliwn wedi'i hawlio gan brosiectau a ariannwyd, gan adael ychydig dros £70,000 i'w hawlio gan nifer fach o brosiectau byw.

2.51 Yr MSBF a ariannodd y nifer mwyaf o brosiectau (50) ac mae'n cyfrif am dros draean o'r holl brosiectau a ariannwyd ar draws y cynlluniau. Y TPIF a

[21] Dengys y data a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru na ddarparwyd unrhyw arian cyfatebol ar gyfer 21 o'r prosiectau a ariannwyd yn ystod ail rownd RTEF a TPIF.

ariannodd y nifer lleiaf o brosiectau, sef 22, ac mae hefyd yn cyfrif am y gyfran leiaf o'r grant a ddyfarnwyd.

**Tabl 2.2: Manylion cynlluniau Twristiaeth Wledig Cymru Gyfan a ariannwyd o 2017/18 i 2020/21**

| | Nifer y prosiectau a ariannwyd | Cyfanswm gwerth y cynnig grant a ddyfarnwyd | Cyfanswm cost y prosiect[22] | Gwerth y cynnig grant cyfartalog |
|---|---:|---:|---:|---:|
| MSBF | 50 | £4,844,659 | £19,726,011 | £96,893 |
| TAIS | 43 | £4,104,340 | £5,130,425 | £95,450 |
| RTEF | 25 | £2,343,772 | Ddim ar gael[23] | £93,751 |
| TPIF | 22 | £1,800,365 | Ddim ar gael[24] | £81,835 |
| Cyfanswm | 140 | £13,093,136 | Ddim ar gael | £93,522 |

2.52 O ran gweinyddu'r cyllid grant, bu:

- cylchoedd cyllido blynyddol ar gyfer MSBF (ariannwyd 13 yn 2017/18; 16 yn 2018/19; 11 yn 2019/20 a 10 yn 2021/22)
- dau gylch cyllido ar gyfer TAIS (ariannwyd 23 o brosiectau yn 2017/18 ac 20 yn 2018/19)
- dau gylch cyllido ar gyfer TPIF (ariannwyd 10 prosiect am gyfnod o flwyddyn yn 2018/19 a 12 prosiect yn 2019 am gyfnod o ddwy flynedd hyd at 2021)
- dau gylch cyllido ar gyfer RTEF (ariannwyd 11 prosiect am gyfnod o flwyddyn yn 2018/19 ac 14 o brosiectau yn 2019 am gyfnod o ddwy flynedd hyd at 2021).

[22] Yn cynnwys arian cyfatebol derbynnydd y grant

[23] Dim ond ar gyfer prosiectau a ariannwyd yn ystod yr ail gylch y mae cyfanswm costau prosiectau RTEF ar gael. Yn ystod y cylch hwnnw, defnyddiwyd cynnig grant gwerth £1,376,470 i gefnogi cyfanswm costau prosiectau o £1,573,860.

[24] Dim ond ar gyfer prosiectau a ariannwyd yn ystod yr ail gylch y mae cyfanswm costau prosiectau TPIF ar gael. Yn ystod y cylch hwnnw, defnyddiwyd cynnig grant gwerth £1,286,169 i gefnogi cyfanswm costau prosiectau o £1,503,047.

2.53 O ran cwmpas daearyddol, dengys Tabl 2.3 fod cyfanswm y prosiectau a ariannwyd ym mhob rhanbarth wedi'u dosbarthu'n weddol gyfartal, ac eithrio ar draws gogledd Cymru a gafodd dros draean o'r holl brosiectau a ariannwyd. Mae'r nifer fawr o brosiectau TAIS a gefnogir ar draws gogledd Cymru yn cyfrif am lawer o hyn, o ystyried bod dros ddwy ran o bump o holl brosiectau TAIS wedi'u lleoli ar draws rhanbarth gogledd Cymru.

**Tabl 2.3: Rhaniad rhanbarthol cynlluniau Twristiaeth Wledig Cymru Gyfan 2017/18 i 2020/21 yn ôl nifer y prosiectau**

| | Y gogledd | Y canolbarth | Y de-orllewin | Y de-ddwyrain | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| MSBF | 16 | 13 | 10 | 11 | 50 |
| TAIS | 18 | 9 | 12 | 4 | 43 |
| RTEF | 8 | 3 | 5 | 9 | 25 |
| TPIF | 7 | 6 | 4 | 5 | 22 |
| Cyfanswm | 49 | 31 | 31 | 29 | 140 |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru (Tachwedd 2022)

2.54 Mae Tabl 2.4 yn cadarnhau dosbarthiad daearyddol y prosiectau a ariannwyd ac yn dangos bod gogledd Cymru yn cyfrif am ychydig dros draean yr holl gyllid grant a gynigiwyd ar draws y pedwar cynllun. Mae'r tabl hefyd yn dangos bod gwerth y prosiectau MSBF a ariannwyd ar draws y de-orllewin (sef £703,410) yn is na rhanbarthau eraill er bod 10 prosiect o'r fath yn cael eu cefnogi drwy'r cynllun hwn yn y rhanbarth.

**Tabl 2.4: Rhaniad rhanbarthol cynlluniau Twristiaeth Wledig Cymru Gyfan 2017/18 i 2020/21 yn ôl gwerth y cyllid grant**

| | Y gogledd | Y canolbarth | Y de-orllewin | Y de-ddwyrain | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| MSBF | £1,618,550 | £1,190,252 | £703,410 | £1,334,447 | £4,844,659 |
| TAIS | £1,655,547 | £877,415 | £1,215,407 | £355,970 | £4,104,340 |
| RTEF | £927,670 | £328,752 | £434,420 | £652,930 | £2,343,772 |
| TPIF | £554,900 | £528,283 | £317,887 | £399,295 | £1,800,365 |
| Cyfanswm | £4,756,667 | £2,924,702 | £2,671,124 | £2,671,123 | £13,093,136 |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru (Tachwedd 2022)

2.55 Yn ogystal â’r cyllid grant ar lefel prosiect o £13.1 miliwn, darparwyd £5.6 miliwn arall o gynllun Twristiaeth Ranbarthol Cymru Gyfan, drwy'r elfennau RTEF a TPIF, i gyllido pedair ymgyrch thematig 'Blwyddyn' Croeso Cymru. Nodir y gwariant blynyddol ar y gweithgareddau hyn yn Nhabl 2.5. Yn gyffredinol, roedd gwariant y cynllun yn cyfrif am 37 y cant o gyfanswm gwariant Croeso Cymru ar yr ymgyrchoedd blynyddol hyn a defnyddiwyd y gyfran hon i bennu rhai o’r allbynnau a gynhyrchwyd gan y cynllun (a nodir yn Nhabl 5.8).

**Tabl 2.5: Gwariant cynllun Twristiaeth Wledig Cymru Gyfan ar ymgyrch 'Blwyddyn' Croeso Cymru**

| | Gwariant blynyddol RTEF/TPIF | Gwariant RTEF/TPIF fel % o'r gwariant cyffredinol[25] |
|---|---|---|
| Blwyddyn Chwedlau 2017 | £1,615,758 | 52% |
| Blwyddyn y Môr 2018 | £1,855,289 | 44% |
| Blwyddyn Darganfod 2019 | £866,564 | 23% |
| Blwyddyn Awyr Agored 2020 | £1,389,402 | 32% |
| Cyfanswm | £5,727,012 | 37% |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru (Mai 2023)

**Targedau a chyflawniadau**

2.56 Nodir cyflawniadau terfynol y pedwar cynllun Twristiaeth Wledig Cymru Gyfan, yn erbyn eu targedau diwygiedig, yn Nhablau 2.6 i 2.8. Adroddir ar y cyflawniadau ar gyfer RTEF a TPIF ar y cyd (Tabl 2.8) ac maent yn cynnwys y targedau a gyflawnwyd drwy ymgyrch thematig 'Blynyddoedd' Croeso Cymru.

[25] Mae'r cyfrannau hyn wedi'u cyfrifo gan ddefnyddio cyfanswm yr arian RTEF/TPIF a hawliwyd ar gyfer pob ymgyrch 'Blwyddyn' fel cyfran o gyfanswm y gwariant ym mhob blwyddyn ariannol ar gyfer yr ymgyrch 'Blwyddyn'. Er y byddai wedi bod yn well defnyddio'r cyfanswm a wariwyd ar bob ymgyrch 'Blwyddyn' i gyfrifo'r cyfrannau hyn, nid oedd hyn yn bosibl oherwydd cyfyngiadau o ran amser ac adnoddau.

**Tabl 2.6: Targedau terfynol a ariannwyd [26] a chyflawniadau'r MSBF**

| ***Dangosydd Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru*** | **Targed** | **Allbwn** | **% a gyflawnwyd** |
|---|---:|---:|---:|
| Nifer y lleoliadau / buddiolwyr a gefnogwyd | 50 | 48 | 96% |
| Nifer y camau gweithredu/gweithrediadau a gefnogwyd | 50 | 48 | 96% |
| Nifer y swyddi a grëwyd | 437 | 246 | 56% |
| Swyddi a ddiogelwyd | 75 | 92.5 | 123% |
| Cyflogeion a gefnogwyd, pobl ifanc | 25 | 36.25 | 145% |
| Cyflogeion a gefnogwyd, menywod | 109 | 121 | 111% |
| Cyflogeion a gefnogwyd, siaradwyr Cymraeg | 57 | 48.5 | 85% |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru (Mai 2023)

2.57 Dengys Tabl 2.6 fod y cynllun MSBF wedi rhagori ar dri o blith ei saith targed a ariannwyd, ac un o'r rhain oedd nifer y swyddi a ddiogelwyd. Bu'r cynllun yn agos at gyrraedd tri o'r targedau eraill a ariannwyd. Cyflawnwyd ychydig dros hanner y targed 'swyddi a grëwyd' gan MSBF.

**Tabl 2.7: Targedau a ariannwyd [27] a chyflawniadau TAIS**

| ***Dangosydd Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru*** | **Targed** | **Allbwn** | **% a gyflawnwyd** |
|---|---:|---:|---:|
| Nifer y camau gweithredu/gweithrediadau a gefnogwyd | 50 | 90 | 180% |
| Nifer y cynhyrchion, prosesau neu wasanaethau newydd neu well a lansiwyd | 45 | 23 | 51% |
| Pobl sy'n defnyddio gwasanaethau | 14,516 | 196,747 | 1,355% |

[26] Ailwerthuswyd targedau'r MSBF deirgwaith yn 2018, 2020 ac eto yn 2021. Mae Tabl 2.6 yn nodi'r targedau terfynol wedi'u hailwerthuso.
[27] Cafodd targedau TAIS eu hailwerthuso ar ddau achlysur, yn 2020 a 2021. Mae Tabl 2.7 yn nodi'r targedau terfynol wedi'u hailwerthuso.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Y boblogaeth sy'n elwa o well gwasanaethau/seilwaith | 0 | 0 | Ddim yn berthnasol |
| Mentrau sy'n datblygu'r amgylchedd naturiol a/neu hanesyddol | 45 | 21 | 47% |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru (Tachwedd 2022)

2.58 Fel y dangosir yn Nhabl 2.7, roedd gan TAIS bum targed i'w cyflawni, ond ni osodwyd unrhyw dargedau ac ni adroddwyd ar unrhyw gyflawniadau ar gyfer un o'r rhain (y boblogaeth sy'n elwa o well gwasanaethau neu seilwaith). Rhagorodd y cynllun ar ddau o'i dargedau (nifer y gweithrediadau a gefnogwyd a'r bobl sy'n defnyddio gwasanaethau) a chyflawnodd tua hanner ei ddau darged arall.

**Tabl 2.8: Targedau a ariannwyd [28] a chyflawniadau RTEF a TPIF**

| ***Dangosydd Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru*** | **Targed** | **Allbwn** | **% a gyflawnwyd** |
|---|---|---|---|
| Nifer y prosiectau cydweithrediadol/gweithrediadau a gefnogwyd | 40 | 457 | 1,143% |
| Nifer y rhanddeiliaid yr ymgysylltwyd â nhw | 200 | 6,048 | 3,024% |
| Nifer y prosiectau a ddatblygwyd i farchnata'r cynnyrch twristiaeth wledig | 60 | 286 | 477% |
| Ymwybyddiaeth o farchnata (%) | 30% | 29% | 97% |
| Gwariant ychwanegol gan ymwelwyr | £306m | £365m | 119% |
| Swyddi a gefnogwyd | 35,000 | 2,782 | 8% |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru (Tachwedd 2022)

2.59 Mae'r cynlluniau RTEF a TPIF wedi perfformio'n eithriadol o dda yn erbyn pump o'u targedau, gan ragori ar bedwar ac o fewn trwch blewyn i gyflawni pumed targed (ymwybyddiaeth o farchnata). Mae graddfa'r gor-gyflawni yn erbyn dau darged (nifer y prosiectau cydweithredol/gweithrediadau a gefnogwyd a'r rhanddeiliaid yr ymgysylltwyd â nhw) yn awgrymu eu bod

[28] Cafodd targedau RTEF a TPIF eu hailwerthuso yn 2021. Mae Tabl 2.8 yn nodi'r targedau terfynol wedi'u hailwerthuso.

wedi'u gosod ar lefel llawer rhy isel ar gyfer y cynlluniau. Roedd y perfformiad yn erbyn y chweched targed, sef swyddi a gefnogwyd, yn llawer gwannach ac mae'n werth ystyried y ffactorau sydd i gyfrif am hyn.

2.60 Disgwyliwyd i'r targed ymwybyddiaeth o farchnata (a osodwyd ar 30 y cant) gael ei gyflawni a'i adrodd drwy ddata a gasglwyd gan Arolygon Gwerthuso Marchnata Croeso Cymru. Cytunwyd y byddai cyfran yr ymatebwyr i'r arolwg a soniodd yn ddigymell am Gymru fel cyrchfan wyliau yn cael ei hadrodd fel yr allbwn ar gyfer y targed hwn. Y mesur gorau i ddangos tystiolaeth o hyn oedd cwestiwn yn yr arolwg a ofynnodd: ‘thinking about holiday and short-break destinations in the UK, which destinations, regions or countries, if any come to mind?’ Mae data arolwg chwarterol ar gyfer y cwestiwn hwn a ofynnwyd yn ystod 2017 i 2019 wedi’u hystyried[29], ac mae'r gyfran gyfartalog o 29 y cant a soniodd am Gymru wedi'i nodi yn Nhabl 2.8[30].

2.61 Mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio cyfrifiad safonol y diwydiant[31] i gyfrifo’r gwariant ychwanegol gan ymwelwyr a ddeilliodd o weithgareddau marchnata Croeso Cymru gan gymhwyso’r fethodoleg hon i gyfrifo’r gwariant ychwanegol gan ymwelwyr sy’n gysylltiedig â gwariant RTEF a TPIF ar farchnata, a adroddwyd fel cyfanswm o £365 miliwn, sef £121.6 miliwn y flwyddyn ar gyfartaledd ar draws tair blynedd y cynlluniau.

2.62 Cafodd y 'targed swyddi a gefnogwyd' (a oedd yn 35,000 yn dilyn yr ymarfer ail-werthuso) ei gyfrifo'n amhriodol gan ddefnyddio nifer yr ymweliadau unigryw â gwefan croeso.cymru ac arweiniodd at darged afrealistig o uchel. Yng ngoleuni hyn, penderfynodd Llywodraeth Cymru seilio ei hallbwn ‘swyddi a gefnogwyd’ ar gyfrifiad safonol y diwydiant lle mae angen gwariant ychwanegol gan ymwelwyr o £43,700 i gefnogi un swydd yn y maes twristiaeth..

---

[29] Roedd y cyfrannau'n amrywio o isafbwynt o 27 y cant i uchafbwynt o 31 y cant.

[30] O arolwg 2020 ymlaen, newidiwyd y cwestiwn hwn ac ers hynny gofynnwyd ‘How well, if at all, do you know each of these parts of the UK and Ireland’ a gofynnwyd i'r ymatebwyr i'r arolwg nodi a ydynt yn adnabod Cymru yn dda iawn, yn weddol dda, ychydig neu ddim o gwbl. O ystyried y newid yn y cwestiwn a ofynnwyd, nid ydym wedi ystyried data arolwg 2020 yn Nhabl 5.8. Er gwybodaeth, dywedodd 36 y cant o’r rhai a holwyd eu bod yn adnabod Cymru'n dda iawn neu’n weddol dda.

[31] Mae Croeso Cymru yn defnyddio ei ymchwil ei hun i gyfrifo'r gwariant ychwanegol gan ymwelwyr a gynhyrchir o'i weithgareddau marchnata. Gweler [Tourism_Jobs_and_Growth_2013.pdf (visitbritain.org)]

2.63 Mae'r tri allbwn olaf a adroddir yn Nhabl 2.8 yn gyflawniadau dangosol sy'n seiliedig ar gyfrifiadau safonol cadarn y diwydiant. Er ei fod yn briodol ar gyfer asesu effeithiolrwydd marchnata ymgyrchoedd Croeso Cymru, mae gan y dull hwn ei gyfyngiadau o ran mesur effaith uniongyrchol gwariant RTEF a TPIF. Er gwaethaf hyn, mae'r dull yn cynnig disgrifiad pragmataidd o effaith gweithgareddau'r ymgyrch farchnata:

- arweiniodd gwariant marchnata o £5.7 miliwn ar yr ymgyrch 'Blynyddoedd' drwy RTIF a TPIF at £365 miliwn ychwanegol[32] o wariant gan ymwelwyr ledled Cymru
- arweiniodd y gwariant ychwanegol o £365 miliwn gan ymwelwyr at gefnogi 2,782 o swyddi ar gyfartaledd bob blwyddyn (ar gost o £43,700 yr un)[33]
- mae'r gwariant marchnata wedi helpu i gynnal lefel o 29 y cant o ran yr ymwybyddiaeth o Gymru fel cyrchfan bosibl ymhlith trigolion y DU.

[32] Mae'r ffigurau hyn yn ystyried y ffaith na fyddai unrhyw wariant gan ymwelwyr wedi'i gynhyrchu yn ystod 2020 oherwydd effaith y pandemig COVID-19 ar gyfyngiadau teithio, pan ddaeth gweithgarwch marchnata Croeso Cymru i ben.

[33] Mae'r allbwn o ran swyddi a gefnogir wedi'i gyfrifo gan ddefnyddio'r swyddi cyfartalog a gefnogwyd dros y cyfnod tair blynedd rhwng 2017 a 2019, gan na fyddai'n briodol defnyddio'r swyddi blynyddol cyfun a grëwyd dros y cyfnod hwn ar y sail mai'r un swydd fyddai rhai o'r swyddi hynny

# 3. Methodoleg

3.1 Mae'r bennod hon yn disgrifio'r dull a fabwysiadwyd ar gyfer cynnal y gwerthusiad, yn rhoi proffil o'r cyfranwyr ac yn amlinellu rhai ystyriaethau methodolegol allweddol.

**Dull**

3.2 Roedd y gwerthusiad, a gynhaliwyd rhwng mis Medi 2022 a mis Gorffennaf 2023, yn cynnwys:

- cam cychwynnol, a oedd yn cynnwys cyfarfod cychwynnol gyda swyddogion Llywodraeth Cymru a pharatoi dull methodolegol wedi'i fireinio a chynllun prosiect
- ymchwil desg, a oedd yn cynnwys dadansoddiad o bolisïau a dogfennau strategol perthnasol gan gynnwys cyhoeddiadau Llywodraeth Cymru, yn ogystal ag adolygiad o ddogfennau'r cynllun. Roedd hefyd yn cynnwys ystyriaeth o ddata ar dwristiaeth ac ymwelwyr
- paratoi canllawiau holi a chyfweld ag wyth o swyddogion Llywodraeth Cymru i gael eu barn ar ddiben a dyluniad y cynlluniau yn ogystal â'r canlyniadau a'r effeithiau disgwyliedig; a hwyluso gweithdy Damcaniaeth Newid gydag 11 o swyddogion Llywodraeth Cymru, i brofi cywirdeb model Damcaniaeth Newid drafft. Mae model Damcaniaeth Newid ar gyfer cynllun Twristiaeth Wledig Cymru Gyfan wedi'i gynnwys yn Atodiad A o'r adroddiad hwn
- paratoi arolwg dwyieithog ar-lein ar gyfer prosiectau a ariannwyd a chanllawiau trafod ansoddol ar gyfer cyfweld â phrosiectau a ariannwyd, eu defnyddwyr a'u hymwelwyr, a rhanddeiliaid allweddol eraill, wedi'u hategu gan Hysbysiadau Preifatrwydd perthnasol
- dosbarthu arolwg ar-lein i'r rhai a dderbyniodd gyllid grant a derbyn 61 o ymatebion i'r arolwg. Anfonwyd y gwahoddiad cyntaf drwy e-bost ddiwedd mis Ionawr a derbyniodd yr holl rai na wnaethant ymateb iddo hyd at dair neges e-bost arall a galwad ffôn, yn eu hatgoffa a'u hannog i gymryd rhan yn yr arolwg

- datblygu fframwaith samplu a dewis sampl o 30 o brosiectau cynrychioliadol a ariannwyd i gysylltu â nhw fel rhan o'r gwaith maes ansoddol. Ceir rhagor o fanylion am y dull samplu yn Atodiad B
- ymgymryd â gwaith maes gyda 24 o brosiectau a ariannwyd. Mewn pedwar achos, casglwyd adborth hefyd gan gyfanswm o 35 o ddefnyddwyr neu ymwelwyr
- cyfweld â thri rhanddeiliad allweddol arall a derbyn cyflwyniad ysgrifenedig gan bedwerydd sefydliad
- cyfuno canfyddiadau'r ymchwil desg, gwaith maes a data o'r arolwg a pharatoi'r adroddiad gwerthuso terfynol hwn.

**Proffil o'r ymatebwyr i'r arolwg**

3.3 Defnyddiwyd cronfa ddata o bob un o'r 140 o brosiectau a ariannwyd a oedd wedi derbyn arian grant i ddosbarthu'r arolwg dwyieithog ar-lein. O blith y 140 o gysylltiadau, roedd 10 wedi cael mwy nag un grant: mewn chwe achos roedd y cyswllt wedi cael dau grant ac mewn pedwar achos roedd y cyswllt wedi cael tri grant. Gostyngodd hyn y sampl posibl i 126. Gostyngwyd y sampl ymhellach (i 120) er mwyn ystyried yr achosion hynny lle roedd yn hysbys bod cysylltiadau wedi gadael y sefydliad, lle nad oedd cyfeiriadau e-bost yn gweithio neu lle nad oedd sefydliadau yn masnachu mwyach.

3.4 Dosbarthwyd yr arolwg i gyfanswm o 120 o gysylltiadau a gwiriwyd yr ymatebion cychwynnol am unrhyw broblemau. Daeth cyfanswm o 61 o ymatebion i law. Mae hyn yn cynrychioli cyfradd ymateb uchel o 51 y cant o'r rhai a gafodd wahoddiad i gymryd rhan yn yr arolwg. Rhoddodd y 61 o ymatebion i'r arolwg adborth ar gyfanswm o 67 o brosiectau a ariannwyd. Mae hyn yn cynrychioli 48 y cant o'r 140 o brosiectau a ariannwyd.

3.5 Mae Tabl 3.1 yn cynnwys gwybodaeth am statws y rhai y cysylltwyd â nhw i gwblhau'r arolwg.

**Tabl 3.1: Statws y rhai y cysylltwyd â nhw i gwblhau'r arolwg ar-lein**

| Statws | Proffil |
|---|---|
| Wedi cwblhau'r arolwg | 61 |
| Yn gyfrifol am fwy nag un prosiect | 12 |
| Busnes / sefydliad ddim yn masnachu mwyach | 2 |
| Enw cyswllt(au) wedi gadael y sefydliad | 3 |
| Wedi gwrthod cymryd rhan | 2 |
| Rhy brysur / Salwch yn eu hatal rhag cyfrannu | 2 |
| Rhif ffôn ddim yn cael ei ddefnyddio bellach | 10 |
| E-bost wedi'i ddosbarthu a neges wedi'i gadael (yn uniongyrchol gyda'r derbynnydd a enwir, ar beiriant ateb neu gyda chydweithiwr) | 14 |
| Statws ddim yn hysbys (gan gynnwys y rhai nad oedd eu cyfeiriad e-bost yn gweithio, nad oedd rhif ffôn ar eu cyfer neu nad atebwyd yr alwad ffôn) | 34 |
| Cyfanswm | 140 |

3.6 Cwblhaodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (89 y cant neu 54 o ymatebwyr) yr arolwg yn Saesneg a chwblhaodd saith (11 y cant) yr arolwg yn Gymraeg.

3.7 Mae proffil y rhai a gwblhaodd yr arolwg fel a ganlyn:

- derbyniodd 37 y cant (23 o ymatebwyr) gyllid MSBF, derbyniodd 31 y cant (19 o ymatebwyr) gyllid TAIS, derbyniodd 18 y cant (11 o ymatebwyr) gyllid RTEF a derbyniodd 15 y cant (naw o ymatebwyr) gyllid TPIF
- roedd 89 y cant (54 o ymatebwyr) wedi cael un grant, roedd saith y cant (pedwar ymatebydd) wedi cael dau grant, a phump y cant (tri ymatebydd) wedi cael tri grant
- cafwyd gwasgariad daearyddol da o ymatebwyr i'r arolwg – roedd 33 y cant (20 o ymatebwyr) wedi'u lleoli yn y gogledd, 31 y cant (19 o ymatebwyr) yn y de-orllewin, 20 y cant (12 o ymatebwyr) yn y canolbarth ac 16 y cant (10 o ymatebwyr) yn y de-ddwyrain.

**Proffil y prosiectau a gyfwelwyd**

3.8 Cyfrannodd cyfanswm o 24 o brosiectau at y cyfweliadau ansoddol o blith y sampl o 30 o brosiectau dethol. Nid oedd yn bosibl cyfweld â chwech o'r rhain oherwydd:

- nid oedd un yn masnachu mwyach (MSBF)

- roedd un yn rhy brysur i gyfrannu (MSBF)
- roedd pob cyswllt mewn dau sefydliad wedi symud ymlaen ers hynny (RTEF a TAIS)
- ni wnaeth un sefydliad ymateb i e-byst neu alwadau ffôn (MSBF)
- cytunodd un sefydliad i gyfrannu ond nid oedd ar gael ar gyfer y slot a drefnwyd (MSBF).

3.9 O blith y 24 o brosiectau a gyfwelwyd, roedd naw wedi cael cyllid MSBF, roedd wyth wedi cael cyllid TAIS, pump wedi cael cyllid RTEF a thri wedi cael cyllid TPIF. Ceir proffil manwl o'r prosiectau a ariannwyd ac a samplwyd ar gyfer y gwerthusiad hwn yn Atodiad B.

3.10 Yn achos deg o blith y 24 o gyfweliadau, ymwelwyd â'r prosiect a ariannwyd. Cynhaliwyd gweddill y cyfweliadau drwy alwad fideo. Yn ystod pedwar o'r ymweliadau safle, bu modd manteisio ar y cyfle i gasglu adborth gan gyfanswm o 35 o ddefnyddwyr neu ymwelwyr. Cynhaliwyd cyfweliadau byr, anffurfiol gyda defnyddwyr un prosiect MSBF (caffi), a thri phrosiect TAIS a oedd wedi buddsoddi mewn llwybrau cerdded a beicio neu wedi gwella cyfleusterau parcio. Mewn prosiect MSBF arall yn ymwneud â gwesty, gofynnodd y busnes i dri ymwelydd ateb ychydig o gwestiynau ysgrifenedig, a rhoddwyd y rhain i'r tîm gwerthuso.

3.11 Roedd cyfanswm o 17 o blith y 24 prosiect a gyfwelwyd hefyd wedi cwblhau'r arolwg, ond nid y saith arall. Felly mae'r gwerthusiad hwn yn defnyddio data gan dros hanner yr holl brosiectau a ariannwyd (74 o blith y 140 o brosiectau a ariannwyd).

**Proffil rhanddeiliaid rhanbarthol a lleol**

3.12 Cysylltodd y tîm gwerthuso ag wyth o sefydliadau rhanddeiliaid[34] i gasglu eu barn ar y cynllun. O blith y rhain, cynhaliwyd tri chyfweliad, a derbyniwyd cyflwyniad ysgrifenedig gan bedwerydd sefydliad aelodaeth twristiaeth. Ni chafwyd ymateb gan y pedwar sefydliad arall.

---

[34] Nodwyd y sefydliadau rhanddeiliaid hyn drwy ymarfer desg i gynnwys cymdeithasau masnach twristiaeth a sefydliadau aelodaeth yn ogystal â gofyn am fanylion ar gyfer sampl o swyddogion/cynrychiolwyr twristiaeth awdurdodau lleol drwy CLILC.

**Ystyriaethau methodolegol**

3.13 Mabwysiadwyd dull cymysg ar gyfer y gwerthusiad, yn cynnwys arolwg meintiol ar-lein (yn bennaf) a gwaith maes ansoddol gyda phrosiectau a ariannwyd er mwyn mynd i’r afael â’r cwestiynau ymchwil a osodwyd gan Lywodraeth Cymru. Bwriad yr arolwg ar-lein oedd casglu data lefel uchel ac fe'i anfonwyd i bob prosiect a ariannwyd, a chaniataodd sampl o brosiectau a ddewiswyd ar gyfer gwaith maes ansoddol i'r gwerthusiad gasglu profiadau manwl o'r cynlluniau a'r gwahaniaeth a wnaed o ganlyniad i ymyriadau. Er bod data’r arolwg yn cynrychioli ychydig o dan hanner yr holl brosiectau a ariannwyd, dylid bod yn ofalus wrth ddehongli’r data hyn, yn ogystal â’r data ansoddol a gasglwyd, gan fod meintiau’r samplau’n fach a’r casgliadau y gellir dod iddynt yn gyfyngedig.

3.14 Ychydig o adborth a gasglwyd gan sefydliadau rhanddeiliaid lleol a rhanbarthol eraill. Roedd rhai o'r sefydliadau y disgwyliwyd iddynt gyfrannu at yr arolwg fel rhanddeiliaid wedi derbyn grant, ac felly wedi cyfrannu at y gwerthusiad fel buddiolwr uniongyrchol cyllid grant. Gwybodaeth gyfyngedig a oedd gan y sefydliadau rhanddeiliaid a gyfwelwyd am y prosiectau a ariannwyd drwy'r cynllun ac felly roedd y cyfweliadau hyn yn canolbwyntio ar anghenion cyllido'r sector yn y dyfodol.

3.15 Penderfynwyd na fyddai modd cynnal arolwg o ymgeiswyr aflwyddiannus am grant fel rhan o'r gwerthusiad hwn. Gwnaed y penderfyniad hwn am sawl rheswm - roedd y niferoedd y gwrthodwyd eu cais ar y cam ymgeisio llawn ar gyfer rhai o'r cynlluniau yn fach; mae'r cyfraddau ymateb ar gyfer arolygon ar-lein o ymgeiswyr aflwyddiannus am grant yn tueddu i fod yn isel; ni fyddai pobl yn cofio rhyw lawer am y broses ymgeisio gan i'r cylch cyntaf o geisiadau am gyllid gael eu cyflwyno yn 2017, ac roedd y data cyswllt ar gyfer rhai o'r ymgeiswyr arweiniol yn debygol o fod wedi dyddio.

3.16 Penderfynwyd hefyd y byddai asesiad gwerth am arian yn cael ei gynnal ar gyfer yr MSBF yn unig ar y sail y gallai’r asesiad hwn ymchwilio i gost allbynnau yr adroddwyd amdanynt megis swyddi a grëwyd ac a ddiogelwyd, yn ogystal ag effaith y buddsoddiad ar berfformiad busnes o’r fath fel cyfraniad at unrhyw newidiadau mewn trosiant busnes a lefelau

cyflogaeth. Nid oedd yr allbynnau a adroddwyd ar gyfer y tri chynllun arall yn addas ar gyfer cyfrifiad gwerth am arian yn yr un modd â'r MSBF, lle y roedd allbynnau'r cynllun yn fwy addas ar gyfer dadansoddiad o'r fath.

## 4. Diben y gronfa

4.1 Mae’r bennod hon yn ystyried barn swyddogion Llywodraeth Cymru ar ddyluniad a gweithrediad cynllun Twristiaeth Wledig Cymru Gyfan, a gasglwyd drwy gyfweliadau cwmpasu a gynhaliwyd ym mis Hydref 2022. Mae hefyd yn ystyried barn prosiectau a gyfwelwyd am eu dealltwriaeth o nodau ac amcanion y cynllun.

**Yr hyn yr oedd cynllun Twristiaeth Wledig Cymru Gyfan wedi'i fwriadu i'w gyflawni**

4.2 Ategodd swyddogion Llywodraeth Cymru y ffaith mai un o nodau allweddol cynllun Twristiaeth Wledig Cymru Gyfan oedd gwella ansawdd y ddarpariaeth dwristiaeth ac ymestyn y cynnig twristiaeth ar draws Cymru wledig drwy fuddsoddi cyllid cyfalaf yn y sector drwy MSBF a TAIS. Dadleuwyd y byddai buddsoddi mewn seilwaith a chynhyrchion cyfalaf yn helpu i ddarparu gwell profiad i ymwelwyr â Chymru a ddylai, yn ei dro, arwain at fwy o ymwelwyr a chreu mwy o swyddi o ansawdd gwell ar draws y sector.

4.3 Ystyriwyd bod darparu buddsoddiad refeniw i’r sector yn bwysig er mwyn helpu i hyrwyddo’r cynnig twristiaeth yn well i farchnadoedd newydd, a fyddai yn ei dro yn denu mwy o ymwelwyr i ardaloedd gwledig. Roedd hefyd yn ymwneud â galluogi dull gweithredu wedi'i arwain gan gynnyrch am y tro cyntaf. Amlygwyd TPIF fel cynllun a oedd yn anelu at gefnogi sefydliadau yn y sector preifat i ddatblygu cynhyrchion twristiaeth arloesol. Tynnodd sawl cyfrannwr sylw at bwysigrwydd cynllun refeniw RTEF fel mecanwaith cyllido gyda’r nod o ysgogi mwy o ddulliau marchnata cydweithredol ar draws sefydliadau’r sector cyhoeddus.

4.4 Tynnodd nifer o swyddogion Llywodraeth Cymru sylw at bwysigrwydd mabwysiadu dull strategol yn seiliedig ar leoedd fel rhan o gynllun Twristiaeth Wledig Cymru Gyfan, yn ogystal â buddsoddi cyllid yn unol ag egwyddorion a gweithgareddau rheoli cyrchfannau cadarn a oedd yn cyd-fynd â blaenoriaethau Croeso Cymru. Dywedodd swyddogion Llywodraeth Cymru fod y cynlluniau wedi'u dylunio mewn ffordd a allai gefnogi dull buddsoddi mwy cydgysylltiedig nag a fabwysiadwyd yn hanesyddol.

Dywedodd y cyfranwyr, er bod rhyw elfen o gystadleuaeth a dyblygu rhwng yr hyn yr oedd cynlluniau cyllido blaenorol yn ei gynnig, nid oedd hyn yn wir am gynllun Twristiaeth Wledig Cymru Gyfan, y credwyd ei fod wedi'i ddylunio mewn modd mwy strategol i lenwi bylchau cyllido. Roedd y ffaith bod y cynlluniau wedi'u dylunio ar y cyd â phartneriaid allweddol o'r sector, gan gynnwys awdurdodau lleol a'r sector preifat, wedi helpu hyn yn rhannol. Disgwyliwyd y byddai defnyddio cyllid refeniw mewn ffordd fwy penodol yn helpu'r sector i gyrraedd marchnadoedd penodol mewn lleoliadau penodol.

**Rhagdybiaethau allweddol sy'n sail i gynllun Twristiaeth Wledig Cymru Gyfan**

4.5 Roedd y rhagdybiaethau allweddol a wnaed wrth ddylunio cynllun Twristiaeth Wledig Cymru Gyfan, o ran sut y disgwyliwyd i'r cynlluniau greu newid, yn cynnwys y canlynol:

- roedd bwlch yn y farchnad o ran cyllid cyfalaf a refeniw, ac roedd angen ymyrraeth gan y sector cyhoeddus i ysgogi datblygiadau a gwelliannau ar draws y sector twristiaeth mewn ardaloedd gwledig yng Nghymru a byddai gwelliannau o'r fath yn helpu i dyfu'r sector twristiaeth
- mabwysiadwyd dull mwy strategol o fuddsoddi yn y sector o gymharu â mentrau cyllido blaenorol a fyddai'n arwain at lai o ddadleoli o gymharu â chynlluniau grant blaenorol
- gellid manteisio i'r eithaf ar yr adnoddau ariannol sydd ar gael i'r sector pe bai Llywodraeth Cymru yn sicrhau cyllid Rhaglen Datblygu Gwledig i gyfateb i lefelau cyllid domestig, gan gyflawni mwy o allbynnau a chanlyniadau
- byddai digon o ddiddordeb gan sefydliadau yn y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector i wneud cais am gyllid drwy gynllun cyllido cystadleuol a gallai ymgeiswyr fodloni gofynion arian cyfatebol y cynlluniau. Roedd lefel yr arian cyfatebol yr oedd ei angen ar ymgeiswyr ar draws y pedwar cynllun yn amrywio, ac felly roedd disgwyl i hynny ddylanwadu ar lefel y galw

- byddai natur gystadleuol y gronfa yn arwain at gefnogi prosiectau o’r ansawdd gorau, a oedd yn cyd-fynd â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru.
- efallai na fyddai rhai prosiectau a ariannwyd mor llwyddiannus ag eraill, ond roedd swyddogion Llywodraeth Cymru yn credu ei bod yn bwysig cyllido gweithgareddau peilot arloesol gan dderbyn y gallai rhai o’r rhain fethu.

**Cydweddiad strategol â pholisïau a strategaethau**

4.6 Roedd swyddogion Llywodraeth Cymru yn credu bod cynllun Twristiaeth Wledig Cymru Gyfan yn cyd-fynd yn dda â blaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru a’r UE, gan i’r cynlluniau gael eu datblygu i helpu i gyflawni uchelgeisiau twf y strategaeth hirdymor Partneriaeth ar gyfer Twf. Pwysleisiodd swyddogion Llywodraeth Cymru hefyd fod disgwyl i'r cynlluniau gyd-fynd ag uchelgeisiau a themâu ymgyrchoedd 'Blynyddoedd' Croeso Cymru, a bod y rhain wedi'u hymgorffori mewn canllawiau cyllido a phrosesau asesu.

4.7 Credwyd hefyd bod y cynlluniau’n adeiladu’n effeithiol ar lwyddiannau a gwersi a ddysgwyd o fentrau blaenorol megis y rhaglen Amgylchedd ar gyfer Twf a ariannwyd gan yr UE (drwy Raglen Datblygu Gwledig 2013-17) a’r Cynllun Cymorth Buddsoddi mewn Twristiaeth (TISS).

4.8 Pwysleisiodd y rhanddeiliaid nad oedd unrhyw gynlluniau buddsoddi tebyg i'r rhai a ariennir drwy gynllun Twristiaeth Wledig Cymru Gyfan ar waith. Roedd disgwyl i gynllun Twristiaeth Wledig Cymru Gyfan lenwi bwlch buddsoddi ar gyfer datblygiadau cyfalaf ar raddfa fach yn y sector preifat gan fod cynlluniau amgen megis y rhaglen Cyrchfannau Denu Twristiaeth a TISS ill dau yn canolbwyntio ar ddatblygiadau mawr. Yn yr un modd, dadleuodd swyddogion Llywodraeth Cymru nad oedd cyllid cyfalaf a refeniw ar gyfer y sector cyhoeddus a'r sector preifat ar gael drwy unrhyw ddulliau cyllido eraill.

4.9 Nododd swyddogion Llywodraeth Cymru fod llawer o dystiolaeth o’r angen am gyllid grant i gefnogi datblygiad a thwf y sector, yn enwedig drwy ymchwil diweddar i dwristiaeth ac ymwelwyr. Er enghraifft, roedd adborth

gan ymwelwyr ar ansawdd, argaeledd a hygyrchedd seilwaith sylfaenol fel toiledau a meysydd parcio mewn safleoedd twristiaeth yn cael sgorau cyson is nag agweddau eraill ar y ddarpariaeth a oedd yn cyfiawnhau'r angen am gynllun cyfalaf TAIS. Roedd hefyd yn wir nad oedd gan sefydliadau'r sector cyhoeddus adnoddau i fuddsoddi yn y cyfleusterau hyn eu hunain.

4.10 Roedd swyddogion Llywodraeth Cymru hefyd yn credu bod blaenoriaethau'r Rhaglen Datblygu Gwledig yn cyd-fynd yn dda â chynlluniau Twristiaeth Wledig Cymru Gyfan ac yn galluogi Llywodraeth Cymru i 'ddyblu ei chronfa gyllido' ar gyfer y sector. Er gwaethaf hyn, credwyd bod cyfyngiadau daearyddol y rhaglen, sef mai dim ond wardiau mewn ardaloedd gwledig a allai elwa ar y buddsoddiad, yn peri heriau i brosiectau a oedd yn cael cyllid refeniw. Cyfeiriodd swyddogion Llywodraeth Cymru at brosiectau marchnata fel enghreifftiau lle yr oedd cyfyngiadau daearyddol y cyllid wedi'i gwneud yn anodd hyrwyddo ardaloedd daearyddol mwy i farchnadoedd newydd posibl.

**Dealltwriaeth prosiectau a ariannwyd o nodau ac amcanion y cynllun**

4.11 Roedd y nodau a'r amcanion yr oedd y prosiectau a gyfwelwyd yn eu cofio yn debyg, ac roedd y rhain yn amrywio rhyw fymryn o un cynllun i'r llall. Roedd prosiectau a ariannwyd gan MSBF yn deall mai diben y cynllun oedd gwella ansawdd yr arlwy i dwristiaid ledled Cymru wledig, boed hynny drwy ehangu neu adnewyddu. Roedd nifer o'r prosiectau hyn yn darparu llety ac yn deall bod yr MSBF yn canolbwyntio ar gefnogi'r gwaith o ddatblygu llety a chyfleusterau o ansawdd uchel. Darparwyd enghreifftiau o'r gronfa'n cael ei defnyddio i wella, ehangu neu uwchraddio llety a mannau cyffredin fel lolfeydd neu gyfleusterau sba. Mewn un achos, diwygiodd un busnes ei gynlluniau i ddatblygu llety 4* yn lle llety 3* pan eglurodd adborth gan Lywodraeth Cymru na fyddai datblygiadau 3* yn cael eu cefnogi. Roedd cydnabyddiaeth gyffredin hefyd bod y cynllun yn ymwneud â chefnogi prosiectau lle roedd galw heb ei ddiwallu yn yr ardal.

4.12 Roedd prosiectau a ariannwyd gan TAIS ar ddeall bod y cynllun yn ymwneud â gwella ansawdd cyfleusterau twristiaeth mewn ardaloedd

gwledig, gan gynnwys gwella amwynderau a chyfleusterau safonol y byddai twristiaid yn eu disgwyl, er mwyn gwella eu profiad o gyrchfannau twristiaeth. Pwysleisiodd y prosiectau a gyfwelwyd fod y gronfa yno i wneud gwelliannau i feysydd parcio, uwchraddio toiledau, gosod pwyntiau gwefru ceir, gwneud safleoedd yn fwy hygyrch, ac uwchraddio neu gyflwyno cysgodfannau bysiau. Nododd eraill mai diben y gronfa oedd darparu grant i gefnogi'r gwaith o ddatblygu ac ehangu llwybrau beicio a cherdded, yn ogystal â gwella arwyddion a gwybodaeth i ymwelwyr gan y byddai’r buddsoddiadau hyn yn helpu i greu ymdeimlad o gyrraedd cyrchfan. Mewn un achos, ystyriwyd bod y gronfa yn fodd o ddatrys problem leol yn ymwneud â pharcio gwrthgymdeithasol a blocio ffyrdd.

4.13 Roedd prosiectau RTEF a TPIF ar ddeall bod y cynlluniau yn gronfeydd a fyddai’n helpu sefydliadau i ymgymryd â gwaith ymgysylltu newydd yn y maes twristiaeth, datblygu adnoddau hyrwyddo, yn ogystal â datblygu cynhyrchion twristiaeth newydd, gyda’r nod o ddenu mwy o ymwelwyr i gefn gwlad Cymru yn enwedig yn ystod tymhorau ysgwydd a thymhorau tawel. Croesawyd y gronfa gan awdurdodau yn y sector cyhoeddus yn arbennig, o ystyried y diffyg adnoddau sydd ar gael ar draws awdurdodau lleol i wneud y math hwn o waith. Roedd prosiectau TPIF o'r farn bod y gronfa'n bwysig i ddatblygu cynhyrchion sy'n rhannu ac yn dathlu diwylliant Cymru gyda thwristiaid. Roedd un prosiect o’r fath wedi gwneud defnydd creadigol o gronfa TPIF drwy fuddsoddi mewn cadeiriau pren enfawr ar hyd taith dwy filltir o gastell Harlech, drwy’r dref ac i’r traeth i adlewyrchu chwedlau Harlech, fel chwedl Meirion. Roedd eraill wedi defnyddio'r gronfa i gefnogi digwyddiadau penodol, megis carnifal â ffocws cymunedol.

**Sylwadau i gloi**

4.14 Mae’r adborth a gasglwyd yn ystod y gwaith maes yn awgrymu bod cyfatebiaeth gref rhwng yr hyn yr oedd swyddogion Llywodraeth Cymru yn ei ddisgwyl gan y cynlluniau a’r hyn yr oedd y prosiectau a ariannwyd yn ei ddeall am y disgwyliadau a'r hyn yr oeddent yn bwriadu ei gyflawni. Roedd barn gyffredin hefyd mai bwriad y cynlluniau oedd mynd i'r afael â bwlch yn y farchnad nad oedd yn cael ei lenwi drwy unrhyw ddull arall.


# 5. Y ffordd y rheolwyd y cynllun

5.1 Mae'r bennod hon yn ystyried sut y rheolwyd y cynllun, gan gynnwys sut y daeth ymgeiswyr i glywed amdano, a barn y prosiectau a ariannwyd am y prosesau ymgeisio a monitro.

**Clywed am y cynllun**

5.2 Yn bennaf, roedd yr ymatebwyr i'r arolwg wedi dod i glywed am gynllun Twristiaeth Wledig Cymru Gyfan drwy ohebiaeth uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru, er bod llawer hefyd wedi gwneud eu gwaith ymchwil eu hunain ac wedi canfod gwefan Llywodraeth Cymru fel ffynhonnell wybodaeth, fel y dangosir yn Ffigur 5.1.

**Ffigur 5.1: Dull o glywed am gynllun Twristiaeth Wledig Cymru Gyfan**




Ffynhonnell: Arolwg ar-lein gan OB3 (61 o ymatebion) Gallai'r ymatebwyr ddewis mwy nag un opsiwn

5.3 Soniodd y prosiectau a gyfwelwyd eu bod wedi clywed am y cynllun drwy ystod eang o ddulliau. Roedd rheolwyr rhanbarthol Croeso Cymru wedi bod yn ffynhonnell allweddol o wybodaeth am y cyllid, yn ogystal ag e-gylchlythyrau cyffredinol a gyhoeddwyd gan Croeso Cymru ac awdurdodau lleol. Roedd cyfarfodydd rhwydweithio twristiaeth lleol hefyd wedi chwarae rhan bwysig yn hyn o beth, ac roedd dau brosiect a gyfwelwyd wedi clywed

am y cynllun drwy ddarparwr cymorth busnes Cyswllt Ffermio, Landsker. Nododd sawl un a gyfwelwyd fod unigolion o fewn eu sefydliadau yn gyfrifol am godi arian a pharatoi ceisiadau am gyllid felly byddent wedi bod yn chwilio am y math hwn o gyllid grant.

**Y broses ymgeisio**

Barn Llywodraeth Cymru am y prosesau ymgeisio

5.4 Roedd y prif sylwadau gan swyddogion Llywodraeth Cymru ar y nifer a oedd yn manteisio ar y pedwar cynllun grant a'r galw amdanynt fel a ganlyn:

- roedd y nifer a fanteisiodd ar yr MSBF yn arafach na'r disgwyl. Awgrymodd swyddogion Llywodraeth Cymru fod ymgeiswyr posibl yn cael eu darbwyllo i beidio â gwneud cais oherwydd bod amodau cyllido'r Rhaglen Datblygu Gwledig yn feichus; bod cyfraddau ymyrryd gwahanol ar draws gwahanol ardaloedd o Gymru yn arwain at wahaniaethau yn y lefel o ddiddordeb; a'r gofyniad i brosiectau a ariannwyd gael eu cwblhau o fewn amserlen dynn o hyd at flwyddyn
- roedd y galw am TAIS yn uchel iawn a dadleuodd swyddogion Llywodraeth Cymru y gallai nifer fwy o brosiectau o ansawdd uchel fod wedi cael eu cefnogi pe bai mwy o gyllid ar gael
- roedd y galw am gynlluniau refeniw RTEF a TPIF yn 'iach' ac roedd y ddau gynllun yn 'orlawn'. Awgrymodd swyddogion Llywodraeth Cymru fod ansawdd y ceisiadau yn fwy amrywiol ar gyfer y ddau gynllun hyn, ac oherwydd bod meini prawf dethol yn ystyried ffactorau megis angen strategol a gwerth am arian, cefnogwyd ambell brosiect o ansawdd is.

5.5 O ran y prosesau ymgeisio, dywedodd swyddogion Llywodraeth Cymru:

- y gwnaed pob ymdrech i fabwysiadu a dilyn arfer gorau o ran y prosesau ymgeisio am grant fel yr amlinellir gan y Ganolfan Ragoriaeth Grantiau[35]


[35] https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-07/safonau-ar-gyfer-cynllyn-grant.pdf

- roedd y broses ymgeisio dau gam yn syml ac nid oedd yn cael ei hystyried yn feichus i ymgeiswyr
- roedd y prosesau ymgeisio yn dilyn yr amserlenni a nodwyd yn y canllawiau cyllido ac ystyriwyd eu bod wedi'u rhoi ar waith yn gymharol ddidrafferth
- roedd y gwaith o weinyddu'r prosesau ymgeisio yn feichus i Croeso Cymru, ac roedd yn rhaid ymrwymo adnoddau staff presennol ar gyfer paneli ceisiadau. Penododd Croeso Cymru aelod ychwanegol o staff i gefnogi'r broses ymgeisio, ac ariannwyd y swydd hon drwy gyllid domestig.

<u>Barn y prosiectau a ariannwyd am y prosesau ymgeisio</u>

5.6 Roedd yr hyn yr oedd yr ymatebwyr i'r arolwg a'r prosiectau a gyfwelwyd yn ei gofio am y broses ymgeisio braidd yn annelwig, a hynny'n bennaf oherwydd treigl amser yn ogystal â'r ffaith nad oedd y cyfranwyr bob amser wedi ymwneud yn uniongyrchol â'r broses. Nid oedd un rhan o bump o'r rhai a holwyd (20 y cant neu 12 o blith 61) yn gallu cofio'r broses ymgeisio neu nid oeddent wedi bod yn gysylltiedig â hi ac nid oedd pedwar o'r rhai a gyfwelwyd wedi bod yn rhan o'r broses. Roedd 71 y cant o'r ymatebwyr i'r arolwg (43) o'r farn bod cwblhau'r Datganiad o Ddiddordeb yn hawdd ac roedd 43 y cant (26) o'r farn bod y ffurflen gais lawn yn hawdd, fel y dangosir yn Ffigur 5.2. Roedd bron pob un o'r prosiectau a gyfwelwyd o'r farn bod y broses ymgeisio dau gam yn briodol ac yn meddwl ei bod yn fuddiol mai dim ond cwblhau Datganiad o Ddiddordeb byr yr oedd yn rhaid ei wneud fel cam cyntaf. Roedd busnesau'r sector preifat a gefnogwyd drwy'r MSBF ychydig yn fwy tebygol o awgrymu bod y broses ymgeisio wedi bod yn feichus, yn enwedig y rhai a oedd wedi gwneud cais am symiau cymharol fach o gyllid. O blith y 23 o ymatebwyr MSBF a holwyd, roedd 43 y cant (10) o'r farn bod y cais llawn yn anodd.


**Ffigur 5.2: Pa mor hawdd oedd cwblhau'r Datganiad o Ddiddordeb a'r ffurflen gais**




Ffynhonnell: Arolwg ar-lein gan OB3 (61 o ymatebion)

5.7 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr i'r arolwg o'r farn bod y canllawiau ymgeisio am gyllid a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru wedi bod yn ddefnyddiol iawn (28 y cant neu 17) neu'n weddol ddefnyddiol (57 y cant neu 35), fel y dangosir yn Ffigur 5.3.


**Ffigur 5.3: Barn ar y canllawiau ymgeisio am gyllid**




Ffynhonnell: Arolwg ar-lein gan OB3 (61 o ymatebion)

5.8 Roedd yr adborth a ddarparwyd gan yr ymatebwyr i'r arolwg a'r prosiectau a gyfwelwyd am rôl a chefnogaeth swyddogion Llywodraeth Cymru yn hynod gadarnhaol. Dywedodd sawl prosiect a gyfwelwyd fod ganddo berthynas agos ac adeiladol gyda swyddog penodol yn Croeso Cymru, a oedd wedi gweithredu fel 'cyfaill beirniadol', yn ystod y broses ymgeisio yn ogystal ag wrth gyflawni'r prosiect. Dywedodd pob ymatebydd i'r arolwg heblaw un bod y cyngor neu'r adborth a ddarparwyd gan swyddogion Llywodraeth Cymru wedi bod yn ddefnyddiol iawn (28 y cant neu 17) neu'n weddol ddefnyddiol (57 y cant neu 35), fel y dangosir yn Ffigur 5.3. Nid oedd un ymatebydd i'r arolwg yn ystyried bod y cyngor yn arbennig o ddefnyddiol. Ni wnaeth gweddill yr ymatebwyr ofyn am gyngor, neu ni allent gofio, neu ni wnaethant ateb y cwestiwn.

**Ffigur 5.4: Barn ar y cyngor a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru**





Ffynhonnell: Arolwg ar-lein gan OB3 (61 o ymatebion)

5.9 At ei gilydd, roedd y prosiectau a gyfwelwyd yn fodlon ar lefel yr arian cyfatebol a oedd yn ofynnol fel un o amodau'r grant, ni waeth pa gynllun yr oeddent wedi gwneud cais amdano (a'r lefel wahanol o arian cyfatebol yr oedd ei angen). Yr unig eithriadau i hyn oedd dau sefydliad o'r trydydd sector, a ariannwyd drwy'r MSBF a TPIF, a oedd wedi'i chael hi'n anodd dod o hyd i'r arian cyfatebol gofynnol.

5.10 Ar y cyfan, roedd y prosiectau a ariannwyd yn fodlon gyda'r amser a gymerodd Llywodraeth Cymru i asesu eu Datganiad o Ddiddordeb a'u cais

llawn, ac roedd yn amlwg nad oedd yr amserlenni a fabwysiadwyd wedi amharu'n sylweddol ar gyflawni'r prosiectau. Fel y dangosir yn Ffigur 5.5, roedd dwy ran o dair o'r ymatebwyr i'r arolwg (66 y cant neu 40) o'r farn bod yr amser a gymerodd Llywodraeth Cymru i asesu eu Datganiad o Ddiddordeb a'u cais llawn wedi bod yn dderbyniol ac roedd un rhan o bump (18 y cant neu 11) yn credu bod hyn wedi cymryd gormod o amser. Roedd y gyfran a oedd yn weddill (16 y cant neu naw) ddim yn gwybod neu heb ateb y cwestiwn. Roedd prosiectau a ariannwyd gan TPIF yn fwy tebygol o ddweud bod yr amser a gymerwyd wedi bod yn rhy hir, gyda 44 y cant (pedwar o blith naw) o ymatebwyr i arolwg TPIF yn nodi hynny. Dim ond dau o blith y 24 o brosiectau a gyfwelwyd a oedd yn meddwl bod y broses gymeradwyo wedi cymryd gormod o amser.

**Ffigur 5.5: Barn ar yr amser a gymerwyd i asesu Datganiad o Ddiddordeb a chais llawn**




Ffynhonnell: Arolwg ar-lein gan OB3 (61 o ymatebion)

5.11 Nododd dadansoddiad o gyfweliadau â phrosiectau a 32 o ymatebion i'r arolwg y canlynol fel cryfderau'r broses ymgeisio:

- gallu trafod y broses gyda swyddogion Croeso Cymru, a oedd ar gael yn gyfleus, ac a roddodd gyngor 'cefnogol a defnyddiol'.
- canllawiau defnyddiol, clir a manwl a wnaeth y broses ymgeisio yn 'hawdd ei dilyn'

- ffurflen gais syml a oedd yn 'hawdd ei deall', yn 'glir iawn' ac yn cynnwys 'cwestiynau synhwyrol' a oedd yn ei gwneud yn hawdd ei chwblhau. Dywedodd un ymatebydd fod y broses wedi bod yn 'llawer symlach a chyflymach na ffynonellau cyllido eraill'
- er bod rhai ymatebwyr wedi nodi bod y cais wedi bod yn 'drylwyr' a bod 'angen llawer o fanylion', roeddent wedi gweld gwerth i hyn gan ei fod wedi bod yn 'ddefnyddiol yn ddiweddarach yn y broses' ac wedi bod yn 'ddefnyddiol fel arf ar gyfer cynnal dadansoddiad difrifol o'r busnes.' Nododd un prosiect a gyfwelwyd fod y broses wedi ei annog i feddwl mwy am yr allbynnau arfaethedig ac wedi hwyluso trafodaethau ystyrlon gyda phartneriaid y prosiect.

5.12 At ei gilydd, cynigiodd 25 o ymatebwyr i'r arolwg ac 11 o brosiectau a gyfwelwyd awgrymiadau ar gyfer gwella'r broses ymgeisio. Roedd y rhain fel a ganlyn, ac fe'u hawgrymwyd gan ddim mwy na dau neu dri phrosiect yr un:

- symleiddio neu leihau'r baich ar ymgeiswyr i sicrhau 'dyfynbrisiau a phrisiau cyn cyflwyno cais'. Roedd hyn wedi bod yn arbennig o anodd i ymgeiswyr yn ystod y pandemig, pan oedd llunio unrhyw ragolygon ariannol yn dasg ddiwerth oherwydd costau cynyddol ac anawsterau o ran sicrhau contractwyr
- caniatáu mwy o amser rhwng cyflwyno'r Datganiad o Ddiddordeb a'r cam ymgeisio llawn er mwyn caniatáu i ymgeiswyr gasglu gwybodaeth, gan gynnwys darparu 'rhybudd ymlaen llaw o'r wybodaeth sydd ei hangen'
- mabwysiadu prosesau penderfynu cyflymach. Roedd yr ymatebwyr o'r farn bod angen 'cyflymu'r prosesau cymeradwyo' a bod 'oedi hir wedi bod ar rai achlysuron cyn clywed am benderfyniadau.' Roedd hyn yn effeithio ar yr amserlenni cyflawni ar gyfer rhai prosiectau e.e., 'roedd yr amser rhwng y Datganiad o Ddiddordeb a chymeradwyo'r cais llawn yn rhy hir gan olygu bod y gwariant ar RTEF wedi'i grynhoi sy'n achosi problemau wrth geisio penodi neu secondio staff i gyflawni prosiectau'

- darparu mwy o gyngor a chymorth i ymgeiswyr megis cyngor ar gymorth gwladwriaethol a chymorth i ddod o hyd i gyflenwyr a chontractwyr, o bosibl drwy fframwaith cenedlaethol o gyflenwyr cymeradwy y gellid eu defnyddio
- gwella fformat y Datganiad o Ddiddordeb a'r ffurflen gais yr ystyriwyd eu bod yn 'anodd iawn eu trin a'u torri a'u gludo. Byddai dogfen Word syml yn llawer haws i'w defnyddio'
- cynnwys ymweliad safle gan swyddogion Croeso Cymru yn y broses ymgeisio, er mwyn sicrhau eu bod yn cael dealltwriaeth fanwl o’r prosiect arfaethedig.

**Trefniadau gweinyddu'r grantiau**

5.13 Roedd dau swyddog cyllid Croeso Cymru yn gyfrifol am gyhoeddi cynigion grant a phrosesu'r holl hawliadau grant a dderbyniwyd. Nododd swyddogion Llywodraeth Cymru bod yn rhaid gwirio’r holl eitemau gwariant a hawliwyd er mwyn bodloni gofynion cyllido'r Rhaglen Datblygu Gwledig, ac roedd hyn yn llafurus o gymharu â gwerth y gwariant grant o safbwynt adnoddau Llywodraeth Cymru a'r prosiectau a ariannwyd.

5.14 Rhannwyd y cyfrifoldeb am reoli a monitro'r grantiau ar draws tîm Croeso Cymru. Cymerodd timau rhanbarthol Croeso Cymru gyfrifoldeb dros fonitro prosiectau refeniw a ariannwyd drwy TPIF a RTEF tra bod y cyfrifoldeb am y ddwy gronfa gyfalaf yn aros o fewn tîm canolog Croeso Cymru.

5.15 O ran gweinyddu'r grantiau, tynnodd swyddogion Llywodraeth Cymru sylw at y materion a’r gwersi a ddysgwyd mewn perthynas â gweinyddu'r grantiau:

- roedd yn ofynnol i brosiectau a ariannwyd wario a hawlio eu grant o fewn cyfnod o flwyddyn, o leiaf i ddechrau, ar draws yr holl gynlluniau nes i gyfnod cyflawni hirach gael ei gyflwyno. Bu'r amserlenni tynn yn her i lawer o'r prosiectau a gafodd gyllid cyfalaf megis y rhai a gefnogwyd drwy'r MSBF, gan fod angen i'r mathau hyn o brosiectau gynnwys amser ar gyfer datblygu a sicrhau caniatâd cynllunio, a dod o hyd i gontractwyr a chyflenwadau er


mwyn cyflawni eu prosiectau. Awgrymodd swyddogion Llywodraeth Cymru fod llawer o brosiectau cyfalaf yn cael trafferth gwario eu dyraniad cyllid o fewn y cyfnod o flwyddyn. Cafodd y mater hwn ei ystyried yn y cylchoedd cyllido olaf, gan y rhoddwyd hyd at ddwy flynedd i brosiectau RTEF a TPIF gyflawni eu gweithgareddau

- nid oedd gan rai prosiectau a ariannwyd unrhyw ddata sylfaenol megis gwybodaeth am nifer yr ymwelwyr blynyddol ar y dechrau ac roedd yn rhaid iddynt gyflwyno prosesau newydd i gasglu data o’r fath er mwyn bodloni amodau adrodd y grantiau
- roedd swyddogion Llywodraeth Cymru o’r farn bod y sector yn credu bod y dystiolaeth yr oedd angen i brosiectau a ariannwyd ei chyflwyno i gefnogi eu hawliadau ariannol yn eithaf beichus. Roedd yn ofynnol i brosiectau a ariannwyd ddarparu dogfennau papur i gefnogi eu hawliadau, a bu hyn yn her i lawer a oedd yn dibynnu ar gofnodion cadw cyfrifon electronig
- er bod yr hawliad terfynol wedi’i gyflwyno i WEFO, roedd swyddogion Llywodraeth Cymru yn ymwybodol nad oedd y cyflawniadau wedi cael eu cofnodi'n ddigonol gan nad oedd swyddogion Llywodraeth Cymru wedi cynnal eu hymweliadau monitro canol tymor â’r holl brosiectau a ariannwyd. Awgrymwyd bod y prosiectau a ariannwyd wedi tangofnodi eu cyflawniadau yn erbyn eu targedau a bod y rhain yn debygol o gynyddu yn dilyn yr ymweliadau monitro.

<u>Barn y prosiectau a ariannwyd am y ffordd y gweinyddwyd y grantiau</u>

5.16 Holwyd yr ymatebwyr i'r arolwg am eu profiad o weinyddu'r grantiau, a nodir y rhain yn Ffigur 5.6. Dengys fod mwyafrif helaeth yr ymatebwyr i'r arolwg wedi canfod bod yr elfennau hyn o weinyddu'r grant yn syml iawn neu'n weddol syml. Delio â staff Llywodraeth Cymru oedd yr elfen fwyaf syml o’r broses gweinyddu grantiau, a pharatoi hawliadau ariannol a chadw at ofynion caffael oedd yr elfennau anoddaf.

**Ffigur 5.6: Barn am y ffordd y gweinyddwyd y grantiau**




Ffynhonnell: Arolwg ar-lein gan OB3 (61 o ymatebion)

<u>Delio â staff Llywodraeth Cymru</u>

5.17 Dywedodd yr ymatebwyr i'r arolwg a'r prosiectau a gyfwelwyd mai un o gryfderau allweddol y broses gweinyddu grantiau oedd delio â swyddogion Llywodraeth Cymru. Nodwyd:

- ei bod yn fanteisiol gallu delio ag un swyddog penodol o Lywodraeth Cymru o ddechrau'r broses hyd y diwedd e.e., ‘roedd yn ddefnyddiol cael swyddog ymroddedig a oedd yn gofalu am ein prosiect o'r dechrau i'r diwedd' ac ‘roedd yn wych cael un pwynt cyswllt drwy gydol y broses'
- bod ganddynt berthynas waith gadarnhaol gyda swyddogion Llywodraeth Cymru, ac roedd modd iddynt gynnal y berthynas honno drwy gyfnod y pandemig e.e., ‘perthynas dda iawn … a greodd ymddiriedaeth rhyngom a gwneud i mi deimlo'n gyfforddus

iawn gyda'r broses' ac 'roedd yng nghanol COVID hefyd, felly anhawster ychwanegol ar y ddwy ochr, ond ymdriniwyd yn dda ac yn broffesiynol â phopeth serch hynny'

- bod swyddogion Llywodraeth Cymru yn wybodus, yn gymwynasgar, ac yn gefnogol i'r prosiectau e.e., 'bob amser yn barod i gynnig cyngor ac arbenigedd pan fo angen' a 'cefais yr argraff gyffredinol fod y swyddogion ar fy ochr i, ac yn aml nid yw hynny'n wir'
- bod swyddogion Llywodraeth Cymru yn ymateb yn amserol i ymholiadau gan brosiectau ac yn helpu i ddatrys unrhyw faterion yn ymwneud â chaffael neu amserlenni wrth iddynt godi.

Cadw at ofynion caffael

5.18 O ran cadw at ganllawiau caffael y cynllun, roedd sefydliadau'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector, yn enwedig awdurdodau lleol, yn fodlon bod yn rhaid iddynt wneud hynny, gan fod y rhain eisoes ar waith o fewn eu sefydliadau.

5.19 Roedd busnesau'r sector preifat yn ei chael hi'n fwy heriol cadw at y gofynion hyn. Y brif broblem oedd yr angen i gael tri dyfynbris ar gyfer pob agwedd ar y prosiect. Nododd un ymatebydd i'r arolwg fod gan ei fusnes 'gyflenwr a ffefrir neu gyflenwr sy'n gyfarwydd â'r busnes eisoes' ac nid oedd dod o hyd i ddyfynbrisiau gan gyflenwyr eraill yn gwneud llawer o synnwyr. Nid oedd rhai o'r prosiectau MSBF a gyfwelwyd ychwaith yn ystyried bod GwerthwchiGymru yn borth caffael addas ar gyfer dod o hyd i gontractwyr ar gyfer gwaith 'adeiladu ar raddfa fach'. Er gwaethaf yr adborth hwn, awgrymodd prosiectau eraill fod Llywodraeth Cymru wedi bod yn hyblyg pan oedd materion o'r fath wedi codi yn eu hachos nhw e.e. pe bai cyfleoedd wedi'u hysbysebu ar GwerthwchiGymru a dim ond un contractwr wedi tendro am y gwaith.

5.20 Codwyd rhai materion penodol gan brosiectau a gyfwelwyd:

- roedd un prosiect MSBF wedi defnyddio'r un contractwr i wneud gwaith iddo ar ddau achlysur gwahanol, ond oherwydd bod y costau cyfunol yn uwch na'r trothwy o £5,000 (y lefel lle roedd angen tri

dyfynbris) barnodd Llywodraeth Cymru nad oedd y gwariant yn gymwys. Nododd y perchennog bod y profiad 'wedi achosi llawer o straen. Mae'n anodd cael plymwr – mae cael tri dyfynbris yn amhosibl... Dyw ei ddim werth y drafferth am yr arian ... mae cymaint o flychau ticio.' O ran y prosiect hwn, hawliodd Llywodraeth Cymru swm bach o arian yn ôl gan nad oedd y busnes wedi cael cymeradwyaeth ymlaen llaw ar gyfer rhywfaint o'r gwariant

- roedd dau brosiect TPIF a gyfwelwyd wedi'i chael hi'n anodd cael y tri dyfynbris angenrheidiol. Dywedodd un bod 'cael tri dyfynbris yn hunllef', yn yr achos hwn oherwydd ei fod eisiau prynu cynnyrch eithaf arbenigol a dim ond un o'r contractwr a dendrodd am y gwaith yr ystyriwyd ei fod yn addas. Soniodd y llall, gan ei fod yn gweithio mewn maes tra arbenigol, mai ychydig iawn o gyflenwyr yn fyd-eang oedd yn cynhyrchu'r hyn yr oedd ei angen ar y prosiect.

Paratoi hawliadau ariannol

5.21 O ran paratoi hawliad, roedd y brif broblem a godwyd gan brosiectau yn ymwneud â faint o dystiolaeth yr oedd yn rhaid iddynt ei chyflwyno fel rhan o'u hawliad ariannol, yr oedd rhai prosiectau'n ei ystyried yn feichus. Soniodd y prosiectau a gyfwelwyd yn rheolaidd am yr angen i gyflwyno nifer o ddogfennau gyda phob hawliad, gan gynnwys copïau o anfonebau, cyfriflenni banc, a dogfennau tendro yn ymwneud â phob trafodiad. Nododd un o'r rhai a gyfwelwyd y bu'n rhaid iddo atodi 20 o wahanol ddogfennau gyda'i hawliad, ac ystyriwyd bod hyn yn 'eithaf beichus' er bod ei wariant yn symiau mawr a wariwyd ar nifer fach o gontractwyr.

5.22 Roedd hyn yn golygu mwy o waith na'r disgwyl i rai derbynyddion grantiau, yn enwedig y rhai a oedd wedi rheoli'r holl weithgareddau yn ganolog yn hytrach na defnyddio rheolwr contract trydydd parti ac y bu'n rhaid iddynt ddelio â nifer o gontractwyr yn uniongyrchol. Dywedodd un derbynnydd grant MSBF: 'Roedd angen sawl darn o dystiolaeth arnoch ar gyfer pob anfoneb. Mae cael trydydd parti i reoli'r broses yn symlach, ac fe wnaethom edrych ar hyn, ond roedd y ffioedd yn draean o'r cyllid, felly byddai'n symlach, ond byddai wedi costio mwy'.

5.23 Roedd rhywfaint o alw i symleiddio'r ffurflen hawlio a lleihau'r dystiolaeth sydd ei hangen i gefnogi'r hawliad. Gofynnodd un ymatebydd hefyd i Lywodraeth Cymru gyhoeddi hysbysiad talu i dderbynyddion grant pan wneir taliad, gan ei fod wedi'i chael hi'n anodd 'gwybod ar gyfer beth oedd y taliad' pan oedd yn derbyn cyllid arall gan Lywodraeth Cymru hefyd.

Derbyn taliadau

5.24 Yn gyffredinol, roedd y prosiectau'n fodlon ar yr amser rhwng cyflwyno eu hawliad a derbyn taliad ac roedd unrhyw brofiadau negyddol yn ymwneud â'r ffaith bod sefydliadau'n wynebu heriau gyda llif arian, gan mai dim ond mewn ôl-daliadau ar ôl i'r prosiect gael ei gwblhau yr oedd y cyllid grant ar gael.

5.25 Nododd sawl un o brosiectau'r MSBF a gyfwelwyd fod yn rhaid iddynt ddefnyddio benthyciadau Cyfarwyddwyr a benthyciadau banc i gyllido'r prosiect ac awgrymwyd y byddai darparu cyllid ymlaen llaw wedi helpu eu hamgylchiadau. Roedd un sefydliad o'r trydydd sector a oedd yn derbyn grant TPIF wedi cael arian cyfatebol allanol ymlaen llaw, ac yn absenoldeb hyn byddai wedi'i chael hi'n anodd cyflawni'r prosiect.

5.26 Roedd peth awgrym bod yr amserlenni ar gyfer gwario'r cyllid dros gyfnod o 12 mis wedi bod 'braidd yn dynn', er i ddau brosiect a gyfwelwyd (1 RTEF, 1 TAIS) nodi bod Llywodraeth Cymru wedi rhoi estyniadau iddynt, mewn un achos oherwydd effaith y pandemig COVID-19.

Adrodd ar allbynnau a dangos tystiolaeth ohonynt

5.27 Yn gyffredinol, roedd y prosiectau a gyfwelwyd yn credu bod y gofynion monitro ac adrodd yn gysylltiedig â'r cynllun wedi bod yn gymesur ac yn 'ysgafn'. Roedd llawer o'r wybodaeth ofynnol wedi'i chynnwys yn eu cynlluniau busnes, felly roedd modd cael gafael arni'n hawdd. Roedd prosiectau MSBF yn fwy tebygol o ystyried bod y gofynion adrodd yn feichus, gan fod ganddynt lai o brofiad o baratoi'r mathau hyn o adroddiadau.

5.28 Roedd deg o'r prosiectau a gyfwelwyd yn cofio paratoi adroddiad terfynol ar gyfer Llywodraeth Cymru ac o'r farn bod hyn yn broses gymharol syml, gan ddefnyddio tystiolaeth ffotograffig yn aml i ddangos yr hyn yr oeddent wedi'i

gyflawni. Nid oedd yr un o’r prosiectau a gyfwelwyd yn cofio cael ymweliad gan un o swyddogion Llywodraeth Cymru ar ôl i'r prosiect gael ei gyflawni, boed hynny ar ôl chwe mis ar gyfer prosiectau refeniw neu bum mlynedd ar gyfer prosiectau cyfalaf.

5.29 Er na thybiwyd bod dangos tystiolaeth o allbynnau wedi bod yn arbennig o anodd, roedd peth awydd i gael mwy o eglurder ynghylch yr allbynnau sydd eu hangen ar brosiectau o'r cychwyn cyntaf. Byddai un prosiect RTEF wedi croesawu cael fframwaith canlyniadau ehangach i lywio ei ddewis o allbynnau a chanlyniadau yn well.

# 6. Cyflawni a gweithredu prosiectau

6.1 Mae'r bennod hon yn ystyried y ffordd y cafodd prosiectau a ariannwyd eu cyflawni a'u gweithredu ac i ba raddau y cyflawnodd y prosiectau eu hamcanion. Yn gyntaf mae'n nodi barn swyddogion Llywodraeth Cymru ar y ffordd y cafodd y prosiectau a ariannwyd eu cyflawni a'u cyflawniadau cyn ystyried canfyddiadau'r arolwg a'r cyfweliadau â phrosiectau.

**Barn Llywodraeth Cymru ar y ffordd y cyflawnwyd y prosiectau**

6.2 Roedd swyddogion Llywodraeth Cymru o’r farn bod rhai o’r prosiectau a gafodd gyllid cyfalaf wedi bod yn arbennig o effeithiol o ran cefnogi’r gwaith o greu prosiectau cyrchfannau ledled Cymru, fel datblygu parc beiciau mawr. Dadleuwyd bod y cyllid wedi'i ddefnyddio i gefnogi rhai prosiectau o ansawdd uchel nad ydynt wedi disodli darpariaeth bresennol y sector preifat mewn ardaloedd neu fathau o lety a oedd eisoes yn cael eu gwasanaethu'n dda gyda darpariaeth o safon. Er enghraifft, soniodd un cyfrannwr fod cyllid yr MSBF yn cael ei ddefnyddio i gefnogi prosiect llety mewn tŷ pen coeden y gwyddys bod ganddo gyfraddau meddiannaeth uchel iawn, yn hytrach na chyllido llety hunanarlwyo mwy traddodiadol o ansawdd uchel.

6.3 Cafwyd peth awgrym bod llwyddiant prosiectau a gafodd gyllid refeniw drwy TPIF a RTEF wedi bod yn fwy 'cymysg' gyda 'rhai ar eu hennill ac eraill ar eu colled'. Ychwanegodd un swyddog o Lywodraeth Cymru fod 'rhai prosiectau wedi methu' ar draws TPIF a RTEF. Yn gyffredinol, awgrymwyd bod TPIF wedi cefnogi prosiectau datblygu cynnyrch mwy arloesol ar draws y sector preifat tra bod RTEF wedi cefnogi prosiectau ‘llai uchelgeisiol a llai cynaliadwy’ ar draws y sector awdurdodau lleol, er i rai enghreifftiau o brosiectau RTEF cryfach gael eu crybwyll gan y cyfranwyr.

6.4 Credai swyddogion Llywodraeth Cymru fod mesur effaith prosiectau refeniw yn fwy heriol na phrosiectau cyfalaf. Roedd hefyd yn wir bod rhai yn credu bod y canlyniadau a gyflawnwyd gan brosiectau RTEF yn wannach na TPIF, yn yr ystyr bod canlyniadau'r prosiectau yn debycach i fewnbynnau a gweithgareddau a ddarparwyd (e.e., nifer yr ymweliadau â

gwefannau), yn hytrach na dangosyddion sy’n taflu goleuni ar y gwahaniaeth a wnaed.

6.5 Roedd mater arall a godwyd gan swyddogion Llywodraeth Cymru yn ymwneud â diffyg ymgysylltu a'r defnydd o adnoddau a gynhyrchwyd gan brosiectau RTEF ar draws ymgyrch ymwelwyr genedlaethol Croeso Cymru. Nodwyd mai cyfyngedig oedd y cyfle i ddefnyddio adnoddau RTEF ar lefel genedlaethol oherwydd materion yn ymwneud ag ansawdd gwael y deunyddiau a gynhyrchwyd, ac awgrymwyd y byddai mwy o oruchwyliaeth a chyngor gan dîm marchnata Croeso Cymru ar ddatblygu adnoddau a deunyddiau RTEF wedi helpu i oresgyn problemau o'r fath.


**Y ffordd y cyflawnwyd y prosiectau**

6.6 Canfu’r gwaith maes fod derbynyddion grantiau wedi defnyddio’r cyllid yn y ffordd y bwriadwyd iddo gael ei ddefnyddio er bod yn rhaid addasu rhai prosiectau a gyflawnwyd dros gyfnod y pandemig COVID-19. Trafodir y newidiadau hyn yn ddiweddarach yn y bennod hon.

6.7 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr i'r arolwg (89 y cant neu 54) wedi cwblhau'r prosiect a ariannwyd ond nid oedd chwech (10 y cant) wedi gwneud hynny. Ni wnaeth un ymatebydd ateb y cwestiwn hwn.

6.8 Roedd dwy ran o dair o'r ymatebwyr i'r arolwg wedi cyflawni (neu'n rhagweld y byddent yn cyflawni) nodau ac amcanion eu prosiect yn llawn ac roedd ychydig yn llai na thraean wedi cyflawni eu nodau a'u hamcanion yn rhannol (neu'n disgwyl eu cyfrannu'n rhannol), fel y nodir yn Ffigur 6.1.


**Ffigur 6.1 A yw'r prosiectau a ariannwyd wedi cyflawni (neu'n disgwyl cyflawni) eu nodau a'u hamcanion**




Ffynhonnell: Arolwg ar-lein OB3 (61 o ymatebion: o blith y rhain roedd 54 wedi cwblhau eu prosiect, chwech heb eu cwblhau ac un heb ateb)

6.9 Roedd dros ddwy ran o dair o’r prosiectau a ariannwyd a gymerodd ran yn yr arolwg wedi cyrraedd eu targedau (51 y cant neu 31) neu wedi rhagori arnynt (18 y cant neu 11) (neu’n disgwyl cyrraedd neu ragori ar eu targedau), tra bod 28 y cant (17) wedi cyrraedd (neu’n disgwyl cyrraedd) rhai o'u targedau. Datgelodd y cyfweliadau â phrosiectau mai yn y rhan fwyaf o achosion lle nad oedd prosiectau wedi gallu cyrraedd eu targedau, roedd hynny oherwydd nad oedd elfen o’u cynlluniau wedi dwyn ffrwyth e.e., dywedodd tri phrosiect MSBF a gyfwelwyd nad oeddent wedi cyllido elfennau fel cyfleuster iechyd a sba, ystafell therapi, a man chwarae pwrpasol yn eu hadeilad.

**Ffigur 6.2: A yw'r prosiectau a ariannwyd wedi cyflawni (neu a ydynt yn disgwyl cyflawni) eu targedau**




Ffynhonnell: Arolwg ar-lein OB3 (61 o ymatebion: o blith y rhain roedd 54 wedi cwblhau eu prosiect, chwech heb eu cwblhau ac un heb ateb)

6.10 Gan edrych ar ddata'r arolwg a chyfweliadau â phrosiectau a ariannwyd, roedd y prif ffactorau a oedd yn cyfrif am berfformiad cryf prosiect yn erbyn y targedau a ariannwyd yn cynnwys:

- cynllunio gofalus a manwl ymlaen llaw gan gynnwys gosod amcanion clir, allbynnau, a'r hyn y gellir ei gyflawni o fewn yr amserlenni e.e. 'set o allbynnau realistig'
- cydweithio cryf â sefydliadau partner sy'n ymwneud â chyflawni'r prosiect
- tîm medrus a phrofiadol gyda galluoedd rheoli cryf, a defnydd priodol o arbenigedd allanol e.e., 'roedd gennym ymgynghorydd a oedd â phrofiad o gyflwyno'r math hwn o brosiect' ac 'roedd yn rhaid i un aelod o staff weithio fel rheolwr amser llawn ar y prosiectau oherwydd eu bod yn cymryd cymaint o amser, ond fe wnaeth hyn ein helpu i gyflawni prosiect cryf a llwyddiannus'
- proses gaffael ofalus, a oedd yn sicrhau defnydd o gontractwyr dibynadwy o ansawdd uchel e.e., 'roedd wedi'i gynllunio i fod yn 5*

ac mae hynny wedi cael ei wireddu'; 'roedd gennym bensaer yr oeddem yn ei adnabod yn dda' ac 'fe wnaethon nhw [y contractwyr] ymgynghori â ni bob cam o'r ffordd, fe wnaethon nhw addasu pethau yn unol â'n ceisiadau'

- hyblygrwydd a dealltwriaeth ar ran y cyllidwr i gynnwys materion fel effaith y pandemig ac anfanteision yn ymwneud â phrosiectau cyfalaf, gan fod swyddogion Llywodraeth Cymru yn deall materion lleol
- hyblygrwydd i addasu prosiectau yn ystod cyfnod y pandemig.

6.11 Mae canfyddiadau'r ymatebion i'r arolwg a chyfweliadau â phrosiectau a ariannwyd yn awgrymu bod elfennau allweddol o gyflawniad cryf gan brosiectau a ariannwyd yn cynnwys y canlynol:

- gweithio mewn partneriaeth ac ymgysylltu, gan gynnwys ar lefel leol, lefel ranbarthol ac ar lefel Cymru gyfan e.e., 'trefniadau gweithio mewn partneriaeth ardderchog ... glasbrint ardderchog ar gyfer prosiectau partneriaeth yn y dyfodol.' Cyfeiriwyd at y rhain yn bennaf gan sefydliadau'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector
- ymgysylltiad gan fusnesau a thrigolion lleol a allai werthfawrogi manteision posibl y prosiect
- hyblygrwydd gan Lywodraeth Cymru i ganiatáu i'r prosiect addasu er mwyn cyflawni canlyniad gwahanol ond gwerthfawr e.e. addasu i ddarpariaeth ar-lein er mwyn ymdopi ag effaith y pandemig
- tîm cyflawni cryf a threfniadau rheoli prosiect rhagorol, gan gynnwys profiadau blaenorol o ymdrin â phrosesau cyllid grant
- cynnyrch terfynol o ansawdd uchel yn cael ei gyflenwi o fewn cyllidebau e.e., 'roedd gorffeniad cyffredinol yr adeilad yn well nag a ragwelwyd' ac 'roedd yr adeilad wedi'i gwblhau'n foddhaol iawn ac i'r safon uchel ofynnol ac o fewn y gyllideb'.

**Effaith y pandemig COVID-19**

6.12 Y prif reswm pam nad oedd prosiectau wedi cyrraedd y targedau a ariannwyd ganddynt oedd y pandemig COVID-19, a nodwyd gan 13 o blith 17 o'r ymatebwyr i'r arolwg. Nodwyd hyn hefyd fel y brif her o ran cyflawni prosiectau a oedd yn weithredol yn 2020. Roedd y pandemig wedi ei gwneud yn anoddach cael gafael ar gontractwyr a chyflenwadau; ac wedi creu oedi oherwydd bod gwaith adeiladu wedi dod i ben ac ymweliadau â safleoedd wedi cael eu gohirio. Mewn un achos, roedd yr oedi yn y broses dendro o ganlyniad i'r pandemig wedi golygu bod amserlen lawer byrrach i roi'r prosiect ar waith. Yn yr achos hwn, penderfynwyd peidio â bwrw ymlaen â rhan o'r cynllun, i osod cysgodfan fysiau ar safle'r maes parcio, ac yn hytrach penderfynwyd gosod system arddangos awyr agored yn cynnig gwybodaeth fyw am drafnidiaeth a pharcio.

6.13 Nododd sawl prosiect hefyd y bu'n ofynnol iddo ailddiffinio'r prosiect o ganlyniad i'r pandemig. Bu'n rhaid i un prosiect RTEF o'r fath newid ffocws ei ymdrechion i ganolbwyntio ar y DU yn hytrach na'r farchnad ryngwladol a mabwysiadu ymgyrch farchnata ddigidol gan na allai'r staff fynychu digwyddiadau beicio a gynlluniwyd y tu allan i Gymru i hyrwyddo'r cyfleoedd. Yn yr achos hwn, tynnodd y partneriaid gwreiddiol a oedd wedi bwriadu cymryd rhan yn ôl o'r prosiect yn sgil y newidiadau y bu'n rhaid eu gwneud. Bu'n rhaid i brosiect arall MSBF gyflawni ei weithgareddau mewn trefn wahanol i'r hyn a fwriadwyd, oherwydd oedi o ran cael gafael ar gyflenwadau. Dywedodd un prosiect a arweiniwyd gan awdurdod lleol hefyd fod adnoddau staff prosiect yn cael eu hadleoli i weithio ar yr ymateb i'r pandemig am gyfnod o amser.

6.14 Mae profiad un prosiect TAIS yn helpu i ddangos yr anawsterau a wynebwyd yn ystod y pandemig:

> Roedd enghraifft o brosiect TAIS a ddywedodd mai ei brif her o ran cyflawni'r prosiect oedd y pandemig COVID-19 yn ymwneud â gwaith cyfalaf a oedd wedi'i gynllunio ar gyfer dechrau 2020. Er bod y darparwr a gontractiwyd i ymgymryd â'r gwaith yn gallu bwrw ymlaen â'r gwaith yn ystod y cyfyngiadau, penderfynodd contractwr rheoli'r prosiect beidio â

chaniatáu i'w beirianwyr fynd ar y safle oruchwylio'r gwaith adeiladu. Roedd hyn yn golygu bod yn rhaid i'r sefydliad arweiniol gymeradwyo gwaith cyfalaf a arweiniodd at fân broblemau cychwynnol. Mae'r rhain wedi'u datrys ers hynny. Arweiniodd y pandemig hefyd at oedi wrth weithredu elfen arall o’r prosiect a gwnaed cynlluniau amgen i adeiladu cwt croeso i ymwelwyr ar y safle yn gyflymach nag a fwriadwyd yn wreiddiol.

6.15 Nododd sawl ymatebydd i’r arolwg a phrosiectau a gyfwelwyd fod y pandemig wedi effeithio ar lefelau’r galw am eu gwasanaethau a’u cynhyrchion, yn ystod y cyfyngiadau ac yna’n syth ar ôl i'r rhain gael eu llacio. Mewn un achos, canfu prosiect MSBF a oedd wedi adnewyddu cyfleuster gwely a brecwast a oedd yn cynnig gwasanaeth brecwast hunanwasanaeth cymunol nad oedd hynny'n opsiwn deniadol i westeion pan gafodd y cyfyngiadau eu llacio. Soniodd eraill am nerfusrwydd ynghylch cyflogi mwy o staff a chreu swyddi yn syth ar ôl y pandemig.

6.16 Cafodd y pandemig effaith ddiddorol ar un prosiect a ariannwyd gan yr MSBF:

Roedd un prosiect wedi defnyddio cyllid MSBF i adnewyddu adeiladau newydd a oedd yn cynnwys darpariaeth arlwyo a manwerthu. Yn yr achos hwn, bu'n rhaid i'r lleoliad gau yn ystod y pandemig a rhoddwyd staff ar ffyrlo. Gostyngodd y galw gan gwsmeriaid masnach hefyd, wrth i siopau delicatessen, caffis a bwytai eraill roi’r gorau i fasnachu. Gwelodd y busnes fod gwerthiant ei gynnyrch ar-lein yn cynyddu, a buddsoddodd yn unol â hynny yn ei frand, yn ei wefan, ac yn ei gapasiti i werthu ar-lein. Pan godwyd cyfyngiadau'r pandemig yn y pen draw, roedd gwerthiannau ar-lein wedi cynyddu i'r fath raddau nes bod yn rhaid i'r busnes neilltuo mwy o adnoddau a lle yn ei eiddo i gynhyrchu a phecynnu ei gynhyrchion. Penderfynwyd israddio'r bwyty i siop goffi a defnyddio rhywfaint o'r gofod hwn ar gyfer gwaith swyddfa, i hyrwyddo a thyfu masnach ar-lein ymhellach.

6.17 Roedd y ffactorau eraill a nodwyd gan yr ymatebwyr i'r arolwg a'r prosiectau a gyfwelwyd fel rhai a effeithiodd ar gyflawni'r prosiectau a chyrraedd eu targedau yn cynnwys y canlynol:

- costau uwch. Nododd rhai o'r prosiectau a oedd yn gysylltiedig â chyfalaf a oedd wedi bod yn weithredol rhwng 2020 a 2022 fod costau wedi cynyddu rhwng 20 a 50 y cant ers iddynt gyflwyno eu cais. Er enghraifft, dywedodd un prosiect TAIS fod costau deunyddiau adeiladu wedi cynyddu tua 50 y cant. Bu modd i rai ysgwyddo'r cynnydd hwn a chyflawni eu cynlluniau yn llawn e.e., roedd un prosiect TAIS wedi gallu talu costau prosiect uwch (tua £10,000) drwy ddefnyddio adnoddau mewnol. Fodd bynnag, bu'n rhaid i eraill ddiwygio eu cynlluniau. Er enghraifft, dywedodd un prosiect MSBF fod ei gynlluniau i ddatblygu cyfleuster hamdden a sba yn y gwesty wedi'u rhoi o'r neilltu gan fod y costau wedi cynyddu 20 y cant. Roedd hyn yn golygu na allai'r gwesty wella ei radd o gyfleuster 3* i 4*
- problemau staffio yn y sector lletygarwch. Nododd sawl busnes yn y sector preifat fod recriwtio staff wedi bod yn anodd yn ystod 2021 a 2022 gan na ddychwelodd y staff a gollodd eu swyddi yn ystod y pandemig i'r sector.
- problemau'n ymwneud â gweithio mewn partneriaeth ac anawsterau o ran sicrhau ymgysylltiad gan sefydliadau allweddol boed yn awdurdodau lleol neu'n fusnesau lletygarwch e.e., 'cyfathrebu â'r sector lletygarwch prysur, a chymerodd nifer o alwadau a negeseuon e-bost cyn cael ymateb'
- cyflawni'r prosiect o fewn amserlenni tynn e.e., 'gwario'r cyfalaf o fewn amserlen o ddim ond un flwyddyn ariannol o ddyfarnu'n cyllid a chwblhau'r prosiect'
- rheoli llif arian y busnes a darparu cyllido ymlaen llaw ar gyfer prosiectau, e.e., 'i fusnes bach [roedd hyn] yn her barhaus gan fod y cyllid yn dod ar ôl y gwariant'. Roedd hyn yn arbennig o heriol i rai

busnesau yn ystod cyfnod y pandemig gan fod incwm hefyd wedi lleihau yn ystod yr amser hwn

- prosiect yn cymryd mwy o amser y staff nag a ragwelwyd. Dywedodd un prosiect o'r fath ei fod wedi tanamcangyfrif yr adnoddau staffio yr oedd eu hangen i reoli a chyflawni'r prosiect, ond talwyd y costau hyn gan y sefydliad arweiniol serch hynny
- materion eraill megis tywydd gwael a mân broblemau'n ymwneud â gwaith adeiladu.

**Cyfraniad at bolisïau allweddol**

6.18 Roedd y prosiectau a gyfwelwyd yn hyderus bod y prosiect a ariannwyd ganddynt wedi gwneud cyfraniad cadarnhaol at gynllun strategol cyffredinol eu sefydliad neu'n cyd-fynd yn dda ag ef.

6.19 Roedd barn gref hefyd bod prosiectau wedi gwneud cyfraniad cadarnhaol tuag at Gynlluniau Rheoli Cyrchfannau lleol a rhanbarthol, er bod y dystiolaeth ar gyfer hyn yn gryfach mewn rhai achosion nag eraill. Roedd maint ac uchelgais rhai prosiectau a ariannwyd yn fwy nag eraill, ac felly roedd ganddynt y potensial i ddod yn gyrchfannau ynddynt eu hunain a allai ddenu carfan ehangach neu wahanol o dwristiaid i ardal. Er enghraifft, credai un gwesty a ariannwyd gan yr MSBF y byddai'r buddsoddiad a wnaed yn helpu i ddatblygu gwesty cyrchfan ar gyfer rhanbarth y cymoedd a fyddai, yn ei dro, yn helpu i gyflawni'r cynllun rheoli cyrchfannau rhanbarthol, sef denu mwy o ymwelwyr i'r rhanbarth. Cyflwynodd y prosiectau a gyfwelwyd ddadleuon eu bod yn cyfrannu at Gynlluniau Rheoli Cyrchfannau lleol a rhanbarthol drwy roi ymyriadau ar waith a fyddai'n gwella canfyddiadau ymwelwyr o ardal benodol, yn cynyddu nifer yr ymwelwyr, yn darparu gwell profiadau, yn cyfrannu at ymweliadau hwy, yn ymestyn y tymor ymwelwyr ac yn cynyddu gwariant gan ymwelwyr. Er enghraifft, dadleuodd un prosiect RTEF a gyfwelwyd fod ei weithgareddau wedi cyfrannu at gynlluniau rheoli cyrchfannau rhanbarthol a lleol drwy helpu i newid canfyddiad darpar dwristiaid o awdurdod lleol yn y Cymoedd. Credai prosiect RTEF arall ei fod yn cyfrannu at amcan a nodwyd yn ei gynllun rheoli cyrchfannau lleol i ddenu ymwelwyr o gyrchfannau hynod

boblogaidd i gyrchfannau llai poblogaidd. Nododd trydydd prosiect RTEF fod ei weithgareddau yn cyfrannu at amcanion ei Gynllun Rheoli Cyrchfannau lleol i ddatblygu'r cyfleusterau beicio o fewn y sir.

6.20 Roedd y prosiectau a gyfwelwyd o'r farn eu bod yn cyfrannu'n gadarnhaol at flaenoriaethau Croeso Cymru i dyfu'r sector twristiaeth mewn ffordd gynaliadwy, gan gyfeirio at dystiolaeth anecdotaidd yn ogystal â data monitro[36] i nodi eu bod ers hynny wedi gallu cynyddu nifer yr ymwelwyr a defnyddwyr a oedd yn mynychu'r cyfleuster neu'r gyrchfan. Roedd tystiolaeth eang[37] hefyd bod y prosiectau a ariannwyd wedi gwella ansawdd y ddarpariaeth ledled Cymru wledig. Roedd y dystiolaeth a ddarparwyd ar gynaliadwyedd y twf hwn efallai yn llai clir ac yn amrywio o un achos i'r llall.

6.21 O ran y cyfraniad at ddulliau marchnata thematig 'Blynyddoedd' Croeso Cymru, nododd y prosiectau a gyfwelwyd yn aml eu bod yn cyd-fynd yn dda â'r themâu blynyddol Darganfod (2019) ac Awyr Agored (2020). Roedd llawer o'r prosiectau hyn yn canolbwyntio ar weithgareddau awyr agored a darganfod megis llwybrau beicio a cherdded. Roedd cyfatebiaeth â'r blynyddoedd thematig eraill yn llai amlwg a dim ond un prosiect yr un a soniodd am y rheini e.e., nododd un prosiect TPIF gyfatebiaeth glir â'r thema Chwedlau (2017) a nododd prosiect TPIF arall synergedd clir â thema'r Môr (2018).

6.22 O ran Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, roedd y prosiectau a gyfwelwyd o'r farn, o gymharu â nodau llesiant eraill, eu bod wedi gwneud y cyfraniad mwyaf tuag at y nod llesiant 'Cymru iachach'. Roedd chwe phrosiect a gyfwelwyd wedi canolbwyntio ar wella llwybrau beicio a cherdded a fyddai'n annog lefelau uwch o ymarfer corff yn yr awyr agored ymhlith trigolion lleol. Roedd pum prosiect hefyd yn meddwl eu bod wedi gwneud cyfraniad cadarnhaol tuag at 'Gymru lewyrchus' gan eu bod wedi creu cyfleoedd cyflogaeth i bobl leol ac roedd nifer llai o brosiectau yn

[36] Megis data ar archebion a gwerthiannau yn ogystal â data meddiannaeth.
[37] O'n hymweliadau â safleoedd a ariannwyd yn ogystal â thystiolaeth ffotograffig sydd ar gael drwy adroddiadau diwedd prosiect a gwefannau prosiectau.

pwysleisio eu cyfraniad at greu 'diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu'.

6.23 Roedd rhai prosiectau'n adeiladu ar ddulliau gweithredu blaenorol ac maent wedi'u datblygu ymhellach ers hynny. Rhoddir enghraifft isod:

| |
|---|
| Agorwyd 870 milltir o Lwybr Arfordirol Cymru yn swyddogol yn 2012, ar ôl sicrhau cyllid yr UE i gwblhau’r darn 15 cilometr sy’n weddill i gwmpasu arfordir cyfan Cymru. Rhwng 2012 a 2017, roedd swm bach o gyllid blynyddol ar gael gan Gyfoeth Naturiol Cymru i gynnal gweithgarwch arfordirol ar Lwybr Arfordir Cymru ond roedd barn bod y lefel hon o fuddsoddiad yn annigonol. Roedd angen ymdrech farchnata Cymru gyfan i gefnogi ymdrechion awdurdodau lleol ar lawr gwlad gan fod Llwybr Arfordir Cymru wedi'i nodi fel blaenoriaeth ym mhob un o'r 14 Cynllun Rheoli Cyrchfannau y mae'r llwybr yn mynd drwyddynt. Bwriad y prosiect oedd rhoi bywyd newydd ym mrand Llwybr Arfordir Cymru, cynnal ymgyrch farchnata dorfol a chodi proffil y llwybr fel atyniad i'w ddefnyddio drwy gydol y flwyddyn. Roedd yn cyd-fynd yn dda ag amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, yn yr ystyr ei fod yn bwriadu cynyddu defnydd trigolion lleol ohono (yn ogystal ag ymwelwyr) a thrwy hynny gyfrannu at y nodau 'Cymru iachach' a 'Cymru lewyrchus'. Roedd ganddo hefyd y potensial i gyfrannu'n gadarnhaol at strategaeth Croeso Cymru ac ymgyrchoedd thematig Croeso Cymru. |

## 7. Y gwahaniaeth a wnaed

7.1 Mae'r adran hon yn ystyried canfyddiadau'r arolwg a'r cyfweliadau ansoddol ar y gwahaniaeth a wnaed gan y cyllid grant ac yn ystyried pob un o'r pedwar cynllun grant yn ei dro.

**MSBF**

7.2 Mae’r adran hon yn seiliedig ar dystiolaeth a gasglwyd oddi wrth gyfanswm o 26 o fusnesau. Roedd 18 ond wedi cwblhau'r arolwg, roedd pump wedi cwblhau'r arolwg ac wedi cyfrannu at gyfweliad, a thri ond wedi cyfrannu at gyfweliad. O blith yr wyth a gyfwelwyd, roedd pump yn sefydliadau llety, roedd dau yn sefydliadau arlwyo ac un yn lleoliad diwylliannol.

Profiad ymwelwyr

7.3 O blith y 23 o ymatebwyr i’r arolwg a gafodd grant MSBF, roedd tri chwarter ohonynt yn credu ei fod wedi gwneud gwahaniaeth mawr (57 y cant neu 13 o blith 23) neu ryw wahaniaeth (22 y cant neu 5 o blith 23) i’w gallu i gynnig ystod eang o gyfleusterau i ymwelwyr. Datgelodd y cyfweliadau â chynrychiolwyr prosiectau fod y cyllid grant wedi bod yn hollbwysig i’w galluogi i arallgyfeirio eu harlwy, agor adeiladau newydd, a chyflwyno cyfleusterau newydd fel podiau glampio moethus, mynediad i’r anabl, mannau gwefru, a mannau creadigol. Pwysleisiodd cynrychiolwyr y prosiectau a gyfwelwyd hefyd bwysigrwydd y cyllid grant i'w galluogi i ehangu eu capasiti er mwyn darparu ar gyfer grwpiau mwy o ymwelwyr. Nid oedd pawb a dderbyniodd grant wedi ehangu eu cyfleusterau i'r graddau yr oeddent wedi'i fwriadu: nid oedd un gwesty wedi gallu cyflwyno cyfleusterau hamdden a gofod newydd oherwydd costau cynyddol y prosiect arfaethedig.

7.4 Roedd dros bedair rhan o bump o'r ymatebwyr i’r arolwg a gafodd grant MSBF yn credu ei fod wedi gwneud gwahaniaeth mawr (70 y cant neu 16 o blith 23) neu beth gwahaniaeth (17 y cant neu 4 o blith 23) i ansawdd eu cyfleusterau i ymwelwyr. Ategodd y prosiectau a gyfwelwyd y canfyddiad hwn a phwysleisiwyd eu bod wedi defnyddio'r cyllid i ddatblygu cyfleusterau o ansawdd uchel, boed yn llety, cyfleusterau arlwyo, neu fwy o fannau cymunedol. Nododd rhai darparwyr fod buddsoddi mewn cyfleusterau o

ansawdd uwch wedi helpu i ddenu cwsmeriaid a oedd yn gwario mwy, a dywedodd eraill eu bod bellach yn gallu denu proffil ehangach o westeion a oedd yn aros dros nos, gan gynnwys cerddwyr, beicwyr, beicwyr mynydd a pherchnogion cŵn.

7.5 Roedd dros bedair rhan o bump o'r ymatebwyr i'r arolwg a gafodd grant MSBF yn credu ei fod wedi gwneud gwahaniaeth mawr (79 y cant neu 16 o blith 23) neu beth gwahaniaeth (13 y cant neu 3 o blith 23) i ansawdd eu cyfleusterau i ymwelwyr. Esboniodd darparwyr llety a gyfwelwyd fod y buddsoddiad wedi eu helpu i ddarparu llety gwell neu ehangu eu llety presennol o safon uchel a chynnig amgylchedd gwell ar draws eu safleoedd. Dywedodd y rhai nad oeddent yn darparu llety fod y cyllid wedi eu galluogi i ddatblygu a chynnal amgylcheddau o ansawdd uchel a oedd yn denu ymwelwyr lleol yn ogystal ag ymwelwyr o ardaloedd eraill. Roedd un sefydliad wedi'i gynnwys yn ddiweddar yng nghanllaw siopau coffi Lonely Planet Global, a oedd yn awgrymu ei fod yn cynnig amgylchedd unigryw o ansawdd uchel.

<u>Adborth gan ymwelwyr a defnyddwyr</u>

Roedd defnyddwyr a gyfwelwyd mewn un prosiect caffi MSBF yn ddefnyddwyr rheolaidd a oedd yn dod i'r lleoliad o leiaf unwaith yr wythnos gan ddweud pa mor falch yr oeddent bod adeilad a arferai fod yn segur wedi cael ei drawsnewid yn lleoliad o ansawdd uchel. Roeddent yn dewis defnyddio'r caffi hwn oherwydd y staff croesawgar a chyfeillgar, a dywedodd defnyddwyr y caffi fod 'staff yn treulio amser yn siarad â chi yma'. Roedd naws y lle hefyd yn apelio at ddefnyddwyr, ac roeddent yn ystyried ei fod yn chwaethus, yn gynnes, yn groesawgar, ac o ansawdd uchel. Teimlwyd hefyd ei fod yn cynnig cyfleuster a oedd yn cymharu'n ffafriol â chaffis lleol eraill. Gwnaed sylwadau penodol hefyd ar ansawdd y ddarpariaeth, gan gynnwys bwyd a lluniaeth cartref o safon.

Roedd defnyddwyr prosiect gwesty MSBF wedi defnyddio'r cyfleuster at wahanol ddibenion, gan gynnwys cynadledda a hamdden. Roedd un yn ymwelydd rheolaidd a'r ddau arall yn ymweld am y tro cyntaf. Roedd y

rhesymau dros ddewis y lleoliad felly yn amrywio ac yn cynnwys gwaith, lleoliad y gwesty, ac argymhellion gan eraill. Ystyriwyd bod ansawdd y gwasanaeth a'r llety o safon uchel, a dywedodd y defnyddiwr rheolaidd fod y gwelliannau a wnaed yn 'welliant mawr' a oedd wedi gwneud y gwesty yn 'fwy cyfoes'. Byddai'r tri defnyddiwr yn argymell y lleoliad i eraill ac yn dychwelyd i'r gwesty eto.

Y galw gan ymwelwyr

7.6 Ers cyflawni’r prosiect, roedd dros bedwar o bob pump o’r ymatebwyr i’r arolwg a oedd wedi cael cyllid grant MSBF o’r farn bod y galw blynyddol, y defnydd neu gyfraddau meddiannaeth eu busnes wedi cynyddu’n fawr (43 y cant neu 10 o blith 23) neu wedi cynyddu ychydig (39 y cant neu 9 o blith 23). Dywedodd yr 17 y cant (pedwar) arall nad oeddent yn gwybod, ei bod yn rhy gynnar i ddweud neu ni wnaethant ateb y cwestiwn hwn.

7.7 Datgelodd cyfweliadau â chynrychiolwyr prosiect ei bod yn anodd iawn iddynt ddatgysylltu effeithiau’r pandemig ar lefelau'r galw. Er enghraifft, roedd rhai darparwyr llety wedi gweld ymchwydd yn y galw yn ystod 2021 a dechrau 2022, oherwydd y cynnydd mewn gwyliau gartref, ond ers hynny roeddent wedi profi effaith negyddol y cynnydd mewn costau byw ar archebion. Dywedodd lleoliad diwylliannol fod y pandemig wedi cael effaith negyddol iawn arno a'i fod ers hynny wedi canolbwyntio ar oroesi, o ystyried bod hyder y gynulleidfa a'r niferoedd yn parhau i fod yn isel a bod costau gweithredu uwch diweddar wedi creu amodau masnachu heriol. Yn yr achos hwn, oherwydd ffactorau allanol, mae'r galw gan ddefnyddwyr yn is na chyn i'r prosiect MSBF gael ei roi ar waith.

7.8 Darparodd prosiectau a gyfwelwyd a oedd wedi profi cynnydd yn y galw gan ddefnyddwyr dystiolaeth ar gyfer y twf hwn. Dywedodd un busnes fod meddiannaeth llety wedi cynyddu tua 10 y cant ers i'r prosiect gael ei gwblhau, a bod y ffi yr oedd yn ei chodi am ystafelloedd hefyd wedi cynyddu. Nododd un arall bod ei feddiannaeth llety tua 60 y cant ar draws y flwyddyn a dywedodd trydydd prosiect fod y cyllid wedi caniatáu iddo gynyddu ei gapasiti o ran llety, er bod y cyfraddau meddiannaeth bob amser wedi bod yn agos at 100 y cant o ystyried y profiad arbenigol a

gynigiwyd. Dywedodd darparwr llety arall a oedd wedi agor am y tro cyntaf ar ôl derbyn y cyllid grant fod tua 95,000 yn ymweld â'i eiddo bob blwyddyn, i aros neu i fwyta yno, gan ragori ar ei darged. Dywedodd un sefydliad arlwyo fod nifer yr ymwelwyr wedi cyrraedd 40,000 yn ystod ei flwyddyn fasnachu gyntaf, ond roedd newid yn y model busnes ers hynny yn golygu ei fod yn gallu darparu ar gyfer llai o ymwelwyr erbyn hyn.

7.9 Roedd cyfran ychydig yn is o’r prosiectau MSBF a holwyd, sef tri chwarter, o’r farn bod cyfraddau galw, defnydd neu feddiannaeth eu busnes yn ystod y tymhorau tawel a thymhorau ysgwydd wedi cynyddu, gyda 22 y cant (pump o blith 23) o’r farn ei fod wedi cynyddu a 52 y cant (12 o blith 23) yn dweud ei fod wedi cynyddu ychydig. Dim ond un a ddywedodd na fu unrhyw newid ac nid oedd y pump arall yn gwybod, neu'n meddwl ei bod yn rhy gynnar i ddweud neu heb ateb y cwestiwn hwn. Yn gyffredinol, roedd y prosiectau a gyfwelwyd a oedd yn darparu llety yn credu bod eu cyfraddau meddiannaeth yn ystod y tymhorau tawel a thymhorau ysgwydd wedi gwella ers i'r prosiect gael ei gwblhau. Nododd un lefelau ‘meddiannaeth dda’ dros gyfnod y gaeaf, credai un arall ei fod yn ‘brysurach nag yn y gorffennol’ yn ystod y tymhorau tawel a thymhorau ysgwydd ac roedd traean bellach yn ystyried eu hunain yn gyrchfan gydol y flwyddyn a oedd yn denu gwesteion corfforaethol, yn ogystal â hamdden. Roedd gan un arall feddiannaeth is yng nghanol yr wythnos yn ystod y gaeaf ac roedd yn bwriadu mynd i'r afael â hyn drwy ei ymdrechion marchnata ar gyfer y tymor nesaf.

7.10 O blith y busnesau MSBF a gymerodd ran yn yr arolwg ac a oedd wedi gweld cynnydd yn y galw (19 i gyd), roedd pob un o'r farn bod y cyllid grant wedi gwneud cyfraniad mawr (10) neu beth cyfraniad (naw) tuag at y cynnydd hwn. Ategwyd y farn hon gan brosiectau a gyfwelwyd a oedd yn dadlau, mewn achosion lle roedd y cyllid wedi helpu i ehangu eu capasiti, y gellid priodoli hynny'n glir i'r cyllid grant e.e., mewn un achos roedd y cyllid grant wedi helpu i ychwanegu 26 o ystafelloedd at westy. Roedd tri o'r busnesau a gyfwelwyd yn fentrau newydd a chredwyd bod y cyllid wedi bod yn allweddol i sefydlu'r cyfleusterau newydd hyn.

<u>Graddau a gwobrau</u>

7.11 Mae data a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru ar statws graddio’r 50 o fusnesau llety MSBF a gefnogwyd cyn ac ar ôl y cyllid yn dangos bod nifer y busnesau a oedd wedi cael gradd am y tro cyntaf, neu a oedd wedi cael gradd well, wedi cynyddu dros amser:

- nid oedd 58 y cant (29 o fusnesau) wedi’u graddio ar yr adeg y gwnaethant eu cais o gymharu â dim ond 22 y cant (11 o fusnesau) nad oeddent wedi'u graddio erbyn mis Mai 2022. Roedd tri o'r rhai nad oeddent wedi cael eu graddio o'r blaen ar yr adeg y gwnaethant eu cais yn aros am ganlyniad eu cais am radd
- aeth 15 o fusnesau nad oedd ganddynt radd ymlaen i gael gradd 4* neu 5* neu safle gyda sicrwydd ansawdd a chafodd 3 busnes arall radd well (h.y. o 3* i 4* neu o 4* i 5* )
- erbyn mis Mai 2022, roedd wyth busnes wedi cael Gwobr 5* Croeso Cymru, o gymharu â thri ar yr adeg y gwnaethant gais

7.12 Roedd dau ddarparwr llety a gyfwelwyd heb gael eu gradd arfaethedig neu heb newid eu gradd oherwydd nad oeddent wedi cyflwyno’r cyfleusterau angenrheidiol (fel cyfleusterau hamdden a lifft) i fod yn gymwys ar gyfer y graddau lletygarwch hyn.

7.13 Gofynnwyd i fusnesau a gymerodd ran yn yr arolwg hefyd am unrhyw wobrau neu achrediadau eraill yr oeddent wedi'u hennill ers cyflawni'r prosiect. Darparwyd tuag 11 o ymatebion ac roedd y rhain yn cynnwys gwobrau fel:

- Gwobrau 5* ar wefannau archebu ac adolygu lletygarwch fel TripAdvisor, Booking.com ac Expedia
- gwobrau boddhad cwsmeriaid a Thystysgrifau Rhagoriaeth drwy wefannau archebu lletygarwch fel Booking.com
- cael eu henwi mewn canllawiau cyhoeddedig fel y Times Top UK Hotels a’r Good Beer Guide
- gwobrau cymdeithasol ac amgylcheddol fel un busnes yn ennill statws B Corp, sef y busnes coffi arbenigol cyntaf yn y DU i wneud hynny

- gwobrau cystadleuol a enillwyd megis Gwobrau Busnes Gwledig Cymru, darparwr Glampio Canolbarth Cymru a Gwobr Busnes Newydd Gweithredwr Archebu Parciau Teithiol.

Cyflogaeth a swyddi

7.14 O ran cyflogaeth, mae gwybodaeth a ddarparwyd gan 20 o fusnesau a arolygwyd yn awgrymu bod o leiaf 73 o swyddi cyfwerth ag amser llawn wedi'u diogelu[38][39] ar draws y sefydliadau lletygarwch hyn. Dim ond un busnes a oedd o'r farn nad oedd y cyllid grant wedi cefnogi unrhyw swyddi o'r fath, ac mewn wyth achos dywedwyd bod o leiaf chwe swydd FTE wedi'u diogelu. Dywedodd chwe busnes a gyfwelwyd fod 79 o swyddi FTE wedi'u diogelu ar draws eu sefydliadau, gyda'r nifer fesul lleoliad yn amrywio o'r lefel isaf o 2.5 FTE i dros 50 FTE. Er y gallai fod gogwydd yn y sampl o fusnesau sy'n cwblhau'r arolwg (h.y., efallai fod y rhai llwyddiannus yn fwy tebygol o gwblhau'r arolwg) a pheth perygl bod busnesau wedi gorliwio eu hymateb (h.y. cyfrif swyddi nad ydynt yn gymwys fel swyddi a ddiogelwyd) mae'r ffaith y cofnodwyd nifer mor uchel o swyddi a ddiogelwyd drwy sampl yr arolwg yn awgrymu bod data monitro cynlluniau (sef 92.5 o swyddi a ddiogelwyd ar draws 50 o fusnesau) wedi tangofnodi'r cyflawniadau cyffredinol.

7.15 Yn yr un modd, mae gwybodaeth a ddarparwyd gan 19 o fusnesau yn yr arolwg yn awgrymu bod o leiaf 55 o swyddi FTE wedi'u creu o ganlyniad uniongyrchol i'r cyllid grant[40]. Dywedodd tri busnes nad oedd unrhyw

---

[38] Swydd barhaol a fyddai wedi bod mewn perygl yn ystod y 12 mis canlynol yw swydd a ddiogelwyd. Mae'n bosibl y bydd swydd dymhorol yn cael ei chynnwys pe bai disgwyl iddi ddigwydd eto am gyfnod amhenodol. Mae FTE yn cyfrif nifer y swyddi cyfwerth ag amser llawn yn hytrach na deiliaid swyddi

[39] Gofynnwyd i fusnesau a gymerodd ran yn yr arolwg nodi drwy gwestiwn caeedig faint o swyddi cyfwerth ag amser llawn a ddiogelwyd. Nododd dau fod hyd at ac yn cynnwys 1 swydd FTE wedi'i diogelu; nododd 5 fod hyd at ac yn cynnwys 2 swydd FTE wedi'u diogelu, nododd 3 fod hyd at ac yn cynnwys 3 swydd FTE wedi'u diogelu; nododd un fod hyd at ac yn cynnwys 4 swydd FTE wedi'u diogelu a nododd 8 fod dros 5 swydd FTE wedi'u diogelu. Dywedodd un busnes nad oedd unrhyw swyddi wedi'u diogelu. Mae'r ffigur o 73 o swyddi FTE wedi'i gyfrifo fel yr isafswm swyddi a ddiogelwyd, ar y sail y gallai'r wyth busnes a nododd dros 5 swydd FTE yr un fod wedi bod yn uwch na'r 6 FTE a ddefnyddiwyd ar gyfer y cyfrifiad.

[40] Yn yr arolwg, gofynnwyd i fusnesau nodi drwy gwestiwn caeedig faint o swyddi cyfwerth ag amser llawn (FTE) a grewyd. Nododd tri nad oedd unrhyw swyddi FTE wedi'u creu; nododd tri fod hyd at ac yn cynnwys 1 swydd FTE wedi'i chreu; nododd tri fod hyd at ac yn cynnwys 2 swydd FTE wedi'u creu; nododd dau fod hyd at ac yn cynnwys 3 swydd FTE wedi'u creu; nododd dau fod hyd at ac yn cynnwys 5 swydd FTE wedi'u creu a nododd chwe busnes eu bod wedi creu 'dros 5 swydd FTE'. Y cyfrifiad o 55 o swyddi FTE yw'r lleiafswm a grëwyd. Gallai nifer y swyddi a grëwyd gan y garfan ddiwethaf fod wedi bod yn llawer uwch.

swyddi wedi'u creu ac mewn chwe achos, adroddwyd bod o leiaf chwe swydd FTE wedi'i chreu. Mae nifer cyfartalog y swyddi FTE a grëwyd gan fusnesau a holwyd (sef ychydig yn llai na 3 fesul busnes) ychydig yn is na’r hyn a adroddwyd gan ddata monitro’r cynllun (sef ychydig o dan 5 fesul busnes a gefnogwyd) er na chaniataodd yr arolwg i'r rhai sy’n creu mwy na chwe swydd FTE adrodd ar union nifer y swyddi a grëwyd, a allai fod wedi bod yn sylweddol uwch. Ategwyd hyn gan y busnesau a gyfwelwyd. Dywedodd saith busnes a gyfwelwyd fod dos 100 o swyddi FTE wedi’u creu ar draws eu sefydliadau, gyda’r nifer fesul lleoliad yn amrywio o’r lefel isaf o 2 FTE i dros 30 FTE.

7.16 Mae data a ddarparwyd gan 11 o ymatebwyr i’r arolwg yn awgrymu bod ystod eang o swyddi wedi’u creu gyda chyflogau amrywiol:

- mewn tri achos, roedd y swyddi a grëwyd yn cynnwys rhai ar lefel rheolwr (e.e., rheolwr llety, rheolwr marchnata, rheolwr adran) gyda chyflogau’n amrywio o £26,000 i £50,000 y flwyddyn
- mewn pum achos, roedd y swyddi a grëwyd yn swyddi medrus ac yn cynnwys rolau fel gweinyddwyr, cogyddion a gweithwyr tir. Roedd y cyflogau a nodwyd gan yr ymatebwyr i’r arolwg ar gyfer y swyddi hyn yn amrywio o £18,000 i £25,000
- mewn wyth achos, roedd y swyddi a grëwyd yn swyddi ar lefel mynediad, gyda chyflogau sylfaenol ac yn cynnwys rolau fel cadw tŷ, derbynfa, porthor nos, glanhawyr, staff cegin, a staff blaen tŷ.

7.17 Datgelodd cyfweliadau â phrosiectau MSBF fod rhai mewn sefyllfa gryfach o ganlyniad i’r ffaith bod eu prosiectau’n gallu cynnig swyddi sy'n swyddi drwy gydol y flwyddyn, ac roedd rhywfaint o dystiolaeth bod ansawdd a chyflogau'r swyddi a grëwyd yn well nag o’r blaen. Er enghraifft, dywedodd un busnes ei fod bellach yn talu mwy na’r cyflog byw ar gyfer rhai swyddi ar lefel mynediad, dywedodd un arall ei fod yn talu ychydig yn uwch na’r isafswm cyflog ar gyfer y swyddi hyn a dywedodd trydydd busnes ei fod yn talu 21 y cant yn fwy na’r isafswm cyflog i staff. Dywedodd un busnes ei fod mewn sefyllfa gadarnhaol iawn o ran natur y gyflogaeth yr oedd yn ei gynnig erbyn hyn, yn yr ystyr ei fod yn cyflogi mwy o staff proffesiynol a

medrus mewn swyddi â chyflogau uwch nag yr oedd yn ei wneud yn union ar ôl cwblhau'r prosiect a ariannwyd. Dywedodd ei fod yn gallu denu staff o ardal ddaearyddol lawer ehangach a'u cadw yn eu swyddi am gyfnod hwy. Er nad oedd hyn wedi bod yn rhan o'r cynllun busnes cychwynnol, roedd y buddsoddiad a wnaed yn y cyfleuster masnachu newydd yn golygu bod gan y busnes y brand a'r lle i arallgyfeirio i weithgareddau newydd, mwy proffidiol.

Trosiant busnesau

7.18 O blith y 23 o ymatebwyr i'r arolwg a oedd wedi cael grant MSBF, dywedodd 70 y cant (16) fod trosiant blynyddol eu busnes wedi cynyddu ers cyflawni'r prosiect. Dywedodd 13 y cant arall (tri) ei fod wedi aros yr un fath ac nid oedd yr ychydig a oedd yn weddill yn gwybod neu ni wnaethant ateb y cwestiwn. Mae dadansoddiad o newidiadau mewn trosiant busnesau ar draws yr 16 o fusnesau a nododd gynnydd yn dangos mai eu cynnydd cyfunol mewn trosiant blynyddol oedd £6.755 miliwn, cynnydd cyfartalog o £422,250. Roedd pob un o'r 16 o ymatebwyr i'r arolwg yn credu bod y cyllid grant wedi gwneud cyfraniad mawr (pump) neu beth cyfraniad (11) tuag at y cynnydd hwn mewn trosiant.

7.19 Cyfanswm gwerth y cynnig grant ar draws yr 16 o fusnesau hyn oedd £1.91 miliwn, a’r cynnig grant cyffredinol a oedd ar gael i’r 23 o dderbynyddion grant MSBF a gymerodd ran yn yr arolwg oedd £2.4 miliwn.

**Tabl 7.1: Newidiadau mewn trosiant busnes blynyddol ar gyfer busnesau a ariannwyd gan grant MSBF a nododd gynnydd yn eu trosiant (2017/18 i 2020/21)**

| £ | Gwerth y cynnig grant | Trosiant blynyddol cyn y grant | Trosiant Blynyddol ar ôl y grant | Cynnydd mewn trosiant blynyddol | % y cynnydd |
|---|---|---|---|---|---|
| A | 100,000 | Ddim yn masnachu | 300,000 | 300,000 | Ddim yn berthnasol |
| B | 35,000 | Ddim yn masnachu | 400,000 | 400,000 | Ddim yn berthnasol |
| C | 20,000 | Ddim yn masnachu | 60,000 | 59,900 | Ddim yn berthnasol |
| D | 14,000 | 18,000 | 70,000 | 52,000 | 289% |
| E | 25,000 | 37,000 | 61,000 | 24,000 | 65% |
| F | 25,000 | 60,000 | 120,000 | 60,000 | 100% |
| G | 45,000 | 65,000 | 90,000 | 25,000 | 38% |
| H | 264,660 | 200,000 | 1,000,000 | 800,000 | 400% |
| I | 60,000 | 210,000 | 467,000 | 257,000 | 122% |
| J | 50,000 | 550,000 | 700,000 | 150,000 | 27% |
| K | 314,000 | 600,000 | 2,400,000 | 1,800,000 | 300% |
| L | 80,000 | 700,000 | 2,000,000 | 1,300,000 | 186% |
| M | 33,750 | 756,333 | 784,429 | 28,096 | 4% |
| N | 380,000 | 1,200,000 | 1,600,000 | 400,000 | 33% |
| O | 55,000 | 1,500,000 | 1,600,000 | 100,000 | 7% |
| P | 409,000 | 1,700,000 | 2,700,000 | 1,000,000 | 59% |
| **Cyfanswm** | **1,910,410** | **7,596,433** | **14,352,429** | **6,755,996** | **89%** |

Ffynhonnell: Arolwg ar-lein OB3 (16 o ymatebwyr MSBF a nododd gynnydd yn eu trosiant busnes blynyddol)

7.20 O blith y 23 o ymatebwyr MSBF a gymerodd ran yn yr arolwg, roedd pob un ond un (na wnaeth ymateb) yn credu bod y cyllid grant wedi helpu eu busnes i gryfhau ei gynaliadwyedd ariannol ar gyfer y dyfodol i raddau helaeth (saith) neu i ryw raddau (15). Ategwyd hyn gan fusnesau a gyfwelwyd a oedd yn meddwl yn gyffredinol bod eu proffidioldeb wedi gwella i raddau gwahanol, er bod y cynnydd diweddar mewn costau ynni a bwyd wedi effeithio ar hyn mewn llawer o achosion. Dywedodd un busnes fod ei elw wedi gwella'n aruthrol a dywedodd un arall fod y cynnydd yn ei

gapasiti yn golygu y gallai bellach reoli archebion yn fewnol, gan leihau gwariant ar ffioedd comisiwn asiantaethau archebu a gwella cynaliadwyedd hirdymor y busnes. Roedd profiad y lleoliad diwylliannol a gyfwelwyd ychydig yn fwy ansicr gan fod ei drosiant presennol, ac felly ei gynaliadwyedd ariannol, wedi gostwng tua £2 filiwn o ganlyniad i'r pandemig.

**TAIS**

7.21 Mae'r adran hon yn seiliedig ar dystiolaeth a gasglwyd oddi wrth gyfanswm o 24 o fusnesau. O blith y rhain, llenwodd 16 ohonynt yr arolwg yn unig, cwblhaodd tri yr arolwg yn ogystal â chymryd rhan mewn cyfweliad, a chymerodd pump ran mewn cyfweliad yn unig.

<u>Profiadau ymwelwyr</u>

7.22 O blith yr 19 o ymatebwyr i'r arolwg a oedd wedi cael grant TAIS:

- roedd pob un ond un yn credu ei fod wedi gwneud gwahaniaeth mawr (84 y cant neu 16 o blith 19) neu beth gwahaniaeth (11 y cant neu ddau o blith 19) o ran gwella cyfleusterau amwynder ymwelwyr, ac nid oedd un arall yn gwybod
- yn yr un modd, roedd yr holl ymatebwyr heblaw un yn credu ei fod wedi gwneud gwahaniaeth mawr (84 y cant neu 16 o blith 19) neu beth gwahaniaeth (11 y cant neu ddau o blith 19) o ran gwella profiadau ymwelwyr, ac nid oedd un arall yn gwybod
- roedd cyfran ychydig yn is yn credu ei fod wedi gwneud gwahaniaeth mawr (68 y cant neu 13 o blith 19) o ran gwella hygyrchedd ymwelwyr, er bod 26 y cant (pump o blith 19) yn ystyried ei fod wedi gwneud peth gwahaniaeth. Nid oedd yr un prosiect a oedd yn weddill yn gwybod.

7.23 Mae'r dystiolaeth a ddarparwyd gan brosiectau a gyfwelwyd yn awgrymu mai ychydig iawn o ddata sydd wedi'u casglu a'i adrodd gan brosiectau TAIS am unrhyw newidiadau i brofiadau ymwelwyr yn dilyn rhoi'r prosiectau ar waith er eu bod yn hyderus bod newid cadarnhaol wedi digwydd, yn seiliedig ar adborth anecdotaidd ac arsylwadau personol. Roedd y prif

ffyrdd yr oedd prosiectau a gyfwelwyd yn credu bod eu prosiect TAIS wedi gwella cyfleusterau a phrofiadau i ymwelwyr yn cynnwys:

- gwell arwyddion a gwybodaeth drwy arddangosiadau deongliadol a systemau arddangos awyr agored
- gwell llwybrau cerdded a thraciau a llwybrau beicio, a oedd yn cynnwys gwell arwyddion ar lwybrau a thrwy hynny ei gwneud yn haws i ymwelwyr ddod o hyd i'w ffordd o gwmpas
- gwell mynediad i'r cyhoedd megis darparu lloches a chanolfan i ymwelwyr ar un safle gyda gwell lloriau a gwell systemau teledu cylch cyfyng a chanfod tân
- gwell cyfleusterau toiled a maes parcio
- gwella hygyrchedd drwy ddarparu mannau parcio i'r anabl a gwella mynediad i lwybrau cerdded.

7.24 Roedd cwpl o'r prosiectau a gyfwelwyd wedi gallu cyflwyno cynhyrchion a gwasanaethau unigryw o ganlyniad i'w prosiect TAIS, ac roedd y rhain yn cynnwys y canlynol:

- roedd un fenter gymdeithasol wedi gallu cyflwyno llwybrau beicio ychwanegol, a oedd yn golygu y gallai bellach gynnig ystod ehangach o lwybrau beicio ar gyfer gwahanol lefelau o brofiadau. Yn yr achos hwn roedd y fenter hefyd wedi gallu sefydlu clwb beiciau i bobl ifanc a chael rhyw 17 o ddefnyddwyr rheolaidd i ddefnyddio'r llwybrau ddwywaith yr wythnos.
- roedd un busnes rheilffordd ysgafn wedi gallu cyflwyno profiadau teithiau trên byrrach ar ôl defnyddio'r grant i fuddsoddi mewn system dolen trac trên, a oedd yn golygu ei fod yn gallu bodloni'r galw presennol am brofiadau cyflymach a rhatach i ymwelwyr.

<u>Adborth gan ymwelwyr a defnyddwyr</u>

Roedd dau o brosiectau TAIS wedi buddsoddi mewn llwybrau cerdded a beicio. Ar un o'r safleoedd hyn, roedd defnyddwyr a gyfwelwyd yn cynrychioli ymwelwyr lleol yn ogystal ag ymwelwyr o ardaloedd eraill ac

yn cynnwys nifer o ddefnyddwyr cyson yn ogystal â'r rhai a oedd yn ymweld am y tro cyntaf. Roedd y rhesymau dros ymweld ag un lleoliad yn amrywio ac yn cynnwys cyfleoedd cerdded yn agos i'r cartref, apêl llwybrau hygyrch gwastad, defnydd o'r caffi, defnydd o lwybrau beicio, a golygfeydd mewn lleoliad ysblennydd. Roedd yr adborth am ansawdd y safle a ddefnyddiwyd yn gadarnhaol iawn. Mewn un lleoliad, nodwyd bod yr ystâd yn cael ei chynnal a'i chadw'n dda ac yn cynnig golygfeydd anhygoel. Roedd rhai defnyddwyr yn cofio gweld paneli dehongli a ariannwyd gan TAIS a'u bod yn ddiddorol ac yn glir. Roedd y defnyddwyr yn gwerthfawrogi llwybrau cerdded gwastad a hygyrch. Teimlwyd bod hyd y llwybr beicio a ddatblygwyd yn rhy fyr ac roedd galw am ei ymestyn, os yn bosibl, ond derbyniwyd y gallai cyfyngiadau o ran y dirwedd ei atal rhag cael ei ymestyn ymhellach.

Ym mhrosiect llwybr cerdded a beicio arall TAIS, y prif reswm dros ymweld oedd beicio mynydd, a phobl leol yn bennaf oedd y defnyddwyr a gyfwelwyd. Llwybrau cerdded a beicio oedd y prif atyniad, ac roedd y rhan fwyaf yn ei ddefnyddio'n rheolaidd. Roedd defnyddwyr yn hoffi'r ffaith ei fod yn safle mawr gyda thraciau beiciau o ansawdd uchel y gallent eu defnyddio drwy gydol y flwyddyn a bod caffi ar y safle. Nododd eraill hefyd ei fod yn safle priodol ar gyfer cadeiriau gwthio, er gwaetha'r llethrau, ac roedd defnyddwyr yn gwerthfawrogi'r cyfle i fod allan ym myd natur. Dywedodd defnyddwyr cyson fod y lleoliad wedi'i uwchraddio yn ystod y blynyddoedd diwethaf a nodwyd elfennau newydd megis pont droed newydd a llwybr beicio newydd i'r teulu, ac roeddent yn eu croesawu. Nodwyd hefyd fod gwell arwyddion bellach i wahaniaethu rhwng llwybrau cerdded a beicio, a oedd yn eu gwneud yn fwy diogel i'w defnyddio.

Holwyd y defnyddwyr a gyfwelwyd mewn trydydd prosiect TAIS am y buddsoddiad a wnaed i wella cyfleusterau parcio mewn cyrchfan boblogaidd i dwristiaid. Credwyd bod y mannau parcio ar hyd ffordd brysur wedi gwella o ganlyniad i'r prosiect, ond tynnodd y defnyddwyr sylw at y ffaith bod angen llawer mwy o leoedd parcio o ystyried poblogrwydd yr atyniad lleol. Roedd y defnyddwyr yn croesawu lleoliad

canolog y mannau a ddarparwyd ac yn gwerthfawrogi eu bod ar gael yn rhad ac am ddim i'w defnyddio ac nad oedd cyfyngiadau amser arnynt. Dywedodd rheolwr busnes lleol fod arferion parcio wedi gwella ers i'r prosiect gael ei gwblhau o gymharu â'r 'anhrefn' ar y safle a'r ffaith ei fod yn 'beryglus' cyn hynny. Roedd y bwyty ag ystafelloedd hefyd wedi elwa o'r buddsoddiad a wnaed gan y gallai pobl leol a gwesteion a oedd yn aros dros nos bellach ddod o hyd i le parcio cyfleus er mwyn defnyddio'r cyfleuster.

<u>Y galw gan ymwelwyr</u>

7.25 Roedd yr ymatebwyr i'r arolwg yn hyderus bod y galw neu'r defnydd o'r cyfleuster / y gyrchfan wedi cynyddu ers i'r prosiect gael ei gyflawni. Er nad oedd 26 y cant (pump o blith 19) yn gwybod neu'n meddwl ei bod yn rhy gynnar i ddweud, roedd 53 y cant (10 o blith 19) yn meddwl bod y galw neu'r defnydd wedi cynyddu'n fawr ac roedd yr ychydig a oedd yn weddill (21 y cant neu bedwar) yn meddwl ei fod wedi cynyddu ychydig. Roedd yr ymatebwyr i'r arolwg hefyd o'r farn bod y cyllid grant wedi gwneud cyfraniad pwysig at y cynnydd hwn, roedd 71 y cant (10 o blith 14) o'r farn ei fod wedi gwneud cyfraniad mawr a'r 29 y cant sy'n weddill (pedwar o blith 14) yn dweud ei fod wedi gwneud peth cyfraniad.

7.26 Darparodd dau brosiect a gyfwelwyd dystiolaeth o ddefnydd cynyddol o'r cyfleusterau neu'r cyrchfannau a gefnogwyd gan TAIS. Un o'r rhain oedd prosiect llwybr cerdded a beicio dan arweiniad awdurdod lleol a nododd gynnydd blynyddol yn y defnydd o'r llwybrau hyn o 200,000 i 330,000. Mae'r data a ddarparwyd gan y prosiect arall wedi'u nodi isod:

Mae un prosiect TAIS a wnaeth welliannau sylweddol i faes parcio arfordirol wedi arwain at well cyfleusterau amwynder a phrofiadau i ymwelwyr. Bellach mae mwy o leoedd parcio ar gael (gan fod y mannau parcio wedi'u marcio, 125 ohonynt i gyd, felly mae'r system barcio'n well). Mae gwelliannau i ffyrdd wedi helpu i wella llif y traffig i mewn ac allan o'r safle. Mae dau beiriant talu ac arddangos ar y safle, felly mae'n haws i

bobl dalu waeth ble maen nhw wedi parcio. Arferai fod yn amgylchedd llychlyd iawn yn yr haf, ond mae'r ardal wedi'i tharmacio â glaswellt wedi'i atgyfnerthu yn rhoi profiad llawer gwell i ymwelwyr.

Mae data a gasglwyd gan y sefydliad a dderbyniodd y grant yn dangos y bu cynnydd cadarnhaol yn nifer y cerbydau sy'n defnyddio'r safle, o waelodlin o ychydig dros 11,000 yn ystod 2017 i dros 22,000 yn 2021 a thros 19,000 yn ystod 2022. Mae incwm o'r maes parcio hefyd wedi cynyddu ers i'r prosiect gael ei gwblhau, o £19,000 yn 2017 i dros £31,000 y flwyddyn yn 2021 a 2022.

Mae'n annhebygol bod prosiect TAIS ynddo'i hun yn gyfrifol am unrhyw achosion o gynnydd ac felly ni ellir eu priodoli i'r cyllid a oedd ar gael, gan eu bod i'w priodoli i ffactorau eraill gan gynnwys yr ymchwydd ar ôl y pandemig mewn gwyliau gartref, diddordeb cynyddol mewn gweithgareddau awyr agored, ac ailagor caffi o safon ar y safle. Fodd bynnag, mae'r data'n ddefnyddiol i ddangos bod cyllid TAIS wedi'i ddefnyddio i wella cyfleusterau ar safle y gwelwyd mwy o ddefnydd ohono dros amser.

7.27 Dywedodd dau brosiect arall a gyfwelwyd fod nifer yr ymwelwyr wedi cynyddu ond ni ddarparwyd data metrig. Roedd un o'r rhain wedi gweld cynnydd yn y niferoedd a oedd yn defnyddio ei faes parcio ac roedd y llall wedi gweld cynnydd yn yr ymwelwyr a oedd yn defnyddio ei lwybrau cerdded a beicio, ond efallai nid i'r graddau a ddisgwyliwyd, oherwydd effaith y pandemig.

7.28 Mewn dau achos, roedd y prosiectau'n mynd i'r afael â rheoli niferoedd mawr o ymwelwyr ac felly nid oeddent erioed wedi rhagweld y byddai eu prosiect TAIS yn arwain at unrhyw gynnydd yn nifer yr ymwelwyr, ond yn hytrach y byddai'n ei alluogi i reoli'r ymwelwyr presennol yn well. Mewn un achos, helpodd prosiect TAIS i reoli parcio gwrthgymdeithasol ar safle cerdded poblogaidd drwy gyllido lleoedd parcio ceir ychwanegol. Yn y llall, roedd dyfodiad y pandemig ac anawsterau recriwtio a chadw staff yn golygu bod y busnes wedi penderfynu lleihau nifer y defnyddwyr ar ei safle yn fwriadol o 75 i 50 y dydd.

7.29 Roedd gan ddau brosiect a gyfwelwyd gynlluniau ar waith i gofnodi nifer yr ymwelwyr. Er enghraifft, roedd un yn bwriadu cofnodi'r defnydd drwy ddata ffonau symudol ac roedd un arall wedi dechrau casglu gwybodaeth am niferoedd (a phrofiadau) ymwelwyr yn ddiweddar drwy feddalwedd DigiTicket.

| |
|---|
| Roedd un fenter gymdeithasol wedi cael cyllid TAIS i ddatblygu rhwydwaith llwybrau beicio newydd a fyddai'n caniatáu iddi gynnig llwybrau beicio haws i feicwyr llai profiadol. Roedd ei marchnad draddodiadol yn feicwyr mynydd profiadol a allai fforddio prynu cyfarpar arbenigol, teithio i'r ardal a thalu costau llety lleol. Mae prosiect TAIS wedi galluogi'r fenter i ymestyn ei marchnad, i gynnwys teuluoedd a phobl ifanc leol. Cwblhawyd y prosiect cyn y pandemig, a chododd y galw am y cyfleuster yn sylweddol ar ôl i'r cyfyngiadau gael eu codi. Roedd y sefydliad yn ei chael hi'n heriol i ateb y galw cynyddol hwn oherwydd problemau staffio ac felly gosodwyd cyfyngiad ar nifer y defnyddwyr dyddiol a allai archebu'r llwybrau beicio. Mae’r galw wedi parhau i fod yn gryf, ac mae'r system archebu ar-lein yn awgrymu bod pob lle yn cael ei werthu'n aml, a bod gofyn i ddefnyddwyr archebu ymlaen llaw i sicrhau lle. Er bod y prosiect wedi galluogi'r busnes i ymestyn ei dymor, mae amodau tywydd anodd yn ei gwneud yn amhosibl gweithredu drwy gydol y flwyddyn. |

**TPIF a RTEF**

7.30 Mae’r adran hon yn ystyried profiad 23 o brosiectau: 10 prosiect TPIF ac 13 o brosiectau RTEF. Cafwyd cyfanswm o 20 o ymatebion i’r arolwg (naw ar gyfer TPIF ac 11 ar gyfer RTEF) a chynhaliwyd wyth cyfweliad, tri gyda phrosiectau TPIF a phump gyda phrosiectau RTEF. Roedd dau o blith y tri phrosiect TPIF a gyfwelwyd wedi cwblhau'r arolwg hefyd ac roedd tri o blith y pum prosiect RTEF a gyfwelwyd wedi cwblhau'r arolwg.

7.31 O blith yr 20 o ymatebwyr i’r arolwg a oedd wedi cael cyllid drwy TPIF neu RTEF, roedd pawb ond un o’r farn bod eu prosiect wedi cryfhau cydweithio ar draws y sector twristiaeth yn eu hardal i raddau helaeth (20 y cant neu

bedwar) neu i ryw raddau (75 y cant neu 15). Nid oedd yr un a oedd yn weddill yn meddwl ei fod wedi gwneud llawer o wahaniaeth. Roedd adborth gan y rhai a gyfwelwyd yn awgrymu bod pob un o'r pum prosiect RTEF wedi helpu i gryfhau cydweithio. Crybwyllwyd enghreifftiau gan brosiectau RTEF a gyfwelwyd lle yr oedd perthnasoedd rhwng awdurdodau lleol amrywiol yn ogystal â rhwng awdurdodau lleol a busnesau a oedd wedi cymryd rhan mewn prosiectau wedi'u cryfhau. Roedd un prosiect RTEF hefyd yn dadlau bod y prosiect wedi helpu i gryfhau gwaith partneriaeth ar draws rhwydwaith ehangach o sefydliadau gan gynnwys awdurdodau lleol, busnesau, parciau cenedlaethol, a chorff a noddir gan y llywodraeth. Nid oedd prosiectau TPIF a gyfwelwyd wedi bod mor effeithiol o ran sefydlu a chynnal partneriaethau cydweithredol a nododd dau o'r rhain nad oedd cydweithio wedi bod yn elfen graidd o'u dull gweithredu. Roedd y trydydd wedi darparu gweithdai ar gyfer partneriaid twristiaeth amrywiol ond ni chafodd y rhain eu cynnal ar ôl y cyfnod cyllido.

7.32 Roedd holl ymatebwyr y prosiectau RTEF a'r TPIF i'r arolwg, heblaw un, o'r farn eu bod yn debygol iawn (30 y cant neu chwech) neu'n weddol debygol (65 y cant neu 13) o gydweithio eto â'r un partneriaid a fu'n ymwneud â'r prosiect. Nid oedd y gweddill yn meddwl y byddai hyn yn arbennig o debygol. Darparodd cynrychiolwyr prosiectau RTEF a gyfwelwyd dystiolaeth fod cydweithio a gweithio mewn partneriaeth yn parhau ar ôl y cyfnod cyllido, ond nid oedd hyn yn wir ar gyfer prosiectau TPIF a gyfwelwyd lle nad oedd cydweithio wedi bod yn nodwedd mor amlwg o'u dull gweithredu.

7.33 Ar draws hanner y prosiectau a holwyd (50 y cant neu 10), gwnaed defnydd helaeth o adnoddau hyrwyddo a marchnata a ddatblygwyd gan y prosiect a ariannwyd a gwnaed peth defnydd o'r adnoddau hyn mewn saith achos arall. Nid oedd dim defnydd arbennig yn cael ei wneud o adnoddau o'r fath gan dri phrosiect.

7.34 Parhaodd pob un o'r pum prosiect RTEF a gyfwelwyd i ddefnyddio'r adnoddau marchnata a ddatblygwyd fel rhan o'u prosiect. Mewn un achos, roedd adnoddau ffotograffig o ansawdd uchel yn dal i gael eu defnyddio gan yr awdurdod lleol a phartneriaid eraill i hyrwyddo'r cynnig twristiaeth,

mewn achos arall roedd adnoddau marchnata digidol yn dal i gael eu defnyddio ac mewn trydydd achos roedd y wefan a ariannwyd yn dal i fodoli ac yn cael ei diweddaru a'i defnyddio'n helaeth. Nododd tri phrosiect RTEF a gyfwelwyd fod Croeso Cymru wedi defnyddio eu hadnoddau, fel rhan o’i lyfrgell ffotograffau, ar ei wefan, neu yn ystod digwyddiadau megis sioeau masnach.

7.35 Dywedodd un prosiect RTEF ei fod wedi gwella’r adnoddau hyrwyddo ers cwblhau'r prosiect:

> Mae adnoddau marchnata a ddatblygwyd fel rhan o un prosiect RTEF wedi'u gwella'n sylweddol ers i gyllid y prosiect ddod i ben. Mae'r wefan wedi cael ei gwella a'i diweddaru'n rheolaidd, mae'r pecyn cymorth a ddatblygwyd i fusnesau yn cael ei ddiweddaru'n flynyddol ac mae ap i ddefnyddwyr wedi cael ei ailddatblygu i ddiwallu anghenion defnyddwyr presennol yn well. Caiff yr adnoddau a gynhyrchir gan y prosiect eu defnyddio'n helaeth gan bartneriaid eraill, gan gynnwys partneriaethau twristiaeth lleol ac awdurdodau lleol. Mae adnoddau, megis deunyddiau ffotograffig a deunyddiau wedi'u recordio, hefyd yn cael eu defnyddio gan Croeso Cymru yn ystod digwyddiadau marchnata rhyngwladol.
>
> Yn yr achos hwn, mae rheolwr y prosiect wedi cael ei gadw ymlaen gan y partneriaid allweddol, ac mae cyllid pellach wedi’i sicrhau gan Lywodraeth Cymru i gynnal y prosiect. Mae cylch gwaith y prosiect wedi'i ehangu i gwmpasu meysydd tebyg eraill ledled Cymru.

7.36 Parhaodd un prosiect TPIF a gyfwelwyd i ddefnyddio'r adnoddau marchnata a gynhyrchwyd ac mewn ail brosiect, efelychodd y sefydliad arweiniol ddigwyddiadau blynyddol tebyg i'r rhai a ariannwyd drwy TPIF yn sgil eu llwyddiant. Yn y trydydd prosiect TPIF dim ond ychydig iawn o elfennau o'r adnoddau hyrwyddo a ddatblygwyd a oedd yn cael eu cynnal a'u defnyddio. Yn yr achos hwn roedd fideo a baratowyd yn dal i fod ar gael ar-lein, ond rhoddwyd y gorau i ddefnyddio adnoddau eraill ers hynny, megis cynnwys y wefan, tudalen Facebook a map Google, yn ogystal â phecyn Gwobrau, yn bennaf oherwydd bod y partner arweiniol wedi rhoi'r

gorau i fasnachu ac wedi cael ei ymgorffori o fewn darpariaeth yr awdurdod lleol.

7.37 Wrth edrych ar y gwahaniaeth a wnaed gan brosiectau TPIF a RTEF, mae adborth gan yr 20 ymatebydd i'r arolwg yn awgrymu bod prosiectau wedi gwneud gwahaniaeth mawr mewn tua hanner yr achosion a'u bod wedi gwneud peth gwahaniaeth yn yr hanner arall. Nid oes unrhyw wahaniaeth amlwg yn y data wrth ystyried y carfannau TPIF a RTEF ar wahân:

- roedd pob un ond dau o'r ymatebwyr i'r arolwg o brosiectau TPIF a RTEF yn credu bod eu prosiect wedi gwneud gwahaniaeth mawr (45 y cant neu naw) neu beth gwahaniaeth (45 y cant neu naw) i'w gallu i gynnig cynnyrch twristiaeth newydd ac arloesol i'r farchnad. Roedd un yn meddwl nad oedd wedi gwneud dim gwahaniaeth arbennig ac nid oedd un yn gwybod
- roedd pob ymatebydd i'r arolwg o brosiectau TPIF a RTEF heblaw un yn credu bod eu prosiect wedi gwneud gwahaniaeth mawr (60 y cant neu 12) neu beth gwahaniaeth (35 y cant neu saith) i'w gallu i ddatblygu ac ehangu'r cynnwys hyrwyddo a ddefnyddir i ddenu darpar ymwelwyr. Roedd yr un arall yn credu nad oedd wedi gwneud dim gwahaniaeth arbennig
- roedd pob ymatebydd i'r arolwg o brosiectau TPIF a RTEF heblaw un yn credu bod eu prosiect wedi gwneud gwahaniaeth mawr (45 y cant neu naw) neu beth gwahaniaeth (50 y cant neu 10) i'w gallu i hyrwyddo eu gwasanaethau neu gynhyrchion i farchnad ehangach, fwy. Roedd yr un a oedd yn weddill yn meddwl nad oedd wedi gwneud dim gwahaniaeth arbennig.

7.38 Roedd adborth gan brosiectau a gyfwelwyd yn awgrymu bod eu gweithgareddau wedi gwneud mwy o wahaniaeth i'r ffordd yr oedd cynhyrchion a gwasanaethau twristiaeth yn cael eu hyrwyddo, nag i ddatblygiad cynhyrchion twristiaeth newydd ac arloesol, er bod datblygiad gŵyl flynyddol gan un prosiect TPIF yn eithriad. Nododd y prosiectau TPIF a RTEF a gyfwelwyd fod eu prosiectau wedi caniatáu iddynt greu cynnwys hyrwyddo y gellid ei ddefnyddio am rhwng pump a deng mlynedd, i fynychu

sioeau masnach er mwyn marchnata i gynulleidfaoedd newydd a mwy, i ddatblygu gwefannau, ac i fabwysiadu dulliau hyrwyddo newydd megis drwy ddylanwadwyr ac Airbnb.

7.39 Awgrymodd cynrychiolwyr prosiectau TPIF ac RTEF a ymatebodd i'r arolwg fod cynnydd wedi bod yn y galw neu’r defnydd o’u gwasanaethau, eu cynhyrchion, neu gyrchfan ers cyflawni’r prosiect, ond yn gyffredinol, cymharol fach fu’r cynnydd hwn. O blith yr 20 a ymatebodd, roedd 30 y cant (chwech) yn credu bod y galw wedi cynyddu’n sylweddol, roedd 50 y cant (10) yn credu ei fod wedi cynyddu ychydig a 10 y cant (dau) yn meddwl na fu unrhyw wahaniaeth. Dywedodd y 10 y cant (dau) arall nad oeddent yn gwybod neu ei bod yn rhy gynnar i ddweud. O blith yr 16 a nododd bod ychydig o gynnydd yn y galw am wasanaethau, cynhyrchion, neu gyrchfannau, roedd 38 y cant (chwech) yn credu bod y cyllid grant wedi gwneud cyfraniad mawr at y cynnydd ac roedd 50 y cant (wyth) yn credu ei fod wedi gwneud peth cyfraniad. Nid oedd yr 13 y cant (dau) a oedd yn weddill nad oeddent yn gwybod neu roeddent yn credu nad oedd wedi gwneud llawer o gyfraniad.

7.40 Roedd adborth gan y prosiectau a gyfwelwyd yn cefnogi'r newid cadarnhaol hwn yn lefelau'r galw am wasanaethau a chynhyrchion, ond yn gyffredinol ychydig iawn o ddata a oedd ar gael i ddangos tystiolaeth o gynnydd anecdotaidd. Roedd y tri phrosiect TPIF a gyfwelwyd yn ei chael hi'n anodd nodi'r math o ddata y gellid ei ddefnyddio i ddangos effaith eu gweithgareddau. Mewn un achos roedd y digwyddiad a ariannwyd wedi bod yn weithgaredd untro, mewn achos arall nid oedd y prosiect wedi parhau, ac yn y trydydd achos nid oedd yr effaith ar fusnesau partneriaid wedi'i monitro dros amser.

7.41 Roedd y math o dystiolaeth a ddarparwyd gan brosiectau RTEF a gyfwelwyd o newidiadau yn y galw dros amser, a natur y dystiolaeth honno, yn amrywio gan ei gwneud yn amhosibl i gydgrynhoi'r rhain ar lefel cynllun. Fodd bynnag, pan gyfeiriwyd at ddata, roedd yn dangos tuedd gadarnhaol o ran y galw a'r defnydd. Er enghraifft, nododd un prosiect fod mwy o bobl yn cymryd rhan mewn digwyddiadau hanner marathon blynyddol a gyflwynwyd fel rhan o'r prosiect RTEF. Nododd prosiect arall a oedd wedi

canolbwyntio ar becynnu a hyrwyddo cyfleoedd i longau mordaith ymweld â Chymru fod ymweliadau llongau mordaith ag un porthladd yng Nghymru wedi dyblu ers i'r prosiect gael ei roi ar waith er ei fod yn cydnabod bod ffactorau eraill, megis penderfyniadau masnachol a wneir gan borthladdoedd a llongau mordaith, hefyd i'w gyfrif am rywfaint o'r cynnydd hwn. Dywedodd prosiect arall fod ei waith hyrwyddo RTEF wedi arwain at 25,000 o ymweliadau â gwefannau partner, yr amcangyfrifwyd ei fod wedi cynhyrchu incwm o ychydig o dan £1 miliwn iddo.


7.42 Dywedodd prosiect RTEF arall y bu cynnydd o dros 30 y cant yn nifer y chwiliadau organig am ei gynnyrch a nifer yr ymweliadau â'r wefan a sicrhawyd ers gweithredu'r prosiect. Dros yr un cyfnod, dyblodd nifer ei ddilynwyr ar y cyfryngau cymdeithasol ac adeg ein gwaith maes roedd gan y prosiect dros 100,000 o ddilynwyr. Roedd data monitro a data arolwg a ddarparwyd gan y prosiect hwn hefyd yn dangos cynnydd nodedig yn nifer y defnyddwyr a'u lefelau boddhad.

## 8. Gwerth am arian

8.1 Mae’r bennod hon yn ystyried canfyddiadau’r gwaith maes o ran yr hyn a fyddai wedi digwydd yn absenoldeb y cyllid grant a ph'un a sicrhawyd gwerth am arian. Mae'n seiliedig ar ganfyddiadau'r arolwg a'r cyfweliadau â phrosiectau.

8.2 Awgryma canfyddiadau’r arolwg, pe na bai’r rhai dderbyniodd y grantiau wedi derbyn y cyllid, ychydig iawn o brosiectau fyddai wedi symud ymlaen o gwbl. Credai dwy ran o dair o'r rhai a holwyd (66 y cant neu 40 o blith 61) na fyddai eu prosiect wedi symud ymlaen o gwbl (fel y dangosir yn Ffigur 8.1). Roedd y traean a oedd yn weddill o'r farn y byddai agweddau ar y prosiect wedi mynd rhagddynt neu y byddai'r prosiect (yn rhannol neu'n gyfan gwbl) wedi cael ei ohirio.

**Ffigur 8.1: Y canlyniad tebygol i brosiectau yn absenoldeb cyllid grant**




Ffynhonnell: Arolwg ar-lein gan OB3 (61 o ymatebion)

8.3 O ystyried y gorgyffwrdd sylweddol rhwng yr ymatebwyr i'r arolwg a'r prosiectau a gyfwelwyd, nid oedd yn syndod bod llawer o'r rhai a gyfwelwyd hefyd wedi dweud na fyddai eu prosiect wedi symud ymlaen o gwbl yn

absenoldeb y cyllid grant. Prosiectau cyfalaf mawr, megis adnewyddu gwestai ar raddfa fawr a ariannwyd drwy'r MSBF, oedd y lleiaf tebygol o fod wedi symud ymlaen o gwbl yn absenoldeb arian grant. Yn un o'r achosion hyn awgrymwyd y byddai'r gwesty wedi cael ei ddymchwel fel arall, cymaint oedd y costau adnewyddu. Efallai y byddai prosiectau MSBF llai o faint wedi symud ymlaen, ond yn aml ar raddfa lai, neu byddai eu hansawdd yn is, a byddent wedi cael eu cyflawni dros gyfnod llawer hwy.

8.4 Roedd prosiectau refeniw a gefnogwyd drwy TPIF neu RTEF yn tueddu i nodi y byddai rhai elfennau o'u prosiectau, megis digwyddiadau, wedi cael eu cyflawni yn absenoldeb y cyllid grant ond y byddent wedi cael llai o effaith yn sgil cyllidebau marchnata llai. Dim ond un prosiect refeniw a ddywedodd na fyddai wedi symud ymlaen o gwbl, ac yn yr achos hwn cafodd y prosiect ei ddatblygu mewn ymateb i'r cyfle cyllido.

8.5 Pan ofynnwyd sut y byddent wedi cyllido’r prosiect yn absenoldeb cymorth grant, roedd y prif ffynonellau a nodwyd fel a ganlyn, ac roedd busnesau’r sector preifat yn fwy tebygol o gyfeirio at y ddau gyntaf a sefydliadau’r sector cyhoeddus a’r trydydd sector yn fwy tebygol o gyfeirio at y ddau olaf:

- benthyciadau busnes neu fenthyciadau personol, gan gynnwys benthyciadau banc
- elw busnes yn y dyfodol o dwf organig, gan gynnwys ail-fuddsoddi elw ac adnoddau personol yn y dyfodol
- cyllid grant allanol arall e.e., 'byddem wedi parhau i geisio cyllid allanol perthnasol'; 'mae'n debyg y byddem wedi dod o hyd i gyllid arall, ond byddai wedi cymryd mwy o amser' a 'hoffwn feddwl y byddem wedi dod o hyd i gyllid arall, ond mae'n bosibl na fyddai hynny wedi digwydd, mae'n anodd dweud'.
- cronfeydd mewnol e.e., 'o ran y prosiect RTEF, roedd yr ymgyrch farchnata yn mynd i ddigwydd beth bynnag, ond cafodd ei gwella'n sylweddol gan y grant' ac 'roedd y prosiect yn rhan o brosiect mwy, a phe na baem wedi derbyn grant TAIS, byddai wedi bod yn anodd, os nad yn amhosibl,  cynnwys unrhyw ddarpariaeth dwristiaeth o fewn yr adeilad newydd'.

8.6 Yn gyffredinol, defnyddiwyd y cyllid yn y ffordd a fwriadwyd ond, fel y nodir ym Mhennod 6, bu'n rhaid gwneud newidiadau i'r prosiectau hynny yr effeithiwyd arnynt gan y pandemig a'r cynnydd mewn costau a ddeilliodd o hynny. Fel y trafodwyd yn gynharach, roedd tueddiad i brosiectau cyfalaf wario mwy na'r gyllideb oherwydd costau adeiladu cynyddol ac annisgwyl.

8.7 Nid oedd llawer o dystiolaeth i awgrymu y gallai prosiectau fod wedi arbed costau ac, yn gyffredinol, roedd y prosiectau a gyfwelwyd yn credu eu bod wedi sicrhau gwerth da am arian. Pwysleisiodd y prosiectau a gyfwelwyd eu bod yn caffael yn ofalus, a bod yr adnoddau a ddefnyddiwyd wedi bod yn hanfodol i gwblhau prosiectau. Pwysleisiodd y rhai a gyfwelwyd eu bod wedi ystyried ansawdd a hirhoedledd wrth wneud penderfyniadau ynghylch penodi contractwyr a phrynu cyflenwadau h.y., er y gellid bod wedi cael gafael ar rai deunyddiau yn rhatach, byddai'n rhaid eu hadnewyddu yn gynt. Roedd un prosiect refeniw o'r farn y gellid bod wedi gwneud arbedion cost bach pe baent wedi gallu prynu cyfarpar ar gyfer ffeiriau hyrwyddo yn hytrach na'u llogi.

8.8 Roedd un prosiect TAIS yn credu ei fod wedi darparu gwerth eithriadol am arian, gan fod prosiectau tebyg eraill a gyflwynwyd gan y sefydliad arweiniol wedi bod yn ddrutach. Yn yr achos hwn, roedd y ffaith bod awdurdod lleol yn goruchwylio'r broses gaffael mewn perthynas â'r gwaith cyfalaf yn golygu eu bod yn gallu sicrhau gwell gwerth am arian gan ddarparwyr ar gontract.

**Gwerth am Arian yr MSBF**

8.9 Amlinellir asesiad gwerth am arian ar gyfer yr MSBF yn yr adran hon. Mae'n bosibl ymchwilio i gost allbynnau a gofnodwyd megis swyddi a grëwyd ac a ddiogelwyd, yn ogystal ag effaith y buddsoddiad ar berfformiad busnesau, megis cyfraniad at unrhyw newidiadau mewn trosiant busnes, elw, a lefelau cyflogaeth.

8.10 Amcangyfrifir bod cyfanswm y gwariant ar y cynllun MSBF ychydig dros £4.5 miliwn. Mae hyn yn cynnwys gwariant grant uniongyrchol i fusnesau a gefnogir yn ogystal â chostau a ddaw i ran Llywodraeth Cymru wrth weinyddu'r cynllun. Mae costau gweinyddol Llywodraeth Cymru a nodir yn

Nhabl 8.1 yn seiliedig ar ddosraniad o’r costau Cymorth Technegol cyffredinol a ddaeth i ran RPW i weinyddu ceisiadau a phrosesu hawliadau[41].

**Tabl 8.1: Gwariant yr MSBF**

| | Gwariant yr MSBF |
|---|---|
| Cyllid grant a wariwyd | £4,500,000 |
| Costau gweinyddu'r cynllun | £58,800 |
| Cyfanswm gwariant yr MSBF | £4,558,800 |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru (Mai 2023)

8.11 Gan ddefnyddio’r data allbynnau yn Nhabl 2.6 yn yr adroddiad hwn a gwariant y cynllun, mae’n bosibl cyfrifo’r gost fesul swydd a grëwyd ac a ddiogelwyd ar draws y cynllun MSBF, fel y nodir yn Nhabl 8.2. O ystyried bod £10,000 o gyllid wedi'i ddyrannu fesul swydd FTE a grëwyd neu a ddiogelwyd ar draws yr MSBF, roedd y gost fesul allbwn a gyflawnwyd yn uwch, sef £13,468.

**Tabl 8.2: Cost yr MSBF fesul swydd a grëwyd ac a ddiogelwyd**

| | Cyflawnwyd | Cost fesul allbwn |
|---|---|---|
| Nifer y swyddi a grëwyd | 246 | £18,532 |
| Nifer y swyddi a ddiogelwyd | 92.5 | £49,284 |
| Cyfanswm y swyddi a grëwyd **neu** a ddiogelwyd | 338.5 | £13,468 |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru (Mai 2023)

8.12 Awgryma'r dystiolaeth o'r arolwg a nodir yn Nhabl 7.1 yr adroddiad hwn ar y newid yn nhrosiant busnesau fod y buddsoddiad grant uniongyrchol o £2.4 miliwn (ar draws 23 o fusnesau MSBF) wedi arwain at dwf cadarnhaol mewn trosiant o £6.755 miliwn. Byddai defnyddio'r data i'w fodelu ar gyfer y

[41] Cyfrifodd Llywodraeth Cymru fod costau gweinyddol RPW i weinyddu MSBF yn cyfateb i 0.7% o’r £8.4 miliwn a ddyfarnwyd i RPW fel Corff Cyfryngol. Dosbarthwyd MSBF yn gynllun cymhleth iawn ac felly rhoddwyd y lefel uchaf o bwysoliad iddo o ran dosraniad costau. Roedd y sgôr pwysoli y gellid ei ddyrannu i unrhyw gynllun penodol yn amrywio o 1 (ar gyfer y cynlluniau cyllido mwyaf syml) i 3 (ar gyfer cynlluniau hynod gymhleth fel yr MSBF).

buddsoddiad grant cyfan o £4.5 miliwn yn awgrymu bod yr MSBF wedi arwain at dwf cadarnhaol mewn trosiant o bron i ddwywaith hynny h.y., tua £12.667 miliwn.

8.13 Wrth gyfrifo'r gwerth am arian a gyflawnwyd gan yr MSBF, byddai'n werth ystyried a yw busnesau a gefnogwyd wedi cael mynediad at unrhyw gyllid grant arall er mwyn cynnig darlun mwy cyflawn o ychwaneged y cynllun. Mae ein hasesiad o'r gwerth am arian a gyflawnwyd wedi'i gyfyngu i'r data a gasglwyd yn uniongyrchol oddi wrth fuddiolwyr ac nid yw'n ystyried y ffaith y gallai rhai buddiolwyr fod wedi cael mynediad at gyllid o gynlluniau eraill y Rhaglen Datblygu Gwledig. Gallai’r manteision felly fod yn fanteision cyfunol gan eu bod yn deillio o fwy nag un ffrwd gyllido. Bydd i ba raddau y digwyddodd hyn, a'r effeithiau posibl yn cael eu hystyried yng Ngwerthusiad Terfyn Rhaglen y Rhaglen Datblygu Gwledig ar gyfer 2014-2020.


# 9. Themâu ac amcanion trawsbynciol

9.1 Mae'r bennod hon yn ystyried y cyfraniad a wneir gan y prosiectau a ariannwyd tuag at dri amcan trawsbynciol y Rhaglen Datblygu Gwledig (sef Arloesedd, yr Amgylchedd, ac addasu a lliniaru newid yn yr hinsawdd) a themâu trawsbynciol Llywodraeth Cymru, sef Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhywedd; Datblygu Cynaliadwy; a Threchu Tlodi. Mae hefyd yn ystyried y cyfraniad a wneir at y strategaeth Cymraeg 2050.

**Themâu ac amcanion trawsbynciol**

9.2 Fel y dangosir yn Ffigur 9.1, o ran y themâu ac amcanion trawsbynciol, roedd yr ymatebwyr i'r arolwg o'r farn bod eu prosiectau wedi gwneud y cyfraniad mwyaf at arloesi, cyfle cyfartal, datblygu cynaliadwy, a'r Gymraeg. Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr i'r arolwg o'r farn bod eu prosiectau wedi gwneud llai o gyfraniad tuag at fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd a threchu tlodi ac allgau cymdeithasol mewn ardaloedd gwledig.

**Ffigur 9.1: Y cyfraniad a wnaed gan brosiectau at themâu ac amcanion trawsbynciol**




Ffynhonnell: Arolwg ar-lein gan OB3 (61 o ymatebion)

9.3 Rydym yn ystyried pob un o'r themâu a'r amcanion trawsbynciol hyn yn eu tro ac yn nodi enghreifftiau o sut y cyfrannodd y prosiectau atynt:

**Datblygu darpariaeth arloesol ac sy'n torri tir newydd**

9.4 Roedd enghreifftiau o brosiectau arloesol, neu elfennau ohonynt, a gasglwyd yn ystod y gwaith maes yn cynnwys:

- cyfleusterau llety arloesol fel cytiau bugeiliaid a thai pen coeden oddi ar y grid
- profiadau arloesol i ymwelwyr megis digwyddiadau a gwyliau newydd, ac atyniadau newydd
- defnydd arloesol o dechnoleg newydd fel paneli gwybodaeth ddigidol, paneli solar, a gwefrwyr cerbydau trydan

- o'r cychwyn, dyluniwyd gwybodaeth arloesol, megis rhai paneli gwybodaeth gyfeirio, i fod yn wahanol. Un enghraifft oedd panel gwybodaeth ar y wyddoniaeth y tu ôl i'r prosiect awyr dywyll mewn un prosiect TAIS
- defnydd arloesol o'r celfyddydau a diwylliant o fewn gweithgareddau prosiectau.

**Addasu i'r newid yn yr hinsawdd a'i liniaru**

9.5 Soniodd prosiectau adeiladu ac adnewyddu cyfalaf yn aml eu bod wedi gosod deunydd insiwleiddio mewn adeiladau, wedi gosod gwydr dwbl o safon uchel i leihau colli gwres, wedi mabwysiadu system aerdymheru gynaliadwy i leihau gwastraffu gwres, wedi cyflwyno systemau rheoli gwres unigol, wedi mabwysiadu slotiau cardiau allwedd ym mhob ystafell i reoli'r defnydd o drydan a lleihau gwastraff trydan, wedi gosod goleuadau coridor a weithredir gan synwyryddion, wedi cyflwyno amseryddion goleuadau a dyfeisiau pylu sgriniau, wedi mabwysiadu datrysiadau golau LED, ac wedi gosod gwefrwyr ar gyfer cerbydau trydan.

9.6 Roedd datrysiadau llai cyffredin eraill a gyflwynwyd gan brosiectau i helpu i fynd i’r afael â’r newid yn yr hinsawdd a’i liniaru, ac a grybwyllwyd gan un neu ddau leoliad yn unig, yn cynnwys y canlynol:

- roedd un prosiect TAIS wedi dilyn egwyddorion y System Ddraenio Gynaliadwy (SuDS)[42] ac roedd prosiect TAIS arall wedi ystyried materion draenio dŵr er mwyn atal llifogydd
- tynnodd dau fusnes sylw at eu harferion ailgylchu effeithiol a’u hymdrechion i ailddefnyddio deunyddiau wedi’u hailgylchu fel rhan o’u gwaith adeiladu
- roedd un prosiect wedi gosod dros 600 o orsafoedd ail-lenwi dŵr i geisio lleihau effaith poteli plastig untro ar yr amgylchedd a’r hinsawdd

[42] Dull draenio cynaliadwy ar gyfer storio a defnyddio dŵr glaw mewn ffordd sy’n ei ryddhau a’i gludo’n araf er mwyn rheoli dŵr wyneb yn well.

- roedd un prosiect RTEF yn gweithio gyda Trafnidiaeth Cymru i annog defnyddwyr i gyrraedd yno ar drafnidiaeth gyhoeddus yn ogystal â gweithio â'r Ganolfan Modelu Arfordirol i edrych ar erydu, a rhoi dull Gwyddor Dinasyddion ar waith i olrhain newidiadau i'r dirwedd arfordirol
- roedd un prosiect RTEF yn cydweithio â chynllun e-feiciau Brompton i osod cyfleusterau beiciau mewn tair gorsaf ar draws y sir i hybu beicio a lleihau'r effaith ar yr hinsawdd.

**Cyfleoedd Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhywedd**

9.7 Roedd y prosiectau a gyfwelwyd yn cyfeirio'n aml at eu polisïau cyfle cyfartal ac amrywiaeth mewn perthynas â chyflogaeth a soniodd sawl un hefyd bod yn rhaid i'w darparwyr dan gontract ddangos eu bod wedi mabwysiadu'r polisïau hyn fel rhan o brosesau caffael. Dywedwyd yn aml bod prosiectau'n cyflogi dynion a menywod fel ei gilydd, ac roedd llawer o brosiectau'r MSBF yn gyflogwyr pwysig i bobl ifanc, yn enwedig ar gyfer cyfleoedd gwaith tymhorol.

9.8 Ymhlith enghreifftiau eraill o sut yr oedd prosiectau wedi cyflawni'r thema drawsbynciol cyfle cyfartal roedd y canlynol:

- yn aml, roedd prosiectau TAIS wedi buddsoddi mewn gwella cyfleusterau toiled i'r anabl, wedi creu mannau parcio i'r anabl, ac wedi gwella mynediad ac arwynebau i'r rhai â thrafferthion symud. Nododd un prosiect o'r fath:

  'roedd hwn yn brosiect gwych a wnaeth wahaniaeth aruthrol i'r gyrchfan a gwneud [enw'r safle] yn hygyrch i bobl ag anableddau difrifol'

- roedd un prosiect MSBF wedi buddsoddi mewn bygis pob tir a oedd yn addas ar gyfer gwesteion â llai o allu i symud er mwyn iddynt allu defnyddio'r traeth cyfagos
- roedd un prosiect RTEF wedi hyrwyddo rhannau hygyrch o'r llwybr arfordirol i'r rhai â phroblemau symudedd ac wedi gweithio gyda dylanwadwr anabl i ddangos eu hygyrchedd. Yn yr achos hwn,

profodd contractwyr anabl y llwybr hefyd gyda'r nod o gynnig syniadau ar gyfer gwelliannau. Ers hynny, mae hefyd wedi lansio her ddigidol i gwblhau llwybr yr arfordir i'r rhai na allant deithio neu gerdded ar ei hyd

- mewn modd tebyg, defnyddiodd un o brosiectau eraill RTEF ddylanwadwyr benywaidd i hyrwyddo beicio i fenywod yn y sir
- o ran gweithio gyda chymunedau ethnig, darparwyd llai o enghreifftiau gan brosiectau, ond roedd y rhain yn cynnwys un prosiect a oedd wedi gweithio gyda grŵp o gerddwyr Mwslimaidd i annog aelodau o’r gymuned hon i ddefnyddio’r cyfleusterau, un sefydliad trydydd sector a oedd wedi recriwtio cynrychiolwyr lleiafrifoedd ethnig i'w Fwrdd yn ddiweddar, ac un prosiect TPIF a oedd wedi cynnal digwyddiad a oedd yn canolbwyntio ar gymuned ethnig amrywiol.

**Datblygu Cynaliadwy**

9.9 Nodir isod enghreifftiau o sut yr oedd prosiectau wedi mabwysiadu ffyrdd mwy cynaliadwy o weithio, ond mae'n werth nodi y gallai llawer o’r enghreifftiau a restrir o dan ‘newid yn yr hinsawdd’ uchod fod yn berthnasol yma hefyd:

- defnyddio ffynonellau ynni gwyrddach gan gynnwys paneli solar a chyflenwyr trydan gwyrdd
- datblygu llety oddi ar y grid, megis y cytiau bugeiliaid oddi ar y grid a gyflenwir â dŵr, cyfleusterau draenio a thrydan cynaliadwy.
- mabwysiadu arferion ailgylchu a defnyddio deunyddiau wedi’u hailgylchu e.e., mae un busnes MSBF yn defnyddio bagiau coffi a chwpanau coffi y gellir eu compostio ac roedd un prosiect TAIS wedi defnyddio trawstiau rheilffordd wedi’u hailgylchu yn ei waith adeiladu
- defnydd mwy cynaliadwy o adnoddau naturiol e.e., pwysleisiodd un prosiect TAIS bwysigrwydd defnyddio a diogelu adnoddau lleol megis pridd a cherrig wrth adeiladu llwybrau cerdded

- roedd un prosiect TAIS yn annog defnyddwyr ei lwybrau beicio i gyfrannu at ei brosiect plannu coed i wrthbwyso effaith amgylcheddol eu teithio ac roedd wedi codi £5,000 o'r gweithgaredd hwn hyd yma.

9.10 Dadleuodd y prosiectau y gallent fod wedi gwneud mwy o ymdrech i fabwysiadu opsiynau adeiladu a gweithredu mwy cynaliadwy, ond dadleuwyd bod y costau yn atal rhai rhag gwneud hynny. Dadleuodd un prosiect MSBF o’r fath y gallai'r prosiect fod wedi bod yn llawer mwy cynaliadwy pe bai wedi gallu fforddio talu'r costau’n gysylltiedig â gosod cyflenwad ynni adnewyddadwy yn y lleoliad.

**Trechu tlodi ac allgau cymdeithasol mewn ardaloedd gwledig**

9.11 Yn ystod y gwaith maes, casglwyd llu o enghreifftiau o sut yr oedd prosiectau’n trechu tlodi ac allgau cymdeithasol, er bod yr ymatebwyr i’r arolwg wedi rhoi sgôr weddol isel i hyn. Roedd dadl gref bod y gyflogaeth a grëwyd ac a gefnogwyd gan brosiectau yn darparu swyddi gydol y flwyddyn i bobl leol, a phwysleisiodd busnesau’r sector preifat eu bod yn cynnig mwy na'r isafswm cyflog neu eu bod yn gyflogwyr cyflog byw.

9.12 Nododd rhai busnesau a gyfwelwyd eu bod wedi'u lleoli mewn cymunedau o amddifadedd a'u bod wedi helpu i 'greu cyflogaeth gynaliadwy o ansawdd uwch' mewn ardaloedd o amddifadedd sylweddol. Nododd sawl prosiect hefyd ei fod yn defnyddio contractwyr lleol, ar gyfer gwaith cyfalaf yn ogystal ag ar gyfer gwasanaethau a chyflenwadau parhaus e.e., roedd un busnes MSBF yn gwerthu hamperi o gynnyrch lleol i westeion a oedd yn aros yno.

9.13 Roedd tri o fusnesau'r MSBF a gyfwelwyd yn cymryd rhan weithredol yn y gwaith o gefnogi pobl ifanc drwy brentisiaeth neu gyfleoedd hyfforddi eraill. Roedd un wedi cyflogi prentis peirianneg yn ystod y prosiect, ac roedd un arall wrthi’n trafod gyda choleg lleol y posibilrwydd o ddatblygu llwybr gyrfa yn y maes lletygarwch i weithwyr a recriwtiaid newydd. Roedd y trydydd wedi bwriadu datblygu academi hyfforddi ar ei safle newydd, ond rhoddwyd y cynlluniau hyn o'r neilltu oherwydd y pandemig.

9.14 Disgrifiodd prosiectau eraill eu gwaith i liniaru allgáu cymdeithasol ymhlith defnyddwyr ac ymwelwyr. Roedd y rhain yn cynnwys y canlynol:

- roedd pedwar o'r prosiectau a ariannwyd gan TAIS wedi buddsoddi mewn cyfleusterau sy'n rhad ac am ddim i'w defnyddio megis llwybrau beicio a cherdded. Yn un o'r achosion hyn roedd y prosiect wedi creu llwybrau beicio mynydd i ddechreuwyr dibrofiad, a oedd yn fwy tebygol o fyw yn yr ardal leol, ac roedd hefyd wedi sefydlu clwb beicio i bobl ifanc
- roedd tri phrosiect wedi cynnal digwyddiadau am ddim neu â chymhorthdal i'w gwneud yn fwy fforddiadwy i bobl leol a nododd prosiect TAIS arall ei fod yn cynnig consesiwn maes parcio i bobl leol. Roedd un o'r prosiectau hyn (prosiect MSBF) wedi sicrhau bod ei adeilad ar gael yn rhad ac am ddim i artistiaid lleol ei ddefnyddio yn ystod y pandemig
- amlygodd tri phrosiect eu rôl o ran helpu i liniaru ynysigrwydd cymdeithasol a hyrwyddo llesiant eu defnyddwyr. Er enghraifft, dywedodd un prosiect TAIS a oedd â chaffi fod y cyfleuster yn bwysig i aelodau'r gymuned leol ei ddefnyddio ac i ryngweithio ag eraill. Dywedodd prosiect TAIS arall ei fod yn cydweithio â phrosiectau presgripsiynu cymdeithasol[43] drwy ddarparu canolfan i bobl leol wirfoddoli.

**Y Gymraeg**

9.15 Disgwyliwyd y byddai cynllun Twristiaeth Wledig Cymru Gyfan yn cydymffurfio â safonau'r Gymraeg ac yn cyfrannu at uchelgeisiau strategaeth Cymraeg 2050.

9.16 Canfu'r gwaith maes ddefnydd eang o'r Gymraeg ar draws gweithgareddau hyrwyddo a marchnata'r prosiectau, gan gynnwys arwyddion ac adnoddau dehongli dwyieithog, yn ogystal â gwefannau a thaflenni hyrwyddo. Dywedodd prosiectau a arweiniwyd gan y sector cyhoeddus, a'r rhan fwyaf

[43] Presgripsiynu cymdeithasol yw pan fydd ymarferwyr iechyd fel meddygon teulu neu nyrsys yn atgyfeirio cleifion at ymyriadau anghlinigol lleol, fel garddio, gweithgareddau celfyddydol, neu weithgareddau chwaraeon neu i wella iechyd meddwl a llesiant corfforol.

o'r prosiectau a arweiniwyd gan y trydydd sector, fod pob agwedd ar eu prosiect yn ddwyieithog, gan gynnwys gwefannau ac adnoddau megis pecynnau cymorth i fusnesau. Y rhai sy'n gweithredu mewn ardaloedd â chyfrannau uwch o siaradwyr Cymraeg o fewn y gymuned a oedd yn tueddu i wneud y defnydd mwyaf o'r Gymraeg yn eu deunyddiau marchnata. Busnesau sector preifat yr MSBF oedd y lleiaf tebygol o fod â gwefannau dwyieithog, neu wefannau ag elfennau o Gymraeg arnynt. Credai'r prosiectau fod ymwelwyr yn ymateb yn gadarnhaol i'r defnydd o'r Gymraeg yn eu lleoliadau.

9.17 O ran defnyddio'r Gymraeg a chefnogi seilwaith economaidd-gymdeithasol cymunedau Cymraeg eu hiaith, nodwyd llawer o enghreifftiau yn ystod y cyfweliadau gan gynnwys:

- cyflogi siaradwyr Cymraeg e.e., mewn un prosiect mawr a ariannwyd gan yr MSBF, nodwyd bod 90 y cant o'r staff yn siaradwyr Cymraeg
- anogwyd y staff i ddefnyddio'r Gymraeg yn gyntaf, ac mewn un achos i ddefnyddio bathodynnau i ddangos eu bod yn siaradwyr Cymraeg. Mewn rhai lleoliadau roedd y Gymraeg yn cael ei defnyddio'n aml gan staff a byddai ymwelwyr yn cael profiad o hyn yn ystod eu harhosiad neu eu hymweliad
- defnyddio termau ac enwau Cymraeg, megis mabwysiadu enwau Cymraeg ar ystafelloedd, llwybrau cerdded a llwybrau beicio; bwydlenni dwyieithog neu ddefnydd achlysurol o dermau Cymraeg ar fwydlenni; a defnyddio enwau a thermau hanesyddol a diwylliannol lleol (e.e., y Mabinogion) i greu ymdeimlad o le. Dywedodd y prosiectau fod ymwelwyr yn chwilfrydig ynglŷn â'r defnydd o enwau Cymraeg
- darparu esboniadau i ymwelwyr am ystyr termau Cymraeg. Er enghraifft, roedd adnoddau dehongli a ddatblygwyd gan un prosiect yn rhoi esboniadau yn Saesneg o enwau a thermau Cymraeg, ac roedd adborth a gasglwyd gennym gan ymwelwyr yn awgrymu bod hyn yn ddiddorol iddynt.

## 10. Anghenion cyllido yn y dyfodol

10.1 Mae'r bennod hon yn ystyried barn swyddogion Llywodraeth Cymru, ymatebwyr i'r arolwg, y prosiectau a gyfwelwyd a rhanddeiliaid eraill a gyfrannodd at y gwerthusiad ynghylch anghenion cyllido'r sector twristiaeth ar draws Cymru wledig yn y dyfodol.

**Cymhwyso gwersi a ddysgwyd i'r cynllun Y Pethau Pwysig**

10.2 Mae llawer o'r gwersi a ddysgwyd o gynllun Twristiaeth Wledig Cymru Gyfan eisoes wedi'u hystyried a'u defnyddio fel sail i gynllun olynol, Y Pethau Pwysig, sydd wedi'i fodelu ar lwyddiant TAIS. Roedd pedwar awdurdod lleol a gyfwelwyd wedi sicrhau cyllid drwy'r cynllun hwn ac roeddent yn cefnogi ei argaeledd a'i ddyluniad. Roedd cefnogaeth eang i'r cyfraddau uwch o gyllid sydd ar gael drwy'r cynllun ac amserlen gyflawni hwy o ddwy flynedd, y credwyd eu bod yn fwy addas ar gyfer prosiectau cyfalaf yr oedd angen caniatâd cynllunio arnynt yn aml. Roedd cefnogaeth hefyd i ailenwi'r gronfa, gan gyfnewid acronym am deitl a oedd yn adlewyrchu natur y prosiectau a ariannwyd yn well. Roedd awdurdodau lleol hefyd yn gefnogol i'r penderfyniad a wnaed i eithrio prosiectau'r sector preifat o'r cynllun Y Pethau Pwysig gan fod hyn yn sicrhau bod cyllid yn cael ei ddefnyddio i gefnogi datblygiadau seilwaith strategol. Fodd bynnag, ni chefnogwyd y farn hon yn gyffredinol a nododd un ymatebydd i'r arolwg o'r trydydd sector:

'Hoffwn i pe bai TAIS yn dal i fod ar gael gan mai dim ond i Awdurdodau Lleol a Pharciau Cenedlaethol y mae'r cynllun Pethau Pwysig, sy'n ei gwneud yn anodd i sefydliadau'r trydydd sector gael gafael ar y cyllid.'

10.3 Codwyd tri phrif fater gan awdurdodau lleol mewn perthynas â chynllun Y Pethau Pwysig. Ystyriwyd bod sicrhau arian cyfatebol o gyllidebau awdurdodau lleol yn her barhaus i awdurdodau lleol, er bod y ffaith bod cyllid allanol ar gael yn golygu bod prosiectau twristiaeth cyfalaf yn cael eu blaenoriaethu dros safleoedd nad ydynt yn rhai twristiaeth. Dywedodd cynrychiolydd un awdurdod lleol nad oedd gan ei swyddog twristiaeth, adeg ein gwaith maes, unrhyw gyllideb dwristiaeth i'w defnyddio. Mae awdurdodau lleol hefyd yn cael trafferth i dalu costau cynnal a chadw

parhaus prosiectau a fyddai'n gymwys ar gyfer Y Pethau Pwysig, ac mae hyn yn effeithio ar y cynigion a gyflwynwyd am gymorth. Yn olaf, er ei fod yn gefnogol i'r model cyllido dwy flynedd, roedd awydd i weld y cynllun yn cael ei weinyddu'n flynyddol ar sail dreigl fel na fyddai'n rhaid i brosiectau 'parod i fynd' aros hyd at ddwy flynedd i gael cymorth.

**Y sector preifat**

10.4 Er y gallai cyflwyno Cronfa Buddsoddi mewn Twristiaeth Cymru arwain at lai o angen am gymorth buddsoddi grant i'r sector preifat, credwyd bod absenoldeb cynllun i olynu'r MSBF yn fwlch allweddol yng nghynnig Croeso Cymru i’r sector, yn enwedig o ran cyllid grant cyfalaf ar raddfa fach. Roedd galw am well cydbwysedd rhwng cyllid benthyciad a grant ar gyfer y sector yn y dyfodol.

10.5 Roedd busnesau’r sector preifat yn canolbwyntio’n bennaf ar gydgrynhoi eu gweithrediadau adeg y gwaith maes, gan ganolbwyntio ar ad-dalu dyledion a gafwyd o’u buddsoddiadau ac o amodau masnachu anodd dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Roedd adborth gan gorff ymbarél y sector yn awgrymu bod ei aelodau yn gweld niferoedd llai o ymwelwyr ar hyn o bryd o gymharu â chyn COVID, a bod costau gweithredu cynyddol yn cael effaith negyddol ar lif arian. Mae busnesau yn gohirio unrhyw gynlluniau buddsoddi er mwyn sicrhau y gallant dalu costau gweithredu uwch yn ddigonol. Galwyd am gymorth penodol gan Lywodraeth Cymru i helpu i fynd i'r afael â'r materion brys hyn.

10.6 Derbyniwyd yn gyffredinol y dylai unrhyw gynllun i olynu’r MSBF gan y sector preifat yn y dyfodol ganolbwyntio ar gefnogi tair blaenoriaeth, sef:

- twristiaeth adfywiol, i sicrhau bod prosiectau twristiaeth yn cefnogi cymunedau lleol ac yn rhoi rhywbeth yn ôl iddynt. Yn unol â hyn, awgrymwyd y dylid rhoi mwy o ffocws i ofynion Contract Economaidd Llywodraeth Cymru
- cynaliadwyedd amgylcheddol a mynd i’r afael â’r newid yn yr hinsawdd, i annog a chefnogi busnesau i ddod yn garbon sero net cyn gynted â phosibl, gyda chyllid i gefnogi cynlluniau arbed ynni megis gosod systemau ynni dŵr a solar

- gwella hygyrchedd busnesau yn y sector preifat.

10.7 Galwyd hefyd ar unrhyw gronfa gyfalaf yn y dyfodol ar gyfer y sector preifat, yn enwedig lle y gofynnwyd am fuddsoddiadau cymharol fach, i fabwysiadu meini prawf cyllido ehangach na chyflogaeth a grëwyd neu a ddiogelwyd, a oedd yn cael ei ystyried yn flaenoriaeth ar gyfer yr MSBF. Awgrymwyd y dylid mabwysiadu meini prawf cyllido mwy cynaliadwy i ystyried effaith prosiect ar y gymuned, yr amgylchedd ac ar y Gymraeg yn hytrach na chanolbwyntio ar niferoedd y swyddi yn unig, a oedd yn cael ei ystyried yn fesur aneffeithiol braidd.

**Prosiectau refeniw**

10.8 Roedd y prif bwynt a godwyd mewn perthynas ag argaeledd cyllid grant refeniw i gefnogi unrhyw brosiectau tebyg i RTEF a TPIF yn y dyfodol yn ymwneud â phryderon ynghylch y ffaith bod cyfleoedd cyllido'r UE yn dod i ben. Dywedodd un awdurdod lleol a gyfwelwyd ei fod wedi sicrhau cyllid Ffyniant Bro ar gyfer prosiect yn ymwneud â thwristiaeth a chyfeiriodd sawl awdurdod lleol at brosiectau a ariannwyd gan y Gronfa Ffyniant Gyffredin a oedd ar y gweill. Heblaw am yr enghreifftiau hyn, pwysleisiodd awdurdodau lleol, yn arbennig, nad oedd ganddynt gyllid i'w fuddsoddi mewn gweithgareddau marchnata a hyrwyddo twristiaeth.

## 11. Casgliadau a materion i'w hystyried

11.1 Mae'r bennod hon yn nodi ein casgliadau a'r materion i'w hystyried. Yma, dychwelwn i ystyried amcanion y gwerthusiad.

**Amcan 1: Cyfatebiaeth y prosiectau ag amcanion polisi strategol y Rhaglen Datblygu Gwledig a Llywodraeth Cymru**

11.2 Bu cyd-destun polisi cefnogol hirsefydlog ar gyfer cynllun Twristiaeth Wledig Cymru Gyfan ac atgyfnerthwyd ymrwymiad Llywodraeth Cymru i'r sector twristiaeth ymhellach yng ngoleuni'r effaith sylweddol a gafodd COVID-19 ar y sector. Bu strategaeth dwristiaeth gyson a pharhaus ar waith i gryfhau'r brand, i dyfu'r sector, i wella ansawdd, ac i wella boddhad ymwelwyr. Roedd yn rhesymegol i Lywodraeth Cymru ddarparu buddsoddiad cyfalaf i helpu i ddatblygu cynhyrchion twristiaeth o safon a chyllid refeniw i helpu'r sector i hyrwyddo'i hun yn well, er mwyn cyflawni ei huchelgeisiau polisi ar gyfer y sector.

11.3 Mae cynllun Twristiaeth Wledig Cymru Gyfan wedi cefnogi'r gwaith o gyflawni polisïau Llywodraeth Cymru ar gyfer y sector twristiaeth. Mae'r cynlluniau buddsoddi cyfalaf wedi buddsoddi mewn prosiectau sydd wedi gwella'r cynnyrch twristiaeth, wedi denu mwy o ymwelwyr, wedi gwella boddhad ymwelwyr, ac wedi creu twf yn y sector. Defnyddiwyd y buddsoddiad refeniw i annog mwy o gydweithio, i hyrwyddo'r cynnig twristiaeth, i ddenu mwy o ymwelwyr, a thrwy hynny greu twf yn y sector. Mae cyfatebiaeth dda rhwng y prosiectau a ariannwyd a blaenoriaethau Croeso Cymru i dyfu'r sector a gwella ansawdd y ddarpariaeth. Cafwyd cyfatebiaeth gref hefyd â themâu marchnata blynyddol diweddaraf Croeso Cymru sef 'Blwyddyn Darganfod' a 'Blwyddyn Awyr Agored', ond efallai bod llai o brosiectau a ariannwyd wedi cefnogi'r themâu cynharach, sef 'Blwyddyn Chwedlau' a 'Blwyddyn y Môr'.

11.4 Mae data twristiaeth ar gyfer Cymru dros y deng mlynedd diwethaf (fel y nodir yn Atodiad E yr adroddiad hwn) o werth cyfyngedig i asesu effaith cynllun Twristiaeth Wledig Cymru Gyfan, yn anad dim oherwydd bod y data ar gael ar lefel Cymru gyfan yn unig, ac nid ar gyfer ardaloedd gwledig yn unig. Mae hefyd yn wir y bydd effaith y buddsoddiadau a wneir ar lefel

Cymru gyfan yn gyfyngedig yng ngoleuni effeithiau ehangach ffactorau allanol mawr megis y pandemig COVID-19 a'r argyfwng costau byw presennol.

11.5 Hyd at 2019, bu cynnydd cyson yn nifer yr ymwelwyr dros nos a gwariant gan ymwelwyr dros nos rhwng 2011 a 2019. Cynyddodd nifer a gwariant ymwelwyr tramor hefyd dros y cyfnod hwn ond cyrhaeddodd uchafbwynt yn ystod 2016-2017. Mewn gwrthgyferbyniad â hynny, fodd bynnag, mae'r data'n dangos gostyngiad mewn ymweliadau undydd gan dwristiaid rhwng 2011 a 2019 a gostyngiad yn y gwariant gan ymwelwyr dydd ers 2017 sydd efallai'n adlewyrchu'r ffaith bod polisi Llywodraeth Cymru wedi canolbwyntio ar gefnogi a datblygu'r farchnad ymwelwyr sy'n aros dros nos yn ystod y cyfnod hwn, gan fod gan y farchnad hon y potensial i wneud mwy o gyfraniad at dwf y sector o gymharu ag ymwelwyr dydd. Rhoddir ystyriaeth isod (o dan Amcan 5) i sut y mae cynlluniau a phrosiectau unigol cynllun Twristiaeth Wledig Cymru Gyfan wedi effeithio ar niferoedd yr ymwelwyr a gwariant gan ymwelwyr, er ei bod yn bwysig nodi bod y casgliadau hyn yn seiliedig ar gymysgedd o ddata monitro prosiectau yn ogystal â chanfyddiad prosiectau o newid.

11.6 Mae'r data hefyd yn awgrymu bod pob math o ymwelwyr yn fodlon ar y cyfan â Chymru fel lle i ymweld ag ef er ei bod yn nodedig bod cyfraddau boddhad wedi aros yn gymharol ddigyfnewid ers y 2010au. Mae lefelau boddhad ymwelwyr yn well ar gyfer atyniadau a llety nag ar gyfer bwyta allan. Mae pob math o ymwelwyr yn adrodd yn gyson am yr angen am well mynediad i bobl anabl, toiledau cyhoeddus glanach a mwy ohonynt, gwell cysylltedd digidol, gwell siopa, gwell arwyddion i dwristiaid yn ogystal â gwell ansawdd ac argaeledd trafnidiaeth gyhoeddus. Roedd yr adborth hwn yn cefnogi'r angen am gynlluniau buddsoddi cyfalaf fel MSBF a TAIS ledled Cymru, i wella boddhad ymwelwyr ymhellach yn enwedig o ran darpariaeth seilwaith sylfaenol. Mae'r dystiolaeth a gasglwyd drwy'r gwerthusiad hwn, er ei bod yn seiliedig ar ganfyddiadau a hanesion anecdotaidd mewn llawer o achosion, hefyd yn awgrymu bod y gwelliannau a wnaed gan y prosiectau a ariannwyd wedi helpu i fynd i'r afael â gofynion ymwelwyr o ran gwell

hygyrchedd, gwell arwyddion, a gwell cyfleusterau sylfaenol fel toiledau cyhoeddus.

**Amcan 2: Pa mor effeithiol y rheolwyd y cynllun, gan gynnwys y broses hawlio, systemau monitro, cyfathrebu, a'r cymorth a oedd ar gael ar ôl i gyllid gael ei ddyfarnu**

11.7 Mae’r adborth a gasglwyd yn ystod y gwerthusiad yn awgrymu bod y cynlluniau wedi’u rheoli’n briodol ac yn effeithiol gan Lywodraeth Cymru. Mae'r prosesau gwneud cais am grant wedi bod yn drylwyr ac wedi'u rheoli'n dda sy'n dangos bod y cyllid wedi'i ddyrannu mewn modd teg a thryloyw. Bu'n briodol mabwysiadu proses dau gam, sy'n cynnwys Datganiad o Ddiddordeb cychwynnol ac yna gais llawn. Mae adborth gan ddeiliaid grantiau hefyd yn awgrymu bod y canllawiau ymgeisio wedi bod yn addas at y diben. Mae'n ymddangos bod yr amser a gymerwyd i asesu ceisiadau yn gyffredinol wedi bod yn rhesymol ac yn dderbyniol i'r sector. Mae adborth gan fusnesau preifat yn awgrymu bod lle i symleiddio prosesau ymgeisio i'r rhai sy’n cael symiau llai o arian a gwneud y gofynion yn llai beichus i ddeiliaid grantiau.

11.8 Un o gryfderau allweddol y prosesau rheoli grantiau fu’r rôl a chwaraeir gan swyddogion Croeso Cymru sydd wedi cefnogi ymgeiswyr a deiliaid grantiau, ac mae hyn i’w ganmol. Mae'r gwerthusiad wedi dangos bod deiliaid grantiau'n gwerthfawrogi cael swyddog cyswllt penodol sy'n hawdd siarad ag ef ac yn wybodus, a dylai'r dull hwn barhau mewn unrhyw fecanwaith cyllido yn y dyfodol.

11.9 Ar ôl dyfarnu'r grantiau, mae'r prosesau gweinyddu wedi bod yn briodol ar y cyfan, ac mae'n amlwg bod y gwersi a ddysgwyd wedi'u rhoi ar waith yn ystod y cyfnod cyflawni. Roedd rheolwyr y cynllun wedi cymryd sylw o'r adborth gan ddeiliaid grantiau bod cyfnod cyflawni o flwyddyn yn rhy dynn, gan ymestyn hyn i gyfnod o ddwy flynedd.

11.10 Paratoi hawliadau ariannol fu’r elfen fwyaf beichus o weinyddu’r cynllun i ddeiliaid y grantiau, a busnesau’r sector preifat sydd wedi wynebu'r her fwyaf o ran cadw at ofynion caffael y cynlluniau. Mae achos cryf dros symleiddio unrhyw brosesau hawliadau ariannol yn y dyfodol sy'n

gysylltiedig â chyllid grant o'r fath, yn enwedig pan ddyfernir symiau llai o arian.

11.11 Mae'r gofynion a roddir ar brosiectau a ariannwyd i adrodd ar allbynnau a dangos tystiolaeth ohonynt wedi'u croesawu gan ddeiliaid y grantiau ac ystyriwyd eu bod yn rhesymol ac yn gymesur. Mae tystiolaeth a gasglwyd drwy ein gwaith maes ein hunain ar gyfer yr allbynnau a gyflawnwyd, yn arbennig gan fusnesau a gefnogir drwy'r MSBF, a'r ffaith na chynhaliwyd ymweliadau monitro dilynol, yn awgrymu nad yw allbynnau ar lefel cynllun wedi'u cofnodi'n ddigonol. Byddai cynlluniau cyllido yn y dyfodol yn elwa o sicrhau bod ymweliadau monitro dilynol â phrosiectau a gefnogir yn cael eu cynnal er mwyn cofnodi'r holl allbynnau.

**Amcan 3: Y ffordd y cafodd y cynlluniau eu cyflawni a'u gweithredu**

11.12 Derbyniodd cyfanswm o 140 o brosiectau £13 miliwn o gyllid grant ar draws y pedwar cynllun grant rhwng 2017/18 a 2020/21 a gwariwyd £5.7 miliwn arall ar bedair ymgyrch ‘Blwyddyn’ Croeso Cymru rhwng 2017 a 2020 fel rhan o gynllun Twristiaeth Wledig Cymru Gyfan. Defnyddiwyd cyllid ar lefel prosiect yn effeithiol i ddenu £15 miliwn o arian cyfatebol gan sicrhau y gwnaed y gorau o gyllid Llywodraeth Cymru a'r Rhaglen Datblygu Gwledig. Cefnogwyd ystod ddaearyddol eang o brosiectau, ac roedd yn rhesymegol bod gogledd Cymru yn cyfrif am gyfran uwch o brosiectau a chyllid o gymharu â rhanbarthau eraill oherwydd y nifer fawr o awdurdodau lleol a gafodd gyllid TAIS a phwysigrwydd twristiaeth ledled y rhanbarth hwn.

11.13 O ran perfformiad cyffredinol, mae’r allbynnau a gyflawnwyd yn erbyn y targedau a osodwyd ar gyfer pob cynllun cyllido yn awgrymu darlun cymysg iawn, gydag achosion o or-gyflawni a thangyflawni sylweddol fel ei gilydd. Cafodd sawl targed ei adolygu a'i ostwng ar fwy nag un achlysur yn ystod y cyfnod cyflawni gan awgrymu eu bod wedi'u gosod ar lefel rhy uchelgeisiol. Cafodd ffactorau allanol, megis y pandemig, hefyd effaith negyddol ar gyflawni'r targedau diwygiedig hyn, yn enwedig y rhai a oedd yn ymwneud â swyddi a grëwyd gan yr MSBF. Mewn achosion eraill, gosodwyd targedau'n rhy isel ac mae’r ffaith y rhagorwyd yn sylweddol ar y targedau hyn, megis rhanddeiliaid yr ymgysylltwyd â nhw (yn achos RTEF a TPIF) a

phobl sy’n defnyddio gwasanaethau (yn achos TAIS), yn dangos yr anawsterau a wynebir gan swyddogion Llywodraeth Cymru o ran gosod targedau realistig ar gyfer y cynlluniau. Ar y sail hon, mae'n anodd cynnig barn ar ba mor dda y perfformiodd y cynlluniau yn erbyn y targedau a ariannwyd, gan nad oedd y targedau a osodwyd yn ymddangos fel pe baent yn realistig.

11.14 Cyfrifwyd yr allbynnau a adroddwyd ar gyfer y targedau hynny sy'n gysylltiedig â'r gweithgareddau marchnata a ddefnyddir gan Croeso Cymru gan ddefnyddio dulliau safonol priodol y diwydiant ac maent yn rhoi cyfrif pragmataidd o effaith gweithgareddau'r ymgyrch farchnata 'Blynyddoedd'. Fodd bynnag, mae'r dull yn gyfyngedig gan nad yw'n rhoi cyfrif am effaith ffactorau eraill, megis amodau economaidd ehangach, ar yr allbynnau a gyflawnwyd. Awgryma'r data fod yr ymgyrch wedi helpu i gynnal ymwybyddiaeth o Gymru fel cyrchfan bosibl ymhlith trigolion y DU a thrwy hynny ddylanwadu ar wariant ymwelwyr, ac fe wnaeth hynny, yn ei dro, gefnogi’r economi ymwelwyr a chyflogaeth.

11.15 Mae’r gwerthusiad hefyd yn codi cwestiynau ynghylch priodoldeb y targedau a ddewiswyd, ac efallai y byddai’n werth ystyried mabwysiadu targedau sy’n cyd-fynd yn agosach â chanlyniadau uniongyrchol gweithgareddau a ariennir mewn unrhyw gronfa yn y dyfodol. Er enghraifft, efallai y byddai disgwyl i brosiectau refeniw fel y rhai a ariennir drwy RTEF a TPIF adrodd ar gyrhaeddiad gweithgareddau hyrwyddo, nifer y cyfranogwyr sy’n mynychu digwyddiadau neu archebion ymwelwyr a sicrhawyd ac efallai y gellid disgwyl i brosiectau cyfalaf fel y rhai a gefnogir drwy TAIS adrodd ar wella safonau ansawdd, mwy o gapasiti ymwelwyr a gwell profiadau i ymwelwyr.

11.16 Ymddengys nad yw rhai o’r allbynnau a gyflawnwyd wedi’u cofnodi’n ddigonol ar draws y cynlluniau, yn enwedig mewn perthynas â swyddi a grëwyd ac a ddiogelwyd, oherwydd diffyg ymweliadau monitro â phrosiectau gan swyddogion Llywodraeth Cymru ar ôl i'r cyllid gael ei ddyfarnu er mwyn casglu’r data hyn. Adeg ein gwaith maes, byddai wedi bod yn realistig disgwyl i fwy o brosiectau refeniw gael ymweliad dilynol bob chwe mis gan Lywodraeth Cymru. Byddem hefyd yn pwysleisio

pwysigrwydd cynnal yr ymweliad dilynol pum mlynedd â phrosiectau cyfalaf ac yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried sut y gellid darparu adnoddau ar gyfer y dasg hon.

**Amcan 4: I ba raddau yr oedd y prosiectau a gefnogwyd yn gallu cyflawni'r amcanion a nodwyd yn eu cynlluniau**

11.17 Canfuwyd bod prosiectau a ariannwyd wedi perfformio'n dda yn erbyn eu nodau a'u hamcanion gwreiddiol ac mai prif alluogwyr perfformiad cryf oedd gwaith cynllunio manwl ymlaen llaw, cydweithio effeithiol, timau cyflawni medrus a phrofiadol, a threfniadau caffael gofalus. Roedd hyblygrwydd ar ran y cyllidwr a derbynnydd y grant hefyd yn hanfodol i weithredu'r prosiectau'n llwyddiannus.

11.18 Bu COVID-19 yn gyfrifol am lawer o'r heriau'n ymwneud â chyflawni prosiectau a brofwyd gan ddeiliaid grantiau o 2020 ymlaen ac roedd yn cyfrif am lawer o'r tanberfformiad yn erbyn y targedau a ariannwyd. Ymysg yr heriau eraill yn ymwneud â chyflawni a brofwyd gan ddeiliaid grantiau roedd costau uwch, problemau staffio, a gweithio mewn partneriaeth.

11.19 O ran themâu trawsbynciol roedd tystiolaeth eang bod prosiectau a ariannwyd yn cyfrannu'n gadarnhaol at amcanion yn ymwneud ag arloesi, cyfle cyfartal, datblygu cynaliadwy, mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd a'r Gymraeg. Mae llai o dystiolaeth bod prosiectau a ariannwyd wedi cyfrannu at drechu tlodi ac allgáu cymdeithasol mewn ardaloedd gwledig.

**Amcan 5: Canlyniadau ac effaith y cynlluniau**

11.20 Mae'r cyllid wedi cael ei ddefnyddio'n briodol gan ddeiliaid grant MSBF i ymestyn a gwella ansawdd y cyfleusterau i ymwelwyr. Lle y cafwyd adborth, mae defnyddwyr a chleientiaid yn cadarnhau hyn. Mae argaeledd cyllid grant wedi bod yn allweddol i gefnogi busnesau i ddatblygu cyfleusterau o ansawdd uchel ac yn absenoldeb y cymorth, byddai llawer o ddatblygiadau wedi bod yn llai uchelgeisiol o ran eu maint a'u hansawdd. Mae tystiolaeth argyhoeddiadol na fyddai prosiectau cyfalaf ar raddfa fawr wedi symud ymlaen o gwbl yn absenoldeb cyllid grant. Mae'r meini prawf a fabwysiadwyd i ddyfarnu cyllid yr MSBF felly wedi bod yn effeithiol ac wedi

sicrhau bod datblygiadau a ariennir yn cyd-fynd yn dda ag amcanion polisi ac wedi cyfrannu’n gadarnhaol at hybu cyrchfannau lleol a rhanbarthol.

11.21 Mae busnesau MSBF a gefnogwyd wedi gweithredu mewn amgylchedd cythryblus iawn dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Er bod y newidiadau yn y galw gan ymwelwyr am brosiectau a ariannwyd gan yr MSBF yn gadarnhaol, ni ellir eu gwahanu oddi wrth effeithiau ehangach ffactorau allanol megis y pandemig a'r cynnydd presennol mewn costau byw. Lle mae'r galw wedi cynyddu, mae busnesau'n credu bod cyllid ar gyfer prosiectau wedi cyfrannu'n gadarnhaol at y newid. Soniodd busnesau'r MSBF am newidiadau mwy cymedrol yn y galw gan ymwelwyr yn ystod y tymhorau tawelach a thymhorau ysgwydd, gan awgrymu bod y buddsoddiad wedi cael llai o effaith ar gyflawni'r amcan polisi hwn.

11.22 Defnyddiwyd cyllid TAIS yn effeithiol i wneud gwelliannau sylfaenol i seilwaith ar draws ardaloedd twristiaeth poblogaidd a dywed y cyfranwyr eu bod yn disgwyl i'r rhain arwain at brofiadau gwell i ymwelwyr mewn cyrchfannau allweddol. Mae tystiolaeth gymhellol na fyddai gwelliannau o’r fath wedi digwydd yn absenoldeb y gronfa hon. Mae peth tystiolaeth sy’n awgrymu bod mwy o ddefnydd wedi’i wneud o’r cyfleusterau a’r cyrchfannau a gefnogir gan TAIS, ond mae ehangder y dystiolaeth yn gyfyngedig. Nid yw'r gwerthusiad hwn wedi gallu casglu tystiolaeth uniongyrchol i gefnogi'r newidiadau cadarnhaol canfyddedig ac anecdotaidd a welwyd gan brosiectau a ariannwyd ynghylch profiadau ymwelwyr ac mae angen i Lywodraeth Cymru ystyried hyn pan fydd yn darparu cyllid yn y dyfodol h.y. bod angen i brosiectau ystyried yn well pa ddulliau y gallent eu defnyddio i gofnodi niferoedd yr ymwelwyr a phrofiadau ymwelwyr.

11.23 Mae prosiectau RTEF wedi helpu i gryfhau cydweithio ar draws y sector twristiaeth, a chefnogi cynlluniau rheoli cyrchfannau lleol a rhanbarthol. Mae'r trefniadau cydweithredol a'r trefniadau partneriaeth hyn rhwng partneriaid RTEF yn parhau ar ôl i'r cyllid ddod i ben ond roedd llai o dystiolaeth bod hyn yn wir ar draws prosiectau TPIF. Daeth darlun mwy cymysg i’r amlwg o ran a oedd adnoddau hyrwyddo a marchnata yn cael eu

defnyddio ar ôl i'r cyllid ddod i ben gan brosiectau RTEF a TPIF, ac roedd llai o dystiolaeth bod prosiectau TPIF yn gwneud hynny

11.24 O ran y gwahaniaeth a wneir gan brosiectau RTEF a TPIF, daeth darlun cymysg i'r amlwg a neges allweddol o'r gwaith maes yw mai ychydig iawn o ddata a oedd ar gael i ddangos tystiolaeth o gynnydd anecdotaidd ac i gefnogi canfyddiadau prosiectau a ariannwyd o newid yn lefelau'r galw am wasanaethau a chynhyrchion. Ar gyfer unrhyw gynlluniau cyllido tebyg yn y dyfodol, byddai'n fuddiol i Lywodraeth Cymru roi mwy o arweiniad i ddeiliaid cyllid ar y dangosyddion monitro y gallai ddisgwyl eu defnyddio i adrodd ar newidiadau yn y galw am wasanaethau a chynhyrchion.

**Amcan 6: Asesu pa mor ymatebol yw'r cynlluniau amrywiol i anghenion canfyddedig y diwydiant twristiaeth**

11.25 Mae'r pedwar cynllun cyllido wedi cael eu croesawu'n frwd gan y sector twristiaeth ledled Cymru a chryfder allweddol fu'r dull cydlynol o fuddsoddi a'r ymgais fwriadol i lenwi bylchau cyllido. Mae'r cynlluniau wedi canolbwyntio ar wella ansawdd cyfleusterau twristiaeth mewn ardaloedd gwledig, a thrwy hynny gyfrannu at bolisïau ac uchelgeisiau Llywodraeth Cymru ar gyfer y sector. Aeth y prosiectau ati i ddenu mwy o ymwelwyr i gefn gwlad Cymru a rhoi cynhyrchion ar waith i wneud hynny, er i'r pandemig leihau'r effaith y gallai prosiectau a ariannwyd gan yr olaf ei sicrhau.

**Amcan 7: Asesu gwerth am arian**

11.26 Wrth fesur gwerth am arian y swyddi a grëwyd ac a ddiogelwyd ar draws yr MSBF, roedd y gost fesul allbwn a gyflawnwyd yn uwch na'r disgwyl (£13,468 o gymharu â £10,000 fesul swydd a grëwyd neu a ddiogelwyd ar draws MSBF). Mae'n bosibl iawn y byddai'r gost fesul allbwn wedi bod yn is pe na bai'r pandemig wedi effeithio'n negyddol ar berfformiad busnes.

11.27 Mae tystiolaeth gymhellol bod yr MSBF wedi cefnogi twf mewn trosiant busnesau. Awgryma tystiolaeth gan fusnesau a gymerodd ran yn yr arolwg fod buddsoddiad grant cyffredinol o £4.5 miliwn wedi arwain at dwf mewn trosiant o tua £12.7 miliwn y flwyddyn ar draws busnesau a gefnogwyd.

Awgryma adborth gan fusnesau fod cyllid grant wedi helpu i gryfhau eu cynaliadwyedd ariannol.

11.28 Mae'n bosibl y byddai'r gwerth am arian a gyflawnwyd gan y prosiectau mwyaf diweddar a ariannwyd hefyd wedi bod yn uwch pe na bai prosiectau wedi wynebu costau uwch yn dilyn y pandemig.

**Amcan 8: Cynnig argymhellion a disgrifio gwersi a ddysgwyd ar gyfer grantiau tebyg yng Nghymru**

11.29 Mae llawer o'r gwersi a ddysgwyd eisoes wedi'u mabwysiadu o fewn cynllun olynol, Y Pethau Pwysig, sydd wedi'i fodelu ar lwyddiant TAIS.

11.30 Awgryma adborth gan y sector mai bwlch allweddol mewn cymorth buddsoddi yw cyllid grant cyfalaf ar raddfa fach ar gyfer y sector preifat a'r trydydd sector. Os caiff hyn ei gyflwyno, yna mae achos cryf dros sicrhau ei fod yn cael ei ddefnyddio i gefnogi tair blaenoriaeth allweddol: datblygiadau twristiaeth adfywiol sy'n cefnogi cymunedau lleol; cynaliadwyedd amgylcheddol a chefnogi busnesau i ddod yn sero net; a gwella hygyrchedd o fewn darparwyr yn y sector preifat. Mae dadl gref hefyd dros sicrhau bod y gofynion gwneud cais a chaffael ar gyfer grantiau bach yn ysgafnach.

**Crynodeb o'r argymhellion**

1. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ymchwilio i'r angen am gyllid grant cyfalaf ar raddfa fach ar gyfer y sector preifat a'r trydydd sector fel cronfa i olynu'r MSBF
2. Dylid cadw'r meini prawf a fabwysiadwyd i ddyfarnu cyllid drwy'r MSBF ar y sail eu bod yn cyd-fynd yn dda ag amcanion polisi Llywodraeth Cymru
3. Pe bai cynllun i olynu'r MSBF yn cael ei gyflwyno, dylid ei ddefnyddio i gefnogi'r tair blaenoriaeth allweddol, sef twristiaeth adfywiol, cynaliadwyedd amgylcheddol a gwella hygyrchedd
4. Dylai Llywodraeth Cymru ymchwilio i'r angen am gyllid refeniw parhaus i gefnogi gweithgareddau marchnata twristiaeth cydweithredol fel cronfa i olynu RTEF a TPIF


5. Pe bai cronfa refeniw olynol yn cael ei chyflwyno, dylid adolygu’r meini prawf a fabwysiadwyd ar gyfer dyfarnu cyllid er mwyn sicrhau bod y gronfa'n cefnogi (i) gweithgareddau cydweithredol ystyrlon sy’n cyfrannu at gynlluniau rheoli cyrchfannau rhanbarthol a lleol a (ii) adnoddau y gellir eu cynnal a’u defnyddio ar ôl i'r cyllid dod i ben. Ni ddylai cronfa refeniw yn y dyfodol gael ei chyfyngu'n ddaearyddol i ardaloedd gwledig
6. Dylai cynlluniau cyllido yn y dyfodol barhau i fabwysiadu proses ymgeisio dau gam, gan ddefnyddio Datganiad o Ddiddordeb cychwynnol i wirio cymhwysedd a chais llawn ar gyfer y rhai yr ystyrir eu bod yn gymwys i symud ymlaen ymhellach
7. Dylid symleiddio’r prosesau ymgeisio a gweinyddu grantiau, gan gynnwys prosesau hawlio ariannol, ar gyfer y rhai sy’n dymuno cael symiau bach o gyllid
8. Dylai cynlluniau cyllido yn y dyfodol gadw rôl swyddog cyswllt penodedig i gefnogi ymgeiswyr am grantiau a deiliaid grantiau
9. Dylai cynlluniau cyllido yn y dyfodol gael eu dylunio mewn ffordd sy'n ddigon hyblyg i ymateb i anghenion deiliaid grantiau, yn enwedig o ran y cyfnod cyflawni sydd ar gael ar gyfer prosiectau
10. Dylai cynlluniau cyllido yn y dyfodol fabwysiadu targedau mwy realistig y gellir eu cyflawni'n uniongyrchol. Mae angen neilltuo mwy o amser ac ystyriaeth ymlaen llaw wrth ddatblygu targedau er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu'n well ganlyniadau uniongyrchol gweithgareddau a ariennir ac y gellir eu monitro ac adrodd arnynt
11. Dylid rhoi mwy o ystyriaeth i'r dull a fabwysiadwyd ar gyfer monitro ac adrodd ar unrhyw dargedau a osodwyd ar gyfer cynlluniau cyllido yn y dyfodol. Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu canllawiau manwl i ddeiliaid cronfeydd ar ddangosyddion monitro a dulliau casglu data y maent yn disgwyl iddynt eu mabwysiadu, er mwyn cofnodi'n well effaith prosiectau a ariennir o ran y newidiadau i niferoedd yr ymwelwyr a'u profiadau

12. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod ymweliadau monitro dilynol â phrosiectau a gefnogir yn cael eu cynnal er mwyn cofnodi'r holl allbynnau a gyflawnir o fewn unrhyw gynlluniau cyllido yn y dyfodol.

## Atodiad A: Model Damcaniaeth Newid ar gyfer cynllun Twristiaeth Wledig Cymru Gyfan

Mae Ffigur A.1 yn amlinellu model Damcaniaeth Newid ar gyfer cynllun Twristiaeth Wledig Cymru Gyfan. Mae’n gwneud defnydd helaeth o'r model drafft a baratowyd gan swyddogion Llywodraeth Cymru yn yr ystyr bod yr allbynnau a nodir yr un fath (ac yn seiliedig ar ddangosyddion cyllid WEFO y cytunwyd arnynt). Fodd bynnag, mae'r canlyniadau cychwynnol a hirdymor yn ehangach na'r rhai a nodir yn y model Damcaniaeth Newid drafft ac maent yn cwmpasu nodau ac amcanion holl elfennau cynllun Twristiaeth Wledig Cymru Gyfan. Bydd llawer o'r data i ddangos tystiolaeth o gyflawni canlyniadau hirdymor yn dod o ddata lefel macro megis data ymwelwyr a chanfyddiadau arolygon o ymwelwyr (fel y rhai a nodir ym Mhennod 4).

**Ffigur A.1 Damcaniaeth Newid Cynllun Twristiaeth Wledig Cymru Gyfan** (gweler y dudalen nesaf)


Rhesymeg
Uchelgais polisi i dyfu'r sector twristiaeth (Symud Cymru Ymlaen, Ffyniant i Bawb, Partneriaeth ar gyfer Twf)
Sbardunau deddfwriaethol sy'n canolbwyntio ar dwf cynaliadwy (Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Safonau'r Gymraeg a Cymraeg 2050)
Sbardunau cyllido (argaeledd y Rhaglen Datblygu Gwledig) i gynyddu i'r eithaf y gefnogaeth i ardaloedd gwledig
Angen mynd i'r afael ag adborth gan ymwelwyr er mwyn gwneud gwelliannau sylfaenol i seilwaith
Angen annog cyfatebiaeth â dull marchnata Croeso Cymru e.e. ymgyrchoedd 'Blynyddoedd'
Yr angen am gyllid grant cyfalaf a refeniw, a llenwi'r bwlch yn y farchnad, sy'n mabwysiadu dull buddsoddi mwy cydgysylltiedig, sy'n seiliedig ar le, sy'n cyd-fynd â Chynlluniau Rheoli Cyrchfannau
Mewnbynnau
£13m o gyllid refeniw a chyfalaf drwy'r Rhaglen Datblygu Gwledig a Llywodraeth Cymru
£15m o arian cyfatebol gan ymgeiswyr
Gwersi o gynlluniau cyllid grant blaenorol a mewnbwn gan y sector i'r gwaith cyd-ddylunio
Mewnbwn tîm Croeso Cymru i ddylunio, asesu, hawliadau a monitro
Mabwysiadu meini prawf cyllido clir a phroses ymgeisio dau gam
Paneli asesu annibynnol
Cyllid ar gyfer prosiectau dros gyfnod o 1-2 flynedd
Gweithgareddau
Cronfa Busnesau Micro a Bychan (MSBF) (Cronfa Gyfalaf)
Cymorth Buddsoddi mewn Amwynderau Twristiaeth (TAIS) (Cronfa Gyfalaf)
Cronfa Arloesi Cynnyrch Twristiaeth (TPIF) a Chronfa Ymgysylltu Twristiaeth Ranbarthol (RTEF) (Cronfeydd Refeniw)
Allbynnau
50 o weithrediadau wedi'u cefnogi
Lansio cynhyrchion, prosesau neu wasanaethau newydd neu well
Pobl yn defnyddio gwasanaethau
Y boblogaeth yn elwa o wasanaethau / seilwaith gwell
Mentrau sy'n datblygu'r amgylchedd naturiol a/neu hanesyddol
Swyddi a grewyd
Swyddi a ddiogelwyd
Nifer y bobl ifanc, menywod a siaradwyr Cymraeg cyflogedig a gefnogwyd
43 o weithrediadau wedi'u cefnogi
Nifer y cynhyrchion, prosesau neu wasanaethau newydd neu well
Pobl yn defnyddio gwasanaethau
Y boblogaeth yn elwa o well gwasanaethau/seilwaith
Nifer y mentrau sy'n datblygu'r amgylchedd naturiol a/neu hanesyddol
47 o weithrediadau wedi'u cefnogi
Nifer y rhanddeiliaid yr ymgysylltir â nhw
Nifer y prosiectau a ddatblygwyd i farchnata'r cynnyrch twristiaeth wledig
Nifer y swyddi a gefnogwyd (Marchnata)
Cyfran y newid mewn ymwybyddiaeth o farchnata
Canlyniadau Cychwynnol
Cyfleusterau o ansawdd gwell i ymwelwyr mewn gweithrediadau â gefnogir
Gwell profiad i ymwelwyr mewn gweithrediadau a gefnogir
Cynnydd yn y galw gan ymwelwyr / deiliadaeth ar draws y gweithrediadau â gefnogir
Gweithrediadau â gefnogir yn cynnig ystod ehangach o gyfleusterau i ymwelwyr sy'n cael eu defnyddio gydol y flwyddyn
Gweithrediadau mwy proffidiol a chynaliadwy
Gwella cyfleusterau amwynder i ymwelwyr mewn cyrchfannau a gefnogir
Gwell profiad i ymwelwyr mewn cyrchfannau a gefnogir
Gwell hygyrchedd i ymwelwyr yn y cyrchfannau a gefnogir
Cynnydd yn y galw/defnydd gan ymwelwyr ar draws y cyrchfannau â gefnogir
Mwy o gydweithio a gweithio mewn partneriaeth yn cael ei gynnal ar draws y sector twristiaeth
Gweithgareddau a ariannwyd yn cael eu hymgorffori mewn Cynlluniau Rheoli Cyrchfannau ac ym mlaenoriaethau Croeso Cymru
Cyrhaeddiad marchnata cynyddol ar draws y gweithrediadau a gefnogir
Cynhyrchion twristiaeth newydd, arloesol a gwell ar draws y gweithrediadau a
Mwy o ymgysylltu â chynnwys ar draws y gweithrediadau a
Cynnydd yn nifer yr ymwelwyr â'r gweithrediadau a
Canlyniadau Hirdymor
Cynnig twristiaeth o ansawdd uchel wedi'i ehangu ac sydd ar gael gydol y flwyddyn
Gwell ymwybyddiaeth o Gymru fel cyrchfan i ymwelwyr
Gwell boddhad ymhlith ymwelwyr
Cynnydd yn nifer yr ymwelwyr
Cynnydd yn y niferoedd sy'n ailymweld
Cynnydd yn y gwariant gan ymwelwyr
Mwy o bobl yn cael eu cyflogi mewn swyddi twristiaeth o ansawdd gwell, sy'n talu'n well ac yn llai tymhorol
Llai o dlodi a mwy o gynhwysiant cymdeithasol
...ar draws Cymru wledig

## Atodiad B: Fframwaith samplu prosiectau a ariannwyd

Dewiswyd trawstoriad o 30 o brosiectau a ariannwyd i gyfrannu at y gwaith maes ansoddol, gan ystyried y meini prawf a ganlyn[44]:

*Math o gynllun:*

| | MSBF | TAIS | RTEF | TPIF | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm y prosiectau yn y gronfa ddata | 50 | 43 | 25 | 22 | 140 |
| % y prosiectau yn y gronfa ddata | 36% | 31% | 18% | 16% | 100% |
| *Nifer arfaethedig y prosiectau yn y sampl* | *11* | *9* | *6* | *4* | *30* |
| *% y prosiectau yn y sampl* | *37%* | *30%* | *20%* | *13%* | *100%* |

*Rhanbarth:*

| | Y gogledd | Y canolbarth | Y de-orllewin | Y de-ddwyrain | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm y prosiectau yn y gronfa ddata | 49 | 31 | 31 | 29 | 140 |
| % y prosiectau yn y gronfa ddata | 35% | 22% | 22% | 21% | 100% |
| *Nifer arfaethedig y prosiectau yn y sampl[45]* | *11* | *6* | *7* | *6* | *30* |
| *% y prosiectau yn y sampl* | *37%* | *20%* | *23%* | *20%* | *100%* |

*Cyfnod cyllido: Dewiswyd 10 o Gylch 1, naw o Gylch 2 ac o leiaf ddau brosiect o bob blwyddyn ar gyfer yr MSBF:*

44 Oherwydd talgrynnu, nid yw'r cyfansymiau canrannol yn cyfateb i 100%

45 Yn wreiddiol, roeddem wedi bwriadu dewis nifer cyfartal o brosiectau fesul rhanbarth ond yn wyneb y nifer uwch o brosiectau yng ngogledd Cymru, roedd y sampl arfaethedig yn gynrychioliadol o'r holl brosiectau a ariannwyd.

| | Cylch 1 | Cylch 2 | MSBF 1 | MSBF 2 | MSBF 3 | MSBF 4 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm y prosiectau yn y gronfa ddata | 44 | 46 | 13 | 16 | 11 | 10 | 140 |
| % y prosiectau yn y gronfa ddata | 31% | 33% | 9% | 11% | 8% | 7% | 100% |
| *Sampl arfaethedig* | *10* | *9* | *2* | *4* | *2* | *3* | *30* |
| *% y prosiectau yn y sampl* | *33%* | *30%* | *7%* | *13%* | *7%* | *10%* | *100%* |

*Gwerth cynnig grant: cynhwyswyd trawstoriad o brosiectau bach, canolig a mawr yn y sampl:*

| | Bach £50k) | Canolig (£50k-£100k) | Mawr (>£100k) | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm y prosiectau yn y gronfa ddata | 37 | 48 | 55 | 140 |
| % y prosiectau yn y gronfa ddata | 26% | 34% | 37% | 100% |
| *Sampl arfaethedig* | *7* | *12* | *11* | *30* |
| *% y prosiectau yn y sampl* | *23%* | *40%* | *37%* | *100%* |

*Partner arweiniol: cynhwyswyd trawstoriad o sefydliadau yn y sector preifat, y sector cyhoeddus a'r trydydd sector yn y sampl:*

| | Preifat | Cyhoeddus | Trydydd Sector | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm y prosiectau yn y gronfa ddata[46] | 56 | 48 | 36 | 140 |
| % y prosiectau yn y gronfa ddata | 40% | 34% | 26% | 100% |

[46] Wedi'u codio gan Ymchwil OB3


| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| *Sampl arfaethedig* | *11* | *10* | *9* | *30* |
| *% y prosiectau yn y sampl* | *37%* | *33%* | *30%* | *100%* |

12.1 Yn ogystal â hynny, o ystyried y crynhoad daearyddol o brosiectau a ariannwyd, dewiswyd sampl o brosiectau i gyfrannu at y gwaith maes ansoddol drwy ddull clwstwr. Nododd dadansoddiad o bob un o'r 140 o brosiectau a ariannwyd yn ôl ardaloedd cod post mai'r pum prif ardal glwstwr oedd:

- Powys LD3 (7 prosiect)
- Gwynedd LL53 (6 phrosiect)
- Gwynedd LL55 (6 phrosiect)
- Ceredigion SA23 (5 prosiect)
- Sir Benfro SA70 (4 prosiect)

Dangosir hyn ar sail weledol yn y map yn Ffigur B.1.

**Ffigur B.1: Lledaeniad daearyddol y prosiectau a ariannwyd gan gynllun Twristiaeth Wledig Cymru Gyfan**




**Allwedd**: Mae maint y dot yn cynrychioli gwerth y cynnig grant yn ôl math o gynllun cyllido. Pob lleoliad prosiect wedi'i bennu yn ôl cod post, lle mae ar gael.

| | |
|---|---|
| MSBF | TAIS |
| RTEF | TPIF |

Bu i ddadansoddiad ar lefel awdurdod lleol gadarnhau'r ardaloedd cod post hyn, er iddynt hefyd nodi Ynys Môn fel ardal awdurdod lleol a gafodd gyllid ar gyfer naw prosiect. Roedd ein sampl arfaethedig felly yn canolbwyntio ar

yr ardaloedd awdurdod lleol a'r ardaloedd codau post hyn, lle y bo hynny'n ymarferol.

| | Cyfanswm yn y gronfa ddata | *Sampl arfaethedig* |
|---|---|---|
| Abertawe | 4 | |
| Blaenau Gwent | 1 | |
| Bro Morgannwg | 6 | *1* |
| Caerdydd | 5 | *1* |
| Caerffili | 2 | *1* |
| Castell-nedd Port Talbot | 4 | *1* |
| Ceredigion | 10 | *2* |
| Conwy | 5 | |
| Gwynedd | 25 | *8* |
| Merthyr Tudful | 1 | *1* |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 1 | |
| Powys | 16 | *4* |
| Rhondda Cynon Taf | 3 | *2* |
| Sir Benfro | 14 | *3* |
| Sir Fynwy | 5 | |
| Sir Gaerfyrddin | 7 | *2* |
| Sir y Fflint | 1 | |
| Torfaen | 1 | |
| Wrecsam | 4 | |
| Ynys Môn | 9 | *2* |
| Cymru Gyfan | 10 | *1* |
| Arall (gan gynnwys rhanbarthol) | 6 | *1* |
| Cyfanswm | 140 | *30* |

## Atodiad C: Offerynnau ymchwil

## Cyfweliadau cwmpasu gyda swyddogion Llywodraeth Cymru

### Cefndir

1. Ym mha ffordd yr ydych chi wedi bod yn ymwneud â'r cynllun Twristiaeth Wledig? Beth yw eich rôl?

### Beth oedd y cynllun Twristiaeth Wledig yn bwriadu ei gyflawni

2. Pa faterion yr oedd y cynllun Twristiaeth Wledig yn ceisio mynd i'r afael â nhw? Pam yr oedd angen y cynllun? (*Fel y bo'n briodol*), holwch ynglŷn â chronfeydd unigol:
    a. Y Gronfa Busnesau Bach a Micro (MSBF)
    b. Y Cynllun Buddsoddi mewn Amwynder Twristiaeth (TAIS)
    c. Y Gronfa Ymgysylltu Twristiaeth Ranbarthol (RTEF)
    d. Y Gronfa Arloesi Cynnyrch Twristiaeth (TPIF) ac
    e. ymgyrchoedd marchnata Cymru gyfan 'Blynyddoedd…'

3. Beth ydych chi'n ei ddeall yw nodau ac amcanion y cynllun Twristiaeth Wledig?
    a. Sut, os o gwbl, y mae ei amcanion wedi newid dros amser? Beth yw'r rheswm dros hyn?
    b. I ba raddau y mae blaenoriaethau'r cynllun Twristiaeth Wledig wedi bod yn briodol?

4. Sut olwg ddylai fod ar 'lwyddiant' y cynllun Twristiaeth Wledig? Pa wahaniaeth oeddech chi'n disgwyl iddo ei wneud?
    a. Pa ganlyniadau fyddech chi'n disgwyl eu gweld yn cael eu cyflawni?

5. Beth yw'r prif ragdybiaethau sy'n sail i'r cynllun grant? Hynny yw, sut y disgwylir i'r cynllun Twristiaeth Wledig arwain at newid?

6. Pa ffactorau allanol sydd wedi effeithio ar gyflawni canlyniadau llwyddiannus ar gyfer y cynllun Twristiaeth Wledig?

### Cydweddiad Strategol

7. Ym mha ffordd yr oeddech yn disgwyl i'r cynllun Twristiaeth Wledig gyfrannu at flaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru? At ba flaenoriaethau yr oeddech yn disgwyl iddo wneud y cyfraniad mwyaf?

a. Sut mae'n cyd-fynd ag egwyddorion gweithredu ar y cyd y Strategaeth Partneriaeth ar gyfer Twf?[47]
b. Sut mae’r cynllun yn cyfrannu at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol?[48]

8. Ym mha ffordd yr oedd disgwyl i brosiectau'r cynllun Twristiaeth Wledig a ariannwyd gyfrannu at:
    a. 3 Thema Drawsbynciol Llywodraeth Cymru[49]
    b. Themâu Trawsbynciol y Comisiwn Ewropeaidd[50]
    c. Ymrwymiadau Llywodraeth Cymru yn ymwneud â'r Gymraeg

**Y broses ymgeisio**

9. Beth oedd y broses ymgeisio ar gyfer yr amrywiol gronfeydd sy'n gweithredu o fewn y cynllun? Pa gamau a gymerwyd i:
    a. oruchwylio'r broses Datgan Diddordeb a'r broses ymgeisio lawn
    b. asesu ceisiadau
    c. dyfarnu'r grant

10. Pa rôl a chwaraeodd arweinwyr polisi yn y prosesau penderfynu? Pa mor effeithiol oedd hyn?

11. Beth weithiodd yn dda / ddim cystal o ran y broses ymgeisio?

    a. I ba raddau yr oedd y broses ymgeisio yn deg h.y. a oedd unrhyw grwpiau/ymgeiswyr yn fwy neu'n llai tebygol o fod yn llwyddiannus gyda'u ceisiadau, ac os felly, pam?

**Trefniadau gweinyddu'r grantiau**

12. Pa drefniadau llywodraethu a rheoli sydd ar waith ar gyfer y cynllun Twristiaeth Wledig?

---

[47] Datblygu neu wella cynhyrchion twristiaeth a nodir fel blaenoriaethau yn y strategaeth; Cyd-fynd â 'Blynyddoedd' Thematig Croeso Cymru a brand Cymru; Llai, mwy a gwell; Bodloni anghenion un neu fwy o segmentau marchnata targed Croeso Cymru a dangos effaith yn y farchnad dros gyfnod hwy o amser.
[48] Bydd swyddi sy'n cael eu creu a'u diogelu yn darparu cyflogaeth yn lleol ac yn gwella mantais gystadleuol Cymru yn y sector twristiaeth; bydd y cynllun yn annog prosiectau i fynd i'r afael ag effeithlonrwydd adnoddau a newid yn yr hinsawdd; bydd buddsoddiadau'n cyfrannu at adfywio cymunedau difreintiedig drwy gyfleoedd cyflogaeth a threchu tlodi; bydd y buddsoddiadau yn cyfrannu at gynaliadwyedd cymunedau Cymraeg eu hiaith drwy wella cyfleoedd economaidd yn yr ardaloedd hyn; bydd cyfleoedd cyflogaeth ar gael i bobl o bob cefndir ac amgylchiadau.
[49] Cyfle cyfartal, prif ffrydio rhywedd a'r Gymraeg; Datblygu cynaliadwy; Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol
[50] Arloesedd, Cynaliadwyedd Amgylcheddol, Newid Hinsawdd

13. Beth yw'r prosesau gweinyddol sydd ar waith ar gyfer gweithredu'r cynllun Twristiaeth Wledig? Pa gamau a gymerwyd i:
    a. fonitro'r defnydd o'r grant?
    b. adrodd ar gyflawniadau'r grant?

14. Pa wybodaeth fonitro ar lefel prosiect a lefel rhaglen sydd ar gael i ni e.e. copïau o Ddatganiadau o Ddiddordeb llwyddiannus a chynlluniau busnes llawn?

**Cyflawni'r rhaglen**

15. Beth yw eich barn am natur y prosiectau a ariannwyd drwy'r cynllun Twristiaeth Wledig?

16. I ba raddau y bydd prosiectau a ariannwyd yn caniatáu i'r rhaglen gyflawni ei nodau a'i hamcanion?

17. Pa rwystrau a heriau allanol oedd a allai effeithio ar allu prosiectau i gyflawni eu targedau a'u hamcanion?

18. Beth oedd y ffactorau a oedd yn galluogi prosiectau i gyflawni eu targedau a'u hamcanion?

**Gwerth am Arian**

19. Pa dystiolaeth allai fod ar gael i ni i gynnal adolygiad gwerth am arian o'r cynlluniau?
    a. Pa rai o'r cynlluniau a allai fod yn addas ar gyfer adolygiad Gwerth am Arian[51]? Pam?
    b. Pa ddata sydd ar gael i ni am fewnbynnau cynllun(iau) ac am allbynnau a chanlyniadau'r cynllun?
    c. Pa ddata allai fod ar gael i ni/a allem eu casglu i brofi beth fyddai wedi digwydd yn absenoldeb y cynllun e.e. sefyllfa ymgeiswyr aflwyddiannus?

**Gwersi a ddysgwyd**

20. Beth yw'r gwersi allweddol y byddech yn tynnu sylw atynt yn sgil eich ymwneud â'r cynllun Twristiaeth Wledig?

[51] Trafodwch dystiolaeth a chanlyniadau ar gyfer MSBF a TAIS gyda Lawrence Manley; a thystiolaeth a chanlyniadau a chanlyniadau TPIF ac RTEF gydag Andrew Forfar a Jane Donald

# Canllaw holi ar gyfer prosiectau a ariannwyd

## Cefndir

1. Dywedwch wrthyf am:
    a. Eich rôl
    b. Eich busnes/sefydliad
    c. Eich ymwneud â Chynllun(iau) Twristiaeth Wledig Cymru Gyfan: y Gronfa Busnesau Bach a Micro (MSBF); Cymorth Buddsoddi mewn Amwynderau Twristiaeth (TAIS); y Gronfa Arloesi Cynnyrch Twristiaeth (TPIF) neu’r Gronfa Ymgysylltu Twristiaeth Ranbarthol (RTEF)

## Deall a chymryd rhan

2. Beth ydych chi'n ei ddeall yw nodau ac amcanion y cynllun sydd wedi ariannu eich prosiect?

3. Sut clywsoch chi am y cynllun?

4. Pam wnaethoch chi gais am gyllid?
    a. Beth oeddech chi'n gobeithio ei gyflawni?
    b. Pa faterion oeddech chi'n disgwyl mynd i'r afael â nhw?
    c. Pa ffynonellau cyllid eraill, os o gwbl, yr oeddech wedi ymchwilio iddynt?

## Trefniadau gweinyddu'r cynllun

5. Beth yw eich barn am broses ymgeisio'r cynllun? Holwch am:
    a. Eglurder y canllawiau e.e., yr hyn y gellid ac na ellid ei ariannu
    b. Lefel yr arian cyfatebol oedd ei angen[52]
    c. Pa mor briodol yw'r camau Datganiadau o Ddiddordeb ac ymgeisio?
    d. Pa mor hawdd oedd cwblhau'r ffurflen Datganiad o Ddiddordeb/Holiadur Rhagarweiniol a'r ffurflen gais
    e. Prydlondeb y penderfyniadau
    f. Pa mor ddefnyddiol oedd unrhyw gymorth a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru
    g. Beth yw cryfderau'r broses hon?
    h. Sut y gellid gwella'r broses?

6. Beth yw eich barn am sut y mae Llywodraeth Cymru yn rheoli ac yn monitro'r cynllun? Holwch am:
    a. Y cyfathrebu â swyddogion Llywodraeth Cymru

[52] Roedd MSBF yn gofyn am 60% o arian cyfatebol; roedd TAIS yn gofyn am 20% o arian cyfatebol, a TPIF/RTEF yn gofyn am 10% o arian cyfatebol

b. Y gofynion adrodd, gan gynnwys yr angen i ddarparu data sylfaenol
c. [*ar gyfer y ddwy gronfa gyfalaf MSBF a TAIS*] Tystiolaeth o allbynnau a gyflawnwyd, gan gynnwys am bum mlynedd ar ôl cwblhau'r prosiect
d. [*ar gyfer y ddwy gronfa refeniw TPIF a RTEF*] Tystiolaeth o allbynnau a gyflawnwyd, gan gynnwys chwe mis ar ôl cwblhau'r prosiect
e. Beth yw'r cryfderau?
f. Sut y gellid gwella'r prosesau monitro a rheoli?

7. Beth yw eich barn am brosesau gwariant a hawliadau'r cynllun? Holwch am:
    a. Y gofynion caffael
    b. Paratoi a chyflwyno hawliadau, gan gynnwys rhoi tystiolaeth o wariant
    c. Derbyn taliad
    d. Amserlenni ar gyfer gwario'r grant
    e. Beth yw'r cryfderau?
    f. Sut y gellid gwella'r prosesau?

## Cyflawni'r prosiect a ariannwyd

8. Dywedwch wrthyf am y gweithgareddau a gyflawnwyd gan y prosiect/yr ymgymerodd y prosiect â nhw.
    a. A ddefnyddiwyd y cyllid yn unol â'r bwriad?
    b. [*Fel y bo'n berthnasol*] Pa sefydliadau partner a gymerodd ran?

9. Pa ffactorau a oedd yn gyfrifol am lwyddiant y prosiect?

10. Pa heriau neu ffactorau allanol y daeth y prosiectau ar eu traws, os o gwbl? Holwch am:
    a. effaith Covid-19
    b. effaith Brexit
    c. amodau economaidd, megis recriwtio a chadw staff

11. Sut y mae'r prosiect a ariannwyd wedi cyfrannu at:
    a. gynllun strategol cyffredinol eich sefydliad?
    b. Cynlluniau Rheoli Cyrchfannau lleol/rhanbarthol?
    c. Blaenoriaethau Croeso Cymru megis tyfu'r sector twristiaeth mewn ffordd gynaliadwy a gwella ansawdd yng Nghymru?
    d. Dulliau marchnata thematig 'Blynyddoedd' Croeso Cymru[53]?
    e. uchelgeisiau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol?

12. Pa mor dda y perfformiodd y prosiect yn erbyn y targedau a ariannwyd ganddo?

[53] Antur yn 2016, Chwedlau yn 2017, y Môr yn 2018, Darganfod 2019 a'r Awyr Agored yn 2020

a. [*MSBF*] Sawl swydd a grëwyd o ganlyniad i'r prosiect? Faint o'r rhain oedd yn swyddi amser llawn a rhan-amser? [Nodwch faint o swyddi FTE a grëwyd]
b. [*MSBF*] Sawl swydd a oedd mewn perygl a gafodd ei diogelu[54] o ganlyniad i'r prosiect? Faint o'r rhain oedd yn swyddi amser llawn a rhan-amser?
c. Beth sydd i'w gyfrif am unrhyw berfformiad cryf neu wan?

## Y gwahaniaeth a wnaed

*[cyfeiriwch at yr adran briodol isod ar gyfer y cynlluniau sy'n cael eu trafod]*

**MSBF**

13. Pa wahaniaeth mae'r prosiect wedi'i wneud i:
    a. eich gallu i gynnig ystod ehangach o gyfleusterau?
    b. ansawdd y cyfleusterau i ymwelwyr yn eich busnes?
    c. gwella profiadau ymwelwyr yn eich busnes?

14. Ers cwblhau'r prosiect, sut mae:
    a. lefel y galw neu gyfraddau meddiannaeth eich busnes wedi newid? *Holwch am ddata/tystiolaeth megis newidiadau blynyddol yn y galw/cyfradd meddiannaeth*
    b. lefel y galw neu gyfraddau meddiannaeth gydol y flwyddyn wedi newid h.y., sut mae'r galw yn ystod y tymhorau tawel a thymhorau ysgwydd wedi newid?

15. Pa newidiadau eraill, os o gwbl, ydych chi wedi'u gweld ar draws y busnes ers i'r prosiect a ariannwyd gael ei gwblhau? Holwch am:
    a. hyd arhosiad ymwelwyr
    b. proffil neu nodweddion ymwelwyr

16. Beth sydd i'w gyfrif am unrhyw un o'r newidiadau hyn megis y newid yn y galw, cyfraddau meddiannaeth neu broffil ymwelwyr?
    a. I ba raddau y cyfrannodd y prosiect a ariannwyd at unrhyw un o'r newidiadau hyn megis newid yn y galw, cyfraddau meddiannaeth neu broffil ymwelwyr?

---

[54] Diffinnir swyddi a ddiogelir fel swydd y gwyddys ei bod mewn perygl yn ystod y 12 mis nesaf. Dylid sgorio swyddi fel FTE a pharhaol (gellir sgorio swydd dymhorol ar yr amod y disgwylir i'r swydd godi eto am gyfnod amhenodol; dylid cofnodi cyfran y flwyddyn a weithiwyd hefyd). Dylid cyfrif y swydd ei hun yn hytrach na nifer y bobl a all feddiannu'r swydd. Diffinnir swydd amser llawn fel 30 awr neu fwy yr wythnos. Dylai unrhyw swydd nad yw'n swydd amser llawn gael ei chyfrifo ar sail FTE. Bydd angen rhannu oriau a weithir yr wythnos gyda 30 i roi FTE (e.e. byddai 18 awr yr wythnos yn 0.6 FTE).

17. Ers cwblhau’r prosiect a ariannwyd, a fu unrhyw newid yng ngraddau lletygarwch eich sefydliad?
    a. Beth yw eich gradd twristiaeth bresennol a phwy yw'r darparwr?
    b. Beth oedd eich gradd twristiaeth flaenorol a phwy oedd y darparwr?
    c. I ba raddau y cyfrannodd y prosiect a ariannwyd at unrhyw newidiadau yn y galw neu'r defnydd?

18. Ers cwblhau'r prosiect a ariannwyd, sut mae perfformiad eich busnes wedi newid?
    a. Sut mae nifer y gweithwyr (FTE) wedi newid dros y pum mlynedd diwethaf?
    b. Sut mae ansawdd swyddi o ran cyflog a natur dymhorol wedi newid dros y pum mlynedd diwethaf?
    c. Sut mae sicrwydd swyddi wedi newid dros y pum mlynedd diwethaf?
    d. Sut mae trosiant wedi newid dros y pum mlynedd diwethaf?
    e. Sut mae proffidioldeb wedi newid dros y pum mlynedd diwethaf?
    f. Sut mae cynaliadwyedd ariannol y busnes wedi newid dros y pum mlynedd diwethaf?

19. Beth sydd i'w gyfrif am unrhyw newid ym mherfformiad y busnes dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf?
    a. I ba raddau y mae'r prosiect a ariannwyd wedi cyfrannu at y newidiadau hyn ym mherfformiad y busnes?

**TAIS**

20. Pa wahaniaeth mae’r prosiect wedi’i wneud i:
    a. wella cyfleusterau amwynder i ymwelwyr yn y gyrchfan a gefnogwyd?
    b. gwella profiadau ymwelwyr yn y gyrchfan a gefnogwyd?
    c. gwella hygyrchedd i ymwelwyr yn y gyrchfan a gefnogwyd?

21. Pa dystiolaeth sydd gennych ar gyfer unrhyw un o’r gwelliannau hyn?
    a. A ydych wedi casglu adborth gan ymwelwyr ers i’r prosiect gael ei gwblhau, ac os felly, a allem weld y data hyn? *Holwch am unrhyw ddata monitro neu adroddiadau boddhad ymwelwyr*

22. Ers cwblhau’r prosiect, sut mae:
    a. lefel y galw neu'r defnydd o'r cyfleuster/gwasanaeth wedi newid ymhlith ymwelwyr? Pa dystiolaeth sydd gennych o unrhyw gynnydd yn y galw neu'r defnydd o'r cyfleuster/gwasanaeth?

23. Beth sydd i'w gyfrif am unrhyw newid yn y galw neu'r defnydd o'r cyfleuster/gwasanaeth?
    a. I ba raddau y cyfrannodd y prosiect at unrhyw newidiadau yn y galw neu'r defnydd?

**TPIF/RTEF**

24. A yw'r prosiect wedi helpu i gryfhau ac ymestyn trefniadau cydweithio a gweithio mewn partneriaeth ar draws y sector twristiaeth (er enghraifft rhwng consortia twristiaeth, partneriaethau twristiaeth a grwpiau masnach)?
    a. Os felly, ym mha ffordd?
    b. A oes unrhyw gynlluniau ar waith i barhau â'r gwaith cydweithredol a phartneriaeth hyn ar ôl i'r cyllid ddod i ben? Os felly, beth yw'r cynlluniau hyn?

25. A yw'r gweithgareddau hyrwyddo a marchnata a gyflwynwyd drwy'r prosiect yn cael eu cynnal?
    a. Os felly, ym mha ffordd y mae'r gweithgareddau'n dal i fynd rhagddynt?
    b. Sut mae'r gweithgareddau hyn yn cael eu cyllido nawr?
    c. A yw'r gweithgareddau wedi'u hymgorffori mewn Cynlluniau Rheoli Cyrchfannau?
    d. A oes unrhyw adnoddau a gynhyrchwyd wedi'u defnyddio'n ehangach gan eraill, megis gan Croeso Cymru?

26. Pa wahaniaeth mae'r prosiect wedi'i wneud i:
    a. eich gall i gynnig cynhyrchion twristiaeth newydd ac arloesol i'r farchnad?
    b. eich gallu i ehangu a chynyddu cynnwys hyrwyddo i ymgysylltu â darpar ymwelwyr?
    c. eich gallu i farchnata eich gwasanaethau neu gynhyrchion i farchnad ehangach, fwy?

27. Pa dystiolaeth sydd gennych ar gyfer unrhyw un o'r newidiadau hyn? *Holwch am ddata fel newidiadau mewn cyrhaeddiad marchnata dros amser neu gyfraddau ymateb i ymgyrchoedd hyrwyddo*

28. Ers cwblhau'r prosiect, sut mae:
    a. lefel y galw neu'r defnydd o'ch gwasanaethau/cynhyrchion wedi newid ymhlith ymwelwyr? Pa dystiolaeth sydd gennych o unrhyw gynnydd yn y galw neu'r defnydd?

29. Beth sydd i'w gyfrif am unrhyw newid yn y galw neu'r defnydd o'r cyfleuster/gwasanaeth?

    a. I ba raddau y cyfrannodd y prosiect at unrhyw newidiadau yn y galw neu'r defnydd?

## Gwerth am Arian

30. Yn absenoldeb y cyllid, beth fyddai wedi digwydd?
    a. A fyddai'r prosiect wedi'i gyflawni yn ei gyfanrwydd neu ar raddfa lai?
    b. A fyddai'r prosiect (neu elfennau ohono) wedi'u cyflawni dros yr un cyfnod neu gyfnod hwy?
    c. Sut fyddech chi wedi cyllido'r prosiect (neu elfennau ohono) yn absenoldeb cyllid grant?

31. A ddefnyddiwyd y cyllid yn y ffordd a fwriadwyd, fel yr amlinellwyd yn y cais gwreiddiol?
    a. Os na, pam?
    b. A wnaed unrhyw arbedion cost wrth gyflawni'r prosiect? Os felly, beth oedd y rhain?
    c. A ellid bod wedi arbed unrhyw gostau wrth gyflawni'r prosiect? Os felly, beth oedd y rhain?
    d. A oedd yr holl adnoddau a ddefnyddiwyd yn hanfodol i gwblhau'r prosiect?
    e. A ellid bod wedi cyflawni'r un canlyniadau mewn ffyrdd eraill, rhatach?

## Themâu trawsbynciol

*[Gyda'r cwestiynau canlynol, dylai ymchwilwyr geisio nodi 1-2 enghraifft o arfer da, amlygu unrhyw rwystrau i gyflawni'r prosiectau a pha gymorth a allai fod wedi bod ar gael i helpu i oresgyn y rhwystrau hyn]*

32. Sut mae eich prosiect wedi cyfrannu at themâu trawsbynciol Llywodraeth Cymru ac amcanion trawsbynciol y Rhaglen Datblygu Gwledig:
    a. Sut mae eich prosiect wedi sicrhau Cyfle Cyfartal *(Holwch: er enghraifft, pobl ifanc (16-24), rhywedd neu nifer y gweithwyr o leiafrifoedd ethnig)?*
    b. Sut mae eich prosiect wedi sicrhau Datblygiad Cynaliadwy[55]?
    c. Sut mae eich prosiect wedi helpu i drechu tlodi ac allgáu cymdeithasol?
    d. *[Os nad yw wedi'i gynnwys eisoes yn C11 uchod]* Pa arloesedd a ddangosodd neu a gyflawnodd eich prosiect?
    e. Pa addasiadau a wnaeth eich prosiect (os o gwbl) i leihau effaith eich prosiect ar yr hinsawdd? (*Holwch am ystyriaethau a fabwysiadwyd yn ystod y gwaith adeiladu neu newidiadau i ymddygiad e.e. lleihau*

[55] Mae datblygiad cynaliadwy yn egwyddor ganolog ar gyfer cyflawni nodau datblygu dynol yn ogystal â chynnal gallu systemau naturiol i ddarparu'r adnoddau naturiol a'r gwasanaethau ecosystem y mae'r economi a chymdeithas yn dibynnu arnynt

*gwastraff neu ddefnydd dŵr*; *defnyddio ynni adnewyddadwy, defnyddio cynhyrchion wedi'u hailgylchu ac ati*)

f. Pa enghreifftiau sydd gennych o'r rhain?

33. Ym mha ffordd mae eich prosiect wedi cyfrannu at strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru?
    a. Ym mha ffordd mae’r prosiect wedi defnyddio’r Gymraeg yn ei ddeunyddiau marchnata a'i adnoddau eraill?
    b. Pa gyfleoedd y mae’r prosiect wedi’u darparu i bobl ddefnyddio’r Gymraeg?
    c. Ym mha ffordd mae'r prosiect wedi darparu gwell cyfleoedd economaidd mewn ardaloedd Cymraeg eu hiaith?
    d. Pa ymateb, os o gwbl, ydych chi wedi sylwi arno i’r defnydd o’r Gymraeg o fewn eich prosiect? A oes gennych unrhyw enghreifftiau o ymatebion cadarnhaol?

## Gwersi a ddysgwyd

34. Beth yw'r blaenoriaethau neu anghenion cyllido presennol (os o gwbl) ar gyfer eich sector/sefydliad/busnes?
    a. Beth yw eich blaenoriaethau/anghenion cyllid cyfalaf neu refeniw penodol ar hyn o bryd?
    b. Pa mor debygol ydych chi o ddod o hyd i gyllid ar gyfer y blaenoriaethau hyn?
    c. [ar gyfer prosiectau TAIS] Ydych chi'n ymwybodol o'r cynllun Y Pethau Pwysig ac os felly, pa brofiad, os o gwbl, sydd gennych o'r cynllun hwn e.e., ydych chi wedi gwneud cais amdano neu wedi derbyn cyllid drwyddo?

35. Pa newidiadau neu welliannau y byddech yn awgrymu eu gwneud i unrhyw olynydd i gynlluniau Twristiaeth Wledig Cymru Gyfan er mwyn galluogi’r sector twristiaeth i ymateb yn fwy effeithiol yn y dyfodol i’r heriau a’r blaenoriaethau y mae’n eu hwynebu?
    a. [Ar gyfer y rhai sy'n pwysleisio'r angen am gyllid pellach gofynnwch] Pa newidiadau, os o gwbl, y dylid eu gwneud i sut mae unrhyw gynlluniau cyllido yn y dyfodol yn gweithredu e.e. eu meini prawf neu broses ymgeisio

## Canllaw holi ar gyfer defnyddwyr ac ymwelwyr y prosiectau

*Nodyn i ymchwilwyr: defnyddiwch yr awgrymiadau hyn fel y bo'n briodol a'u teilwra yn unol â natur y prosiect.*

1. Proffil y grŵp ymwelwyr (maint, cyfansoddiad, o ble maent yn dod, ymwelydd dydd neu dros nos, hyd yr ymweliad, ymwelydd domestig neu dramor)
2. Rheswm dros ymweld / defnyddio'r cyfleuster neu'r lleoliad
3. Ffactorau sy'n dylanwadu ar y rheswm dros ymweld / dewis y gyrchfan neu leoliad dros opsiynau eraill h.y. pam dewis y lle arbennig hwn?
4. Pa mor aml yr ydych yn ymweld / defnyddio'r cyfleuster neu leoliad e.e. defnyddiwr tro cyntaf, defnyddiwr achlysurol, defnyddiwr rheolaidd
5. Barn ar ansawdd y gwasanaeth neu'r cynnyrch a ddefnyddiwyd, ac ansawdd y profiad
6. Beth maen nhw'n ei hoffi am y cyfleuster neu'r lleoliad
7. Yr hyn nad ydynt yn ei hoffi am y cyfleuster neu'r lleoliad
8. Barn ar sut mae'r cyfleuster neu leoliad yn cymharu â chyrchfannau, lleoliadau neu wasanaethau tebyg
9. [*Fel y bo'n briodol*] Barn ar hygyrchedd cyrchfan / lleoliad
10. [*I ddefnyddwyr ac ymwelwyr a fynychodd y gyrchfan/lleoliad cyn i'r prosiect a ariannwyd gael ei gynnal*] Barn ar:
    a. sut mae'r gyrchfan / lleoliad wedi newid neu wella
    b. sut mae'r profiadau'n cymharu â'r rhai cyn cael y cyllid
    c. a yw eu boddhad wedi newid
    d. a yw pa mor aml y maent yn ymweld wedi newid
11. Lefelau cyffredinol o foddhad a thebygolrwydd o ddychwelyd i gyrchfan / lleoliad

# Canllaw holi ar gyfer rhanddeiliaid lleol a rhanbarthol

## Cefndir

1. Ym mha ffordd yr ydych wedi bod yn ymwneud â chynllun Twristiaeth Wledig Cymru Gyfan?
    a. Pa un o'r pedwar cynllun (*MSBF, TAIS, TPIF a RTEF*)[56] ydych chi'n gyfarwydd ag ef?
    b. Pa brosiectau a ariannwyd yr ydych yn gyfarwydd â nhw? *[prociwch gyda phrosiectau sydd wedi cael eu cyllido o fewn eu hardal leol neu ranbarthol]*

## Nodau ac Amcanion

2. Beth ydych chi'n ei ddeall yw nodau ac amcanion cynlluniau Twristiaeth Wledig Cymru Gyfan?
    a. Pa faterion oedd y cynlluniau yn ceisio mynd i'r afael â nhw?
    b. Pam roedd eu hangen ar y lefel leol/rhanbarthol yr ydych yn gweithio oddi mewn iddi?
    c. Pa mor dda yr oedd y cynlluniau'n cyd-fynd a'ch blaenoriaethau lleol/rhanbarthol?

## Cyflawni'r prosiect a ariannwyd

3. Beth yw eich barn am gyflawniadau'r prosiectau a ariannwyd yr ydych yn gyfarwydd â nhw?

4. Pa ffactorau wnaeth alluogi'r prosiectau i gael ei gyflawni'n llwyddiannus?

5. Pa heriau neu ffactorau allanol, os o gwbl, y daeth y prosiectau ar eu traws? Holwch am:
    a. effaith Covid-19
    b. effaith Brexit
    c. amodau economaidd, megis recriwtio a chadw staff

6. Ym mha ffordd y mae'r prosiectau a ariannwyd wedi bod yn
    a. uchelgeisiol,
    b. arloesol ac
    c. o ansawdd rhagorol?

7. Sut mae’r prosiect a ariannwyd wedi cyfrannu at:

[56] Cronfa Busnesau Bach a Micro (MSBF); Cymorth Buddsoddi mewn Amwynderau Twristiaeth (TAIS); y Gronfa Arloesi Cynnyrch Twristiaeth (TPIF) neu’r Gronfa Ymgysylltu Twristiaeth Ranbarthol (RTEF)

a. gynllun strategol cyffredinol eich sefydliad neu'ch partneriaeth?
b. Cynlluniau Rheoli Cyrchfannau lleol/rhanbarthol?
c. Blaenoriaethau Croeso Cymru megis tyfu'r sector twristiaeth mewn ffordd gynaliadwy a gwella ansawdd yng Nghymru?
d. Dulliau marchnata thematig 'Blynyddoedd' Croeso Cymru[57]?
e. uchelgeisiau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol?

## Y gwahaniaeth a wnaed

*Nodyn i'r cyfwelydd: Holwch fel y bo'n briodol, yn dibynnu ar eu gwybodaeth am y cynlluniau*

8. Pa wahaniaeth y mae prosiectau a ariannwyd gan MSBF wedi'i wneud yn eich ardal/rhanbarth lleol, a pha dystiolaeth sydd gennych i gefnogi hyn, o ran:
    a. ymestyn y cyfleusterau sydd ar gael i ymwelwyr y gellir eu defnyddio drwy gydol y flwyddyn a
    b. gwella ansawdd y cyfleusterau i ymwelwyr?
    c. gwella profiadau i ymwelwyr?
    d. cynyddu'r galw gan ymwelwyr / cyfraddau meddiannaeth ar draws cyrchfannau a gefnogir?

9. Pa wahaniaeth y mae prosiectau a ariannwyd gan TAIS wedi'i wneud yn eich ardal/rhanbarth lleol, a pha dystiolaeth sydd gennych i gefnogi hyn, o ran:
    a. gwella cyfleusterau amwynder ymwelwyr?
    b. gwella hygyrchedd i ymwelwyr?
    c. gwella profiadau i ymwelwyr?
    d. cynyddu'r galw/defnydd gan ymwelwyr ar draws cyrchfannau a gefnogir?

10. Pa wahaniaeth y mae prosiectau a ariannwyd gan TPIF a RTEF wedi'i wneud yn eich ardal/rhanbarth lleol, a pha dystiolaeth sydd gennych i gefnogi hyn, o ran:
    a. cryfhau ac ymestyn trefniadau cydweithio a gweithio mewn partneriaeth ar draws y sector twristiaeth (er enghraifft rhwng consortia twristiaeth, partneriaethau twristiaeth a grwpiau masnach)
    b. datblygu a chyflwyno cynhyrchion twristiaeth newydd ac arloesol i'r farchnad?
    c. ehangu a chynyddu cynnwys hyrwyddo i ymgysylltu â darpar ymwelwyr
    d. marchnata i farchnad ehangach, fwy?

[57] Antur yn 2016, Chwedlau yn 2017, y Môr yn 2018, Darganfod 2019 a'r Awyr Agored yn 2020

11. Yn gyffredinol, pa wahaniaeth ydych chi'n meddwl y mae'r cynlluniau wedi'i wneud i'r sector twristiaeth ar draws cefn gwlad Cymru, a pha dystiolaeth sydd gennych i gefnogi hyn, o ran:
    a. ymestyn cynnig twristiaeth o ansawdd uchel drwy gydol y flwyddyn
    b. gwella ymwybyddiaeth o Gymru fel cyrchfan i ymwelwyr
    c. gwella ansawdd a chyflogau swyddi o fewn y sector twristiaeth
    d. lleihau tlodi a sicrhau mwy o gynhwysiant cymdeithasol

## Gwerth am Arian

12. Ym mha ffordd y gellid bod wedi defnyddio adnoddau'n well i gyflawni canlyniadau gwell neu fwy o ganlyniadau?
    a. A ellid bod wedi cyflawni'r un canlyniadau mewn ffyrdd eraill, rhatach?

13. A yw'r cyllid wedi'i ddyrannu'n deg?
    a. A oedd y cynlluniau'n cwmpasu pawb a ddylai allu cael mynediad iddynt?
    b. A wnaeth dyluniad y cynlluniau ffafrio neu roi unrhyw grwpiau neu fathau o ymgeiswyr dan anfantais? Os felly, pa rai a pham?

14. Yn absenoldeb y cyllid, beth fyddai wedi digwydd?
    a. I ba raddau y byddai prosiectau a ariannwyd (neu elfennau ohonynt) wedi cael eu cyflawni beth bynnag?

## Themâu trawsbynciol

15. A ydych yn ymwybodol o unrhyw brosiectau a ariannwyd sy'n dangos arfer da o ran cyfrannu at themâu trawsbynciol Llywodraeth Cymru ac amcanion trawsbynciol y Rhaglen Datblygu Gwledig? Gofynnwch am enghreifftiau o brosiectau sydd:
    a. wedi sicrhau Cyfle Cyfartal *(Holwch: er enghraifft, rhywedd neu nifer y gweithwyr o leiafrifoedd ethnig)?*
    b. sicrhau Datblygiad Cynaliadwy[58]?
    c. wedi helpu i drechu tlodi ac allgáu cymdeithasol?
    b. *[Os nad yw wedi'i gynnwys eisoes yn C11 uchod]* wedi cyflwyno dulliau arloesol?
    c. wedi gwneud addasiadau i leihau eu heffaith ar yr hinsawdd? (*Holwch am ystyriaethau a fabwysiadwyd yn ystod y gwaith adeiladu neu newidiadau i ymddygiad e.e. lleihau gwastraff neu ddefnydd dŵr*,

[58] Mae datblygiad cynaliadwy yn egwyddor ganolog ar gyfer cyflawni nodau datblygu dynol yn ogystal â chynnal gallu systemau naturiol i ddarparu'r adnoddau naturiol a'r gwasanaethau ecosystem y mae'r economi a chymdeithas yn dibynnu arnynt

*defnyddio ynni adnewyddadwy, defnyddio cynhyrchion wedi'u hailgylchu ac ati*)

16. A ydych yn ymwybodol o unrhyw brosiectau a ariannwyd sy'n dangos arfer da o ran cyfrannu at strategaeth iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru, Cymraeg 2050 a defnyddio'r Gymraeg yn effeithiol yn ei waith marchnata/adnoddau neu'n darparu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg?

## Gwersi a ddysgwyd

17. Beth yw'r blaenoriaethau neu anghenion cyllido presennol (os o gwbl) ar gyfer y sector twristiaeth yng Nghymru?
    d. Beth yw blaenoriaethau/anghenion cyllid cyfalaf neu refeniw penodol y sector ar hyn o bryd?

18. Pa newidiadau neu welliannau y byddech yn eu hawgrymu ar gyfer unrhyw olynydd i gynlluniau Twristiaeth Wledig Cymru Gyfan er mwyn galluogi'r sector twristiaeth i ymateb yn fwy effeithiol i'r heriau a'r blaenoriaethau y mae'n eu hwynebu?

## Offeryn arolwg dwyieithog

Mae Ymchwil OB3 yn cynnal gwerthusiad o Gynlluniau Twristiaeth Wledig Cymru Gyfan ar gyfer Llywodraeth Cymru. Mae pedwar cynllun cyllid grant y o fewn cwmpas yr astudiaeth: Cronfa Busnesau Bach a Micro (MSBF); Cymorth Buddsoddi mewn Amwynderau Twristiaeth (TAIS); y Gronfa Arloesi Cynnyrch Twristiaeth (TPIF) neu'r Gronfa Ymgysylltu Twristiaeth Ranbarthol (RTEF)

Fel derbynnydd grant gofynnwn yn garedig i chi ateb rhai cwestiynau am eich profiad o'r cynllun(iau) a'r buddion a allai fod wedi dod yn sgil y prosiect a ariannwyd. Ni ddylai'r arolwg gymryd mwy na 10 munud i'w gwblhau.

Mae rhagor o wybodaeth am y gwerthusiad, gan gynnwys Hysbysiad Preifatrwydd ar gael yma Hysbysiad Preifatrwydd ar gyfer Prosiectau a Ariennir gan Dwristiaeth Wledig Cymru Gyfan

I gael gwybodaeth am hygyrchedd, gweler ein Datganiad Hygyrchedd Arolwg.

### Gwneud cais am y grant

#### 2.1 Sut clywsoch chi am gynllun Twristiaeth Wledig Cymru Gyfan?

- ❑ Cyfathrebu gan Lywodraeth Cymru
- ❑ Gwefan Llywodraeth Cymru
- ❑ Digwyddiad neu rwydwaith gwybodaeth
- ❑ Busnes arall
- ❑ Sefydliad neu bartneriaeth arall
- ❑ Eich ymchwil eich hun
- ❑ Arall
- ❑ Ddim yn gwybod / Methu cofio

[Os C2.1=4,5,7] **Nodwch os gwelwch yn dda:**

______________________________________________

______________________________________________

#### 2.2 Pa mor hawdd oedd cwblhau'r canlynol:

| | Hawdd iawn | Gweddol hawdd | Ddim yn arbennig o hawdd | Ddim yn hawdd o gwbl | Ddim yn gwybod / Methu cofio | Amherthnasol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Y datganiad diddordeb cychwynnol | | | | | | |
| Y cais llawn | | | | | | |

**2.3 Pa mor ddefnyddiol oedd y canllawiau ymgeisio am gyllid i chi?**

- ❑ Defnyddiol iawn
- ❑ Gweddol ddefnyddiol
- ❑ Ddim yn arbennig o ddefnyddiol
- ❑ Ddim yn ddefnyddiol o gwbl
- ❑ Ddim yn gwybod / Methu cofio

**2.4 Pa mor ddefnyddiol oedd unrhyw gyngor neu adborth a ddarparwyd gan swyddogion Llywodraeth Cymru yn ystod y broses ymgeisio?**

- ❑ Defnyddiol iawn
- ❑ Gweddol ddefnyddiol
- ❑ Ddim yn arbennig o ddefnyddiol
- ❑ Ddim yn ddefnyddiol o gwbl
- ❑ Ni holwyd am gyngor
- ❑ Ddim yn gwybod / Methu cofio

**2.5 A oedd yr amser a gymerodd Llywodraeth Cymru i asesu eich datganiad o ddiddordeb a'ch cais llawn yn?**

- ❑ Dderbyniol
- ❑ Rhy hir
- ❑ Ddim yn gwybod

**2.6 Beth, os o gwbl, fyddech chi'n ei nodi fel cryfderau'r broses ymgeisio?**

________________________________________
________________________________________
________________________________________
________________________________________

**2.7 Ym mha ffordd, os o gwbl, y gellid bod wedi gwella'r broses ymgeisio neu ei gwneud yn haws?**

________________________________________
________________________________________
________________________________________
________________________________________

## Gweinyddu'r grant

### 3.1 Beth oedd eich profiad o elfennau gweinyddol canlynol y grant?

| | Syml iawn | Gweddol syml | Ddim yn arbennig o syml | Ddim yn syml o gwbl | Ddim yn gwybod / Methu cofio |
|---|---|---|---|---|---|
| Cadw at ofynion caffael | | | | | |
| Paratoi hawliadau ariannol | | | | | |
| Derbyn taliadau | | | | | |
| Tystiolaethu ac adrodd ar allbynnau prosiect | | | | | |

### 3.2 Beth, os o gwbl, fyddech chi'n ei nodi fel cryfderau'r broses gweinyddu grantiau:

___

___

___

### 3.3 Sut, os o gwbl, y gellid bod wedi gwella'r broses gweinyddu grantiau?

___

___

___

___

## Y ffordd y cyflawnwyd y prosiectau

### 4.1 A yw'r prosiect a ariannwyd wedi'i gwblhau?

Do
Na

### 4.2 [Os C4.1 = 1] A gyflawnodd eich prosiect ei nodau a'i amcanion?

- ❑ Wedi'i gyflawni'n llawn
- ❑ Wedi'i gyflawni'n rhannol
- ❑ Heb ei gyflawni
- ❑ Ddim yn gwybod/Methu cofio

### 4.3 [Os C4.1 = 1] Sut y perfformiodd eich prosiect yn erbyn ei dargedau?

- ❑ Wedi rhagori ar bob targed
- ❑ Wedi cyrraedd pob targed
- ❑ Wedi cyrraedd rhai targedau
- ❑ Heb gyrraedd unrhyw dargedau
- ❑ Ddim yn gwybod/Methu cofio

### 4.4 [Os C4.3 = (1,2)] Beth sy'n cyfrif am berfformiad cryf y prosiect yn erbyn ei dargedau?

### 4.5 [Os C4.2 = (3,4)] Pam na chyflawnodd y prosiect ei holl dargedau a ariannwyd?

### 4.6 [Os C4.1 = 1] Beth aeth yn dda wrth gyflawni eich prosiect?

**4.7 [Os C4.1 = 1] Pa heriau, os o gwbl, a wynebodd eich prosiect?**

______________________________________________________________________

______________________________________________________________________

______________________________________________________________________

______________________________________________________________________

**4.8 [Os C4.1 = 2] A ydych yn disgwyl i'ch prosiect gyflawni ei nodau a'i amcanion?**

- ❑ Ydw yn llawn
- ❑ Ydw yn rhannol
- ❑ Na
- ❑ Ddim yn gwybod

**4.9 [Os C4.1 = 2] Sut ydych chi'n disgwyl i'ch prosiect berfformio yn erbyn ei dargedau?**

- ❑ Rhagori ar bob targed
- ❑ Cwrdd â phobl targed
- ❑ Cwrdd â rhai targedau
- ❑ Ni fydd yn cyrraedd ag unrhyw dargedau
- ❑ Ddim yn gwybod

**4.10 [Os C4.10 = (1,2)] Beth sy'n cyfrif am berfformiad cryf y prosiect yn erbyn ei dargedau?**

______________________________________________________________________

______________________________________________________________________

______________________________________________________________________

______________________________________________________________________

**4.11 [Os C4.10 = (3,4)] Pam na fydd y prosiect yn cyrraedd pob un o'i dargedau?**

______________________________________________________________________

______________________________________________________________________

______________________________________________________________________

______________________________________________________________________

**4.12 [Os C4.1 = 1] Beth aeth yn dda wrth gyflawni eich prosiect?**

______________________________________________________________________

______________________________________________________________________

______________________________________________________________________

______________________________________________________________________

### 4.6 [Os C4.1 = 1] Pa heriau, os o gwbl, a wynebodd eich prosiect?

______________________________________________________________________________
______________________________________________________________________________
______________________________________________________________________________
______________________________________________________________________________

## MSBF

### 5.1 Pa wahaniaeth y mae'r prosiect wedi'i wneud i'ch busnes o ran:

| | Gwahaniaeth mawr | Peth gwahaniaeth | Dim gwahaniaeth arbennig | Dim gwahaniaeth o gwbl | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|---|---|
| Y gallu i gynnig ystod ehangach o gyfleusterau i ymwelwyr | | | | | |
| Ansawdd cyfleusterau ymwelwyr | | | | | |
| Profiadau ymwelwyr | | | | | |

### 5.2 Ers cyflawni'r prosiect, a yw cyfraddau galw, defnydd neu feddiannaeth blynyddol cyffredinol eich busnes wedi:

- ❑ Cynyddu'n sylweddol
- ❑ Cynyddu ychydig
- ❑ Ni fu unrhyw wahaniaeth
- ❑ Gostwng ychydig
- ❑ Gostwng yn sylweddol
- ❑ Ddim yn gwybod / Rhy gynnar i ddweud / Ddim yn berthnasol

### 5.3 Ers cyflawni'r prosiect, a yw cyfraddau galw, defnydd neu feddiannaeth eich busnes yn ystod y tymhorau allfrig a thymhorau ysgwydd wedi:

**[Rydym yn cydnabod bod y pandemig yn cael effaith negyddol ar fusnes yn ystod y cyfnod hwn, felly ystyriwch eich defnydd arferol cyn 2020]**

- ❑ Cynyddu'n sylweddol
- ❑ Cynyddu ychydig
- ❑ Ni fu unrhyw wahaniaeth
- ❑ Gostwng ychydig
- ❑ Gostwng yn sylweddol
- ❑ Ddim yn gwybod / Rhy gynnar i ddweud / Ddim yn berthnasol

### 5.4 [Os C5.2= (1,2) NEU C5.3 = (1,2)] Pa gyfraniad a wnaeth y cyllid grant i'r codiadau hyn?

- ❑ Cyfraniad mawr
- ❑ Peth cyfraniad
- ❑ Dim cyfraniad arbennig
- ❑ Dim cyfraniad o gwbl
- ❑ Ddim yn gwybod

**5.5 Ers cyflwyno'r prosiect, a fu unrhyw newid yng ngraddau lletygarwch eich busnes?**

- ❑ Do
- ❑ Na
- ❑ Ddim yn gwybod / Ddim yn berthnasol

**5.6 [Os C5.5=1] Sut mae gradd lletygarwch eich busnes wedi newid a beth yw enw'r corff dyfarnu?**

______________________________________________
______________________________________________
______________________________________________
______________________________________________

**5.7 Ers cyflawni'r prosiect, a yw eich busnes wedi derbyn unrhyw wobrau neu achrediadau eraill?**

______________________________________________
______________________________________________
______________________________________________
______________________________________________

**5.8 Ers cyflwyno'r prosiect sut, os o gwbl, y mae cyfanswm nifer y gweithwyr yn eich busnes wedi newid?**

**[Wrth ateb y cwestiwn hwn dywedwch wrthym os yw nifer y swyddi Cyfwerth ag Amser Llawn (FTE) yn y busnes wedi newid]**

- ❑ Wedi cynyddu
- ❑ Wedi aros yr un peth
- ❑ Wedi lleihau
- ❑ Ddim yn gwybod

**5.9 O ganlyniad uniongyrchol i'r prosiect a ariannwyd gan y grant, faint o swyddi cyfwerth ag amser llawn (FTE) sydd wedi'u diogelu?**

**[Mae swydd a ddiogelir yn swydd barhaol a fyddai wedi bod mewn perygl dros y 12 mis dilynol. Mae'n bosibl y bydd swydd dymhorol yn cael ei chynnwys pe bai disgwyl iddi ddigwydd eto am gyfnod amhenodol. Cyfrwch nifer y swyddi cyfwerth ag amser llawn yn hytrach na deiliaid swyddi**

- ❑ Dim
- ❑ Hyd at ac yn cynnwys 1 FTE
- ❑ Hyd at ac yn cynnwys 2 FTE
- ❑ Hyd at ac yn cynnwys 3 FTE
- ❑ Hyd at ac yn cynnwys 4 FTE
- ❑ Hyd at ac yn cynnwys 5 FTE
- ❑ Dros 5 FTE
- ❑ Ddim yn gwybod

**5.10 O ganlyniad uniongyrchol i'r prosiect a ariannwyd gan y grant, faint o swyddi FTE sydd wedi'u creu?**

- ❑ Dim
- ❑ Hyd at ac yn cynnwys 1 FTE
- ❑ Hyd at ac yn cynnwys 2 FTE
- ❑ Hyd at ac yn cynnwys 3 FTE
- ❑ Hyd at ac yn cynnwys 4 FTE
- ❑ Hyd at ac yn cynnwys 5 FTE
- ❑ Dros 5 FTE
- ❑ Ddim yn gwybod

**5.11 [Os C5.9= creu swydd] Beth yw natur y swyddi newydd hyn sydd wedi cael eu creu, o ran rôl; telerau cyflogaeth; a chyflog?**

_______________________________________________

_______________________________________________

**5.12 Sut, os o gwbl, mae eich trosiant busnes blynyddol wedi newid ers cyflawni'r prosiect?**

**[Rydym yn cydnabod y gallai'r pandemig fod wedi cael effaith negyddol ar drosiant busnes yn ystod y cyfnod hwn, felly ystyriwch eich trosiant arferol cyn 2020]**

- ❑ Wedi cynyddu
- ❑ Wedi aros yr un peth
- ❑ Wedi lleihau
- ❑ Ddim yn gwybod

**5.13 [OS C5.12= 1] Beth oedd trosiant blynyddol y busnes:**

**[Rhowch fras drosiant]**

Cyn cyflawni'r prosiect ______________________

Ar ôl cyflawni'r prosiect ______________________

**5.14 [OS C5.12= 1] Pa gyfraniad, os o gwbl, a wnaeth y cyllid grant i'r cynnydd hwn mewn trosiant?**

- ❑ Cyfraniad mawr
- ❑ Peth cyfraniad
- ❑ Dim cyfraniad arbennig
- ❑ Dim cyfraniad o gwbl
- ❑ Ddim yn gwybod

**5.15 I ba raddau y mae'r cyllid grant wedi helpu eich busnes i gryfhau ei gynaliadwyedd ariannol ar gyfer y dyfodol?**

- ❑ I raddau helaeth
- ❑ I ryw raddau
- ❑ I ddim graddau penodol
- ❑ I ddim graddau o gwbl
- ❑ Ddim yn gwybod

## TAIS

### 6.1 Pa wahaniaeth y mae’r prosiect wedi’i wneud i’r cyfleuster/cyrchfan o ran:

| | Gwahaniaeth mawr | Peth gwahaniaeth | Dim gwahaniaeth arbennig | Dim gwahaniaeth o gwbl | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwella cyfleusterau amwynder i ymwelwyr | | | | | |
| Gwella profiadau i ymwelwyr | | | | | |
| Gwella hygyrchedd i ymwelwyr | | | | | |

### 6.2 [Os C6.1b= (1,2)] Sut ydych chi'n gwybod bod gwelliant wedi digwydd?

**A ydych yn gallu darparu tystiolaeth o hyn e.e. data arolwg boddhad?**

________________________________________

________________________________________

________________________________________

### 6.3 Ers cyflawni’r prosiect a yw'r galw neu ddefnydd o’r cyfleuster/cyrchfan wedi:

- ❑ Cynyddu'n sylweddol
- ❑ Cynyddu ychydig
- ❑ Ni fu unrhyw wahaniaeth
- ❑ Gostwng ychydig
- ❑ Gostwng yn sylweddol
- ❑ Ddim yn gwybod / Rhy gynnar i ddweud / Ddim yn berthnasol

### 6.4 [Os C5.2= (1,2) NEU C5.3 = (1,2)] Pa gyfraniad a wnaeth y cyllid grant i'r cynnydd hyn?

- ❑ Cyfraniad mawr
- ❑ Peth cyfraniad
- ❑ Dim cyfraniad arbennig
- ❑ Dim cyfraniad o gwbl
- ❑ Ddim yn gwybod

## TPIF a RTEF

### 7.1 I ba raddau y mae'r prosiect wedi cryfhau cydweithio ar draws y sector twristiaeth yn eich ardal?

- ❑ I raddau helaeth
- ❑ I ryw raddau
- ❑ I ddim graddau penodol
- ❑ I ddim graddau o gwbl
- ❑ Ddim yn gwybod

### 7.2 Yn y dyfodol pa mor debygol ydych chi o gydweithio eto gyda'r un partneriaid sy'n ymwneud â'r prosiect?

- ❑ Tebygol iawn
- ❑ Eithaf tebygol
- ❑ Ddim yn arbennig o debygol
- ❑ Ddim yn debygol o gwbl
- ❑ Ddim yn gwybod

### 7.3 Faint o ddefnydd sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd o unrhyw adnoddau hyrwyddo neu farchnata a ddatblygwyd gan y prosiect?

- ❑ Defnydd helaeth
- ❑ Peth defnydd
- ❑ Dim defnydd arbennig
- ❑ Dim defnydd o gwbl
- ❑ Ddim yn gwybod

### 7.4 Pa wahaniaeth y mae'r prosiect wedi'i wneud i'ch gallu i:

| | Gwahaniaeth mawr | Peth gwahaniaeth | Dim gwahaniaeth arbennig | Dim gwahaniaeth o gwbl | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|---|---|
| Cynnig cynnyrch twristiaeth newydd ac arloesol i'r farchnad | | | | | |
| Datblygu ac ehangu'r cynnwys hyrwyddo a ddefnyddir i ddenu darpar ymwelwyr | | | | | |
| Hyrwyddo eich gwasanaethau neu gynhyrchion i farchnad ehangach, fwy? | | | | | |

**7.5 [C7.4c=1,2] Sut ydych chi'n gwybod bod newid wedi digwydd?**

**A allwch ddarparu tystiolaeth o hyn e.e. data ar ymateb ymgyrch farchnata**

____________________________________________________________

____________________________________________________________

____________________________________________________________

____________________________________________________________

**7.6 Ers cyflawni’r prosiect a yw'r galw neu'r defnydd o’ch gwasanaethau, cynnyrch neu gyrchfan wedi:**

- ❑ Cynyddu'n sylweddol
- ❑ Cynyddu ychydig
- ❑ Ni fu unrhyw wahaniaeth
- ❑ Gostwng ychydig
- ❑ Gostwng yn sylweddol
- ❑ Ddim yn gwybod / Rhy gynnar i ddweud / Ddim yn berthnasol

**7.4 [Os C5.2= (1,2) NEU C5.3 = (1,2)] Pa gyfraniad a wnaeth y cyllid grant i'r codiadau hyn?**

- ❑ Cyfraniad mawr
- ❑ Peth cyfraniad
- ❑ Dim cyfraniad arbennig
- ❑ Dim cyfraniad o gwbl
- ❑ Ddim yn gwybod

## Cwestiynau olaf eraill

### 8.1 Pa gyfraniad mae gweithgareddau'r prosiect wedi eu gwneud i:

| | Cyfraniad mawr | Peth cyfraniad | Dim cyfraniad arbennig | Dim cyfraniad o gwbl | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|---|---|
| Hyrwyddo a chefnogi cyfle cyfartal | | | | | |
| Hyrwyddo a chefnogi datblygiad cynaliadwy | | | | | |
| Helpu i drechu tlodi ac allgáu cymdeithasol mewn ardaloedd gwledig | | | | | |
| Datblygu darpariaeth arloesol ac sy'n torri tir newydd | | | | | |
| Helpu i ddiogelu'r amgylchedd | | | | | |
| Helpu i fynd i'r afael â newid hinsawdd | | | | | |
| Cefnogi'r defnydd o'r Gymraeg | | | | | |

### 8.2a Pe na baech wedi derbyn yr arian grant, beth fyddai wedi digwydd?

**[Dewiswch y disgrifiad sy'n cyd-fynd orau â'r hyn rydych chi'n meddwl allai fod wedi digwydd]**

- ❑ Byddai'r prosiect cyfan wedi mynd yn ei flaen beth bynnag o fewn amserlen debyg
- ❑ Byddai agweddau o'r prosiect wedi mynd rhagddynt beth bynnag o fewn amserlen debyg
- ❑ Byddai'r prosiect wedi'i ohirio, ond byddai rhywfaint neu'r cyfan ohono'n cael ei weithredu yn y dyfodol
- ❑ Ni fyddai'r prosiect wedi symud ymlaen o gwbl
- ❑ Ddim yn gwybod

### 8.2b [Os C8.2=1,2,3] Sut fyddech chi wedi ariannu'r gweithgareddau hyn heb arian grant?

## Atodiad D: Adolygiad o bolisïau

Mae'r Atodiad hwn yn ystyried polisi, strategaeth a deddfwriaeth trosfwaol Llywodraeth Cymru sy'n berthnasol i gynllun Twristiaeth Wledig Cymru Gyfan.

**Polisi, strategaeth a deddfwriaeth trosfwaol Llywodraeth Cymru**

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015) yn ei gwneud yn ofynnol i'r sector cyhoeddus 'wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru drwy weithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy' a sicrhau 'bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau'[59].

Mae'r Ddeddf yn amlinellu saith nod llesiant a phum ffordd o weithio y mae'n rhaid i bob awdurdod cyhoeddus geisio eu cyflawni. Mae'r saith nod llesiant fel a ganlyn:

- Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang
- Cymru lewyrchus
- Cymru gydnerth
- Cymru iachach
- Cymru sy'n fwy cyfartal
- Cymru o gymunedau cydlynus
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu.

Y pum ffordd o weithio yw:

- anghenion hirdymor
- dulliau ataliol

[59] Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 Yr Hanfodion gan lywodraeth Cymru (tud3; tud7)

- integreiddio rhwng cyrff cyhoeddus
- cydweithio a rhannu adnoddau
- cynnwys pobl.

Disgwyliwyd y byddai cynllun Twristiaeth Wledig Cymru Gyfan yn cyfrannu at y nodau hyn drwy fuddsoddi mewn cynhyrchion a chyrchfannau twristiaeth gynaliadwy a thrwy hynny greu Cymru fwy ffyniannus a chydnerth; buddsoddi mewn gwelliannau amgylcheddol a thrwy hynny greu Cymru sy'n fwy cyfrifol yn fyd-eang; a chefnogi cyflogaeth gynaliadwy mewn ardaloedd gwledig a fyddai'n helpu i leihau tlodi a hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol, a thrwy hynny greu Cymru fwy cyfartal. Disgwyliwyd hefyd y byddai'r cynllun yn ysgogi cydweithio rhwng sefydliadau twristiaeth allweddol drwy fuddsoddi mewn prosiectau partneriaeth.

<u>Symud Cymru Ymlaen</u>

Yn rhaglen lywodraethu Llywodraeth Cymru ar gyfer 2016-21, Symud Cymru Ymlaen, gwnaed ymrwymiad i gefnogi 'datblygiad ein busnesau twristiaeth llwyddiannus'[60] dan ei amcan o ddatblygu gwlad lewyrchus a diogel.

<u>Ffyniant i Bawb</u>

Roedd cynllun gweithredu ar yr economi Llywodraeth Cymru, Ffyniant i Bawb, a gyhoeddwyd yn 2017 yn nodi ymhellach dwristiaeth fel un o bedwar sector sylfaen allweddol yng Nghymru ac wedi ymrwymo i weithio ar draws y llywodraeth i gefnogi’r sector i ‘ddatblygu cynlluniau galluogi i fanteisio ar gyfleoedd ar gyfer twf ac arloesi.'[61] Ymrwymodd Llywodraeth Cymru i weithio'n 'uniongyrchol â busnesau unigol ynghyd â’r sector cyfan ar faterion mor amrywiol â marchnata, sgiliau, cyfleusterau, digwyddiadau mawr ac ansawdd cynnyrch.'[62] Roedd y cynllun gweithredu yn cydnabod

[60] Llywodraeth Cymru (2016), Symud Cymru Ymlaen 2016-21, tud.5
[61] Llywodraeth Cymru (2017) Ffyniant i Bawb - Cynllun Gweithredu ar yr Economi - Crynodeb Gweithredol, tud.3
[62] Llywodraeth Cymru (2017) Ffyniant i Bawb - Cynllun Gweithredu ar yr Economi tud. 13

ymhellach y cysylltiad a'r rhyngberthynas rhwng cynnig manwerthu cryf a thwristiaeth.

O dan ei huchelgais i hyrwyddo a diogelu lle Cymru yn y byd, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i adeiladu ar frand llwyddiannus Cymru i wella proffil, enw da a dylanwad Cymru. Mae Ffyniant i Bawb yn nodi ymrwymiad i hyrwyddo Cymru drwy ymgyrchoedd twristiaeth wedi'u hanelu at farchnadoedd y DU a marchnadoedd rhyngwladol ac adeiladu proffil Cymru drwy'r diwydiant digwyddiadau byd-eang.

Strategaeth Ryngwladol i Gymru

Ym mis Ionawr 2020, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei strategaeth ryngwladol[63] a oedd yn cynnwys tair uchelgais graidd dros gyfnod o bum mlynedd hyd at 2025:

- codi proffil Cymru ar y llwyfan rhyngwladol
- tyfu'r economi drwy gynyddu allforion a denu buddsoddiadau o'r tu allan
- sefydlu Cymru fel cenedl sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.

Nod y strategaeth oedd gwella 'enw da a phroffil Cymru yn rhyngwladol' drwy fanteisio ar gryfderau megis 'harddwch naturiol a'n hiaith, ein diwylliant a'n treftadaeth unigryw.'[64] O dan ei huchelgais i sefydlu Cymru fel cenedl sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i:

- farchnata Cymru fel cyrchfan twristiaeth o'r radd flaenaf a chynnal ymgyrchoedd, rhaglenni a phrosiectau sy'n diffinio'r brand i helpu Cymru i gael lle amlwg ar lwyfan y byd
- cryfhau enw da Cymru fel 'arweinydd byd-eang' ar gyfer twristiaeth gynaliadwy a thwristiaeth antur
- meithrin perthnasoedd cryfach â gwledydd allweddol sy'n bartneriaid pwysig i dwristiaeth
- hyrwyddo Cymru fel cyrchfan ar gyfer ymwelwyr domestig a rhyngwladol, gan gynnwys cyfleoedd yn ymwneud â thwristiaeth bwyd.

[63] Llywodraeth Cymru (2020) Strategaeth Ryngwladol
[64] Ibid, tud.7

Cenhadaeth i Gryfhau ac Ailadeiladu'r Economi

Ym mis Chwefror 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Chenhadaeth i Gryfhau ac Ailadeiladu'r Economi a oedd yn nodi cynlluniau i gryfhau yr Economi Sylfaenol (gan gynnwys twristiaeth) ar ôl y pandemig COVID-19. Roedd yn cydnabod effaith ddigynsail y pandemig ar y diwydiant twristiaeth yng Nghymru ac yn addo gweithio gyda'r sector i ddatblygu Cynllun Adfer a fyddai'n adeiladu 'gwydnwch, cynaliadwyedd a phroffidioldeb ar gyfer y tymor hir.'[65]

**Polisi a strategaeth twristiaeth Llywodraeth Cymru**

Strategaeth Twristiaeth Llywodraeth Cymru 2013-2020 Partneriaeth ar gyfer Twf

Mae Strategaeth Twristiaeth 2013-20 Llywodraeth Cymru, Partneriaeth ar gyfer Twf, yn nodi uchelgais glir i gynyddu enillion twristiaeth mewn termau real ledled Cymru 10 y cant neu fwy erbyn 2020 (sy'n cyfateb i gynnydd o 29 y cant yn nhermau arian parod). Roedd y strategaeth hefyd yn bwriadu cynyddu'r niferoedd a gyflogir yn y sector twristiaeth o 88,300 i 97,130 cyfwerth ag amser llawn (FTE) a chynyddu cyfraniad y sector at Werth Gros Ychwanegol (GVA) o 4.4 y cant i 4.8 y cant. I gyflawni hyn, cydnabu'r angen i newid y pwyslais i ddull sy'n cael ei arwain gan gynnyrch er mwyn 'gwerthu' y cyrchfannau unigryw yn amgylchedd arfordirol a gwledig Cymru.[66]

Roedd y strategaeth yn nodi gweledigaeth y 'bydd Cymru yn estyn croeso twymgalon, ansawdd eithriadol, gwerth gwych am arian a phrofiadau cofiadwy ac unigryw i bob ymwelydd'. Amlinellodd hefyd nod trosfwaol i gynyddu twristiaeth mewn ffordd gynaliadwy a sicrhau ei bod yn gwneud 'mwy o gyfraniad at les economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol Cymru.'[67]

Nododd y strategaeth bum maes ffocws i gyflawni'r uchelgais hwn, sef:

---

[65] Llywodraeth Cymru (2020) Y Genhadaeth i Gryfhau ac Ailadeiladu'r Economi, tud.20
[66] Llywodraeth Cymru (2013), Partneriaeth ar gyfer Twf t.11
[67] Ibid., tud.8

- hyrwyddo’r brand drwy ddull sy’n cael ei arwain gan gynnyrch a thargedu marchnadoedd hen a newydd gan ddefnyddio brand sy'n unigryw i Gymru
- datblygu'r cynnyrch drwy sbarduno buddsoddiad mewn cynnyrch a digwyddiadau o'r radd flaenaf a phennu blaenoriaethu strategol buddsoddiadau'r llywodraeth
- datblygu pobl i sicrhau cwsmeriaid mwy bodlon a newid syniadau pobl am dwristiaeth fel dewis da ar gyfer gyrfa
- sicrhau perfformiad proffidiol ar draws y diwydiant drwy ddefnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf a defnyddio dulliau fel rheoli cynhyrchiant
- meithrin lle drwy ddatblygu cyrchfannau y bydd pobl am ymweld â nhw a gwella cysylltiadau trafnidiaeth.

Roedd y strategaeth yn rhoi pwyslais cryf ar weithio mewn partneriaeth, gyda buddsoddiad sy'n canolbwyntio ar gynnyrch twristiaeth mewn meysydd twf strategol i wella ansawdd ac ystod y cynnyrch a gwella profiadau ymwelwyr ag atyniadau treftadaeth, amgueddfeydd a lleoliadau diwylliannol[68]. Roedd y strategaeth hefyd yn cydnabod yr angen i ganolbwyntio ar adeiladu lleoedd: i wella apêl cyrchfannau twristiaeth ledled Cymru i ymwelwyr drwy ddull effeithiol o reoli cyrchfannau drwy weithio mewn partneriaeth i gyflawni seilwaith twristiaeth o safon uchel.

Cyhoeddwyd dau fframwaith Partneriaeth ar gyfer Twf, un yn 2013 a'r llall yn 2015, a oedd yn rhoi mwy o fanylion am gyflawniadau penodol o fewn y strategaeth. Er na chyfeiriwyd yn benodol at unrhyw un o gynlluniau Twristiaeth Wledig Cymru Gyfan yng nghynllun gweithredu cyntaf y fframwaith a gyhoeddwyd yn 2013, rhoddwyd pwyslais cyffredinol ar yr angen i ganfod ffynonellau cyllid ychwanegol i gefnogi buddsoddiad cyfalaf o fewn y sector er mwyn ysgogi datblygu 'gwestai treftadaeth', 'cynhyrchion arloesol, anarferol ac unigryw' a 'mwy o atyniadau, gweithgareddau a phrofiadau diwylliannol/ treftadaeth gydol y flwyddyn.'

[68] Ibid., tud.24

Roedd yr ail fframwaith ar gyfer gweithredu a gyhoeddwyd yn 2015 hefyd yn canolbwyntio ar gynyddu lefel gyffredinol y cyllid sydd ar gael i ysgogi buddsoddiad ar draws y sector twristiaeth, i 'wella ansawdd profiad yr ymwelydd', yn enwedig o ran llety. Ar y pryd, amlygwyd y buddsoddiad a wnaed fel rhan o'r Cynllun Cymorth Buddsoddi mewn Twristiaeth (TISS) fel cyflawniad o bwys. Nododd y fframwaith ar gyfer gweithredu hefyd fod 'trafodaethau'n parhau â phartneriaid a Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) i ddatblygu prosiect seilwaith twristiaeth'.

Diweddarwyd y strategaeth yn dilyn adolygiad interim o flaenoriaethau yn 2016, a nododd adroddiad cynnydd 2018[69]:

- fel rhan o'r flaenoriaeth datblygu cynnyrch, rhwng 2013 a 2018, roedd dros £12.5 miliwn (gan gynnwys cyllid yr Undeb Ewropeaidd) wedi'i fuddsoddi ar draws 229 o brosiectau, yn amrywio o atyniadau blaenllaw i gymorth ar gyfer seilwaith twristiaeth, marchnata, a rheoli cyrchfannau
- fel rhan o'r flaenoriaeth meithrin lle, lansiwyd y gronfa Cymorth Buddsoddi mewn Amwynder Twristiaeth (TAIS) yn 2016 a disgwylir iddi gael ei 'thargedu at ddatblygu cyrchfannau'. Nododd yr adolygiad hefyd fod 29 o brosiectau'r Gronfa Ymgysylltu Twristiaeth Ranbarthol (RTEF) wedi'u hariannu rhwng 2016 a 2018. Yn bwysig ddigon, nododd yr adolygiad hefyd:

  'rhaid i holl gyllid grant Llywodraeth Cymru ar gyfer prosiectau twristiaeth gael ei gysylltu â Chynlluniau Rheoli Cyrchfannau sy'n nodi blaenoriaethau lleol, a ddatblygwyd gan randdeiliaid cyhoeddus a phreifat.'

I gefnogi adolygiad 2018, cynhyrchwyd pedwar llyfryn diweddaru buddsoddi rhanbarthol gan Lywodraeth Cymru yn nodi gwybodaeth am y prosiectau a ariannwyd drwy'r pedwar cynllun Twristiaeth Wledig Cymru Gyfan[70]. Ym mhob achos, darparwyd gwybodaeth am y dyraniadau rhanbarthol.

---

[69] Llywodraeth Cymru (2018) Partneriaeth ar gyfer Twf: Adolygiad interim o flaenoriaethau 2016
Strategaeth twristiaeth (Partneriaeth ar gyfer twf): cynlluniau a chynnydd | LLYW.CYMRU
[70] Roadshow_Investment_Brochure_North_E.pdf (gov.wales)
Roadshow_Investment_Brochure_Mid_E.pdf (gov.wales)
Roadshow_Investment_Brochure_South_West_E.pdf (gov.wales)
Roadshow_Investment_Brochure_South_East_E.pdf (gov.wales)

Croeso i Gymru: Blaenoriaethau i'r economi ymwelwyr 2020-2025

Mae’r cynllun gweithredu hwn, a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2020, yn nodi gweledigaeth ar gyfer yr economi ymwelwyr yng Nghymru ac yn egluro’r blaenoriaethau ar gyfer Croeso Cymru dros gyfnod o bum mlynedd hyd at 2025.[71] Er bod y cynllun wedi’i baratoi cyn y pandemig a’r cyfyngiadau cenedlaethol a gafodd effaith fawr ar y sector, mae, serch hynny, yn nodi uchelgeisiau hirdymor ar gyfer twristiaeth yng Nghymru.

Mae’r cynllun yn adrodd ar dwf y sector twristiaeth hyd at 2020 ac yn amlygu’r trawsnewidiad sydd wedi digwydd i'r maes twristiaeth yn y cyfnod hwnnw. Mae’n amlygu, er enghraifft, bod ymwelwyr dros nos domestig â Chymru wedi cynyddu 1 y cant yn ystod 2019 a bod mwy na naw y cant o weithlu Cymru yn cael eu cyflogi gan y sector yn 2020.

Disgrifia weledigaeth ar gyfer Cymru fel lle ar gyfer:

- anturiaethau arloesol, o'r llwybrau beicio mynydd gorau ym Mhrydain i forlyn syrffio mewndirol cyntaf y byd
- treftadaeth y byd a threftadaeth Gymreig, sy'n rhoi cyfleoedd newydd i gofio'r gorffennol
- tirweddau naturiol eithriadol, sy'n fwrlwm o fywyd gwyllt a chyfleoedd i fyw bywyd egnïol
- diwylliant ffyniannus sy'n llawn bywyd mewn orielau, theatrau a gwyliau
- llety sydd hefyd yn brofiad, gan gynnig golygfeydd gwledig gwych neu loches yn y coed
- bwyd a diod a gyrchwyd yn lleol i'w flasu mewn digwyddiadau 'pop up' a bwytai gwych
- cyrchfannau sydd â naws am le, lle mae gorffennol cyfoethog yn cyfuno â nodweddion cyfoes

[71] Croeso i Gymru: blaenoriaethau i'r economi ymwelwyr 2020 i 2025 | LLYW.CYMRU

- calendr sy'n orlawn o ddigwyddiadau lleol a byd-eang cyfoethog – cerddoriaeth, llenyddiaeth, ffordd o fyw.

Mae hefyd yn cydnabod fodd bynnag bod yn rhaid i dwf twristiaeth fod yn gynaliadwy a chefnogi, yn hytrach na bygwth, y cryfderau sydd gan Gymru i'w cynnig.

Mae'r cynllun gweithredu yn nodi pedair blaenoriaeth allweddol ar gyfer Croeso Cymru dros y pum mlynedd:

- datblygu cynhyrchion a lleoedd gwych drwy fuddsoddiad cyfalaf dan arweiniad diwydiant a chreu lleoedd mewn ffordd integredig: bwlch allweddol a nodwyd yw llety o safon uchel mewn sawl rhan o Gymru ac mae'r cynllun gweithredu'n cadarnhau y bydd Llywodraeth Cymru yn 'parhau i roi cymorth i ficrofusnesau a busnesau bach'[72] drwy'r MSBF er mwyn mynd i'r afael â hyn. Uchelgais arall yw mabwysiadu dull strategol o ddatblygu lleoedd ledled Cymru drwy 'sianelu ymdrechion y cyhoedd a chyllid tuag at nifer fach o gyrchfannau'.[73]
- darparu profiadau rhagorol i ymwelwyr gan gynnwys llety o safon uchel, cyfleusterau hygyrch, a gwasanaeth cwsmeriaid da: mae'r cynllun gweithredu yn cydnabod yr angen i gael 'y nodweddion sylfaenol yn gywir'. Cyfeirir at y buddsoddiad o £7 miliwn a ddyfarnwyd i ddatblygu a hyrwyddo profiadau o gyrchfannau a chynnyrch ledled Cymru drwy'r RTEF a'r TPIF. Fodd bynnag, mae'r cynllun gweithredu'n cydnabod 'er bod y prosiectau hyn wedi cael effaith, credwn fod angen dull gweithredu gwahanol bellach. Yn y dyfodol, yn hytrach na gwahodd ceisiadau, byddwn yn mynd ati i nodi'r prosiectau a'r gweithgarwch sy'n ofynnol er mwyn cyflawni ein huchelgeisiau a chaffael y prosiectau hyn yn uniongyrchol'.  O dan y flaenoriaeth hon, mae Llywodraeth Cymru hefyd yn ymrwymo i fuddsoddi mewn seilwaith twristiaeth sylfaenol 'ac felly byddwn yn adeiladu ar y prosiectau rydym wedi'u cefnogi drwy'r Cynllun Buddsoddi mewn Amwynderau Twristiaeth drwy lansio cylch newydd sylweddol o gyllid.

[72] tud.17
[73] tud.18

Mae Y Pethau Pwysig yn gronfa newydd... fydd yn cefnogi'r sector cyhoeddus, y trydydd sector a sefydliadau dielw i ddarparu gwelliannau bychain sylfaenol i seilwaith twristiaeth' gan gefnogi'r cynnig twristiaeth ehangach mewn cyrchfannau drwy wella profiad ymwelwyr.

- datblygu brand Cymru cryfach ac arloesol i hyrwyddo barn gadarnhaol, gynhwysol a chroesawgar o Gymru yn y DU ac yn rhyngwladol, o dan faner y themâu penodol a fydd yn cofleidio datblygiadau a chyfleoedd digidol yn llawn
- sicrhau sector effeithiol ac ymgysylltiedig sy'n harneisio data ac yn dylanwadu ar raglenni a blaenoriaethau'r llywodraeth a'r sector cyhoeddus.

Llywodraeth Cymru Dewch i lunio'r dyfodol. Cynllun adfer ar y cyd

Yn Dewch i Lunio'r Dyfodol, sef cynllun adfer ar y cyd, a gyhoeddwyd yn 2021, amlinellodd Llywodraeth Cymru sut yr oedd yn bwriadu gweithio gyda phartneriaid i ail-greu'r economi ymwelwyr ledled Cymru a phontio uchelgeisiau Croeso i Gymru ar gyfer y dyfodol. Roedd yn cydnabod y byddai buddsoddi mewn cymunedau twristiaeth ac adeiladu rhaglenni meithrin lleoedd integredig[74] yn hanfodol. Roedd y cynllun yn cymryd yn ganiataol y byddai twristiaeth mewn ardaloedd arfordirol a gwledig ledled Cymru yn debygol o adfer ar ôl y pandemig ond roedd yn derbyn y byddai angen rheoli cyrchfannau ar y cyd wrth i'r sector agor i ymwelwyr eto 'i leihau'r effaith negyddol…ar gymunedau a seilwaith lleol.'[75]

Er mwyn ysgogi galw, ystyriwyd bod prosiectau Twristiaeth Wledig Cymru gyfan yn berthnasol ac y byddent yn helpu i fynd i'r afael â'r 'tair her allweddol [sef natur] dymhorol, gwariant a lledaeniad.'[76] Roedd adeiladu ar waith partneriaid rheoli cyrchfannau a hybu arloesedd a buddsoddiad mewn cynnyrch hefyd yn flaenoriaeth barhaus 'i helpu'r sector i oroesi a ffynnu.[77]

[74] Llywodraeth Cymru (2021), Dewch i lunio'r dyfodol, t.6 Ailadeiladu'r economi ymwelwyr (dewch i lunio'r dyfodol) | LLYW.CYMRU
[75] Ibid., tud.17
[76] Ibid., tud.21
[77] Ibid., tud.24

**Datblygiadau ers y cynlluniau Twristiaeth Wledig Cymru gyfan**

Yn dilyn cau cynlluniau Twristiaeth Wledig Cymru Gyfan, cyflwynodd Llywodraeth Cymru ddau gynllun cyllido newydd i gefnogi'r sector twristiaeth:

- Cronfa Buddsoddi mewn Twristiaeth Cymru (WTIF)
- Y Pethau Pwysig

Cronfa Buddsoddi mewn Twristiaeth Cymru (WTIF)

Mae WTIF yn gronfa gwerth £50 miliwn a ddatblygwyd mewn partneriaeth â Banc Datblygu Cymru ac a gyflwynwyd ym mis Ebrill 2019 i gyllido buddsoddiad cyfalaf mewn prosiectau twristiaeth er mwyn tyfu'r sector yng Nghymru. Pwrpas y gronfa yw:

- darparu mynediad parhaus i gyllid ar gyfer prosiectau twristiaeth yng Nghymru
- cefnogi'r gwaith o drawsnewid y sector twristiaeth o ddibyniaeth ar grantiau i ddarparu benthyciadau masnachol
- caniatáu i arian cyhoeddus gael ei ddefnyddio mewn maes a all gael effaith sylweddol ar yr economi
- cefnogi buddsoddiadau strategol sylweddol posibl yn ôl yr angen.

Mae'r gronfa'n darparu buddsoddiad cyfalaf o rhwng £100,000 a £5 miliwn i uwchraddio asedau presennol o ansawdd uchel neu greu asedau newydd o ansawdd uchel yn y sector twristiaeth. Mae'r cyllid ar gael fel arian ad-daladwy ac arian nad yw'n ad-daladwy, a disgwylir mai benthyciad o 80 y cant ac 20 y cant o arian grant fydd y norm. Disgwylir i ymgeiswyr ddilyn proses ymgeisio dau gam, gan lwyddo yn y cam Datgan Diddordeb cyn y gallant symud ymlaen i wneud cais llawn.

Y Pethau Pwysig

Mae Y Pethau Pwysig yn gronfa sy'n cwmpasu Cymru gyfan a lansiwyd ym mis Chwefror 2020 ond a ohiriwyd wedi hynny tan 2022, oherwydd y

pandemig. Cefnogodd y gronfa sefydliadau cyhoeddus, sefydliadau'r trydydd sector a sefydliadau dielw yn ystod y cylch cyntaf, ac awdurdodau lleol a pharciau cenedlaethol yn ystod yr ail gylch, i:

- gyflawni gwelliannau sylfaenol i seilwaith twristiaeth ar raddfa fach, a
- sicrhau bod pob ymwelydd â Chymru yn cael profiad cadarnhaol a chofiadwy drwy gydol eu harhosiad.

Mae'n adeiladu ar y cynllun Cymorth Buddsoddi mewn Amwynderau Twristiaeth (TAIS) blaenorol ond yn wahanol i TAIS, a oedd wedi'i gyfyngu i wardiau gwledig ledled Cymru, mae ar gael i bob ardal yng Nghymru. Mae cyllid o hyd at £10 miliwn ar gyfer cyfnod o bum mlynedd rhwng 2020 a 2025 ar gael i brosiectau a fydd yn:

- datblygu profiadau o safon i ymwelwyr gydag ymdeimlad Cymreig o le
- galluogi ystod eang o ymwelwyr i fanteisio ar gyfleoedd llesiant newydd a'u mwynhau
- gwella mynediad i gyfleusterau a chyflwyno golygfa gynhwysol o Gymru
- buddsoddi mewn cyfleusterau sy'n gwella'r hyn sydd gan Gymru i'w gynnig o ran antur
- cyfrannu at fentrau twristiaeth allweddol Llywodraeth Cymru gan gynnwys ymgyrch Blwyddyn Awyr Agored 2020 – 2021 a Ffordd Cymru
- annog cyrchfannau glân, gwyrdd, er enghraifft drwy wella seilwaith cynaliadwy
- hyrwyddo ymdeimlad o le, diwylliant ac iaith yn rhagweithiol
- darparu cyfleusterau gydol y flwyddyn ar draws pob rhan o Gymru
- buddsoddi mewn profiadau a chyfleusterau digwyddiadau o'r radd flaenaf (er bod cyllid ar gyfer prosiectau seilwaith ar raddfa fach fel toiledau a meysydd parcio wedi'i ddileu ar gyfer yr ail gylch).

## Atodiad E: Data'r sector twristiaeth

Mae’r adran hon yn ystyried data’r sector twristiaeth ar gyfer Cymru dros gyfnod o un mlynedd ar ddeg rhwng 2011 a 2022, gan gynnwys newidiadau yn nifer yr ymweliadau, gwariant ymwelwyr a lefelau boddhad.

Yn gyntaf mae’n ystyried y data ar dwristiaeth dros nos a theithiau undydd i Gymru, yn seiliedig ar ddata rhwng 2011 a 2019 o Arolwg Twristiaeth Prydain Fawr ac Arolwg Ymweliadau Undydd Prydain Fawr. Ni weinyddwyd yr arolygon hyn yn ystod 2020 oherwydd y pandemig COVID-19.[78]

**Ymweliadau domestig dros nos**

Mae'r negeseuon allweddol o Arolwg Twristiaeth Prydain Fawr hyd at 2019[79] yn cynnwys y canlynol:

- bu cynnydd yn nifer y teithiau twristiaeth dros nos yng Nghymru gan drigolion Prydain Fawr yn 2019, gyda 10.7 miliwn o deithiau o gymharu â 10.0 miliwn yn 2018, sy'n gynnydd o 6.8 y cant. Mae’r data’n dangos cynnydd cyfartalog blynyddol o 1.4 y cant yn nifer y teithiau dros nos i Gymru dros y cyfnod o wyth mlynedd rhwng 2011 a 2019. Cyrhaeddodd nifer y teithiau dros nos uchafbwynt yn 2019, ac roeddent ar eu hisaf yn 2017 ble y cafwyd 9.0 miliwn o deithiau
- cynyddodd y gwariant cyffredinol hefyd yn 2019 gyda gwariant o £2.0 biliwn, sef cynnydd o 8.1 y cant o 2018 pan oedd y gwariant yn £1.85 biliwn. Rhwng 2011 a 2019 cynyddodd y gwariant 2.6 y cant y flwyddyn ar gyfartaledd
- o gymharu â Lloegr a’r Alban, mae gwariant yng Nghymru (cyfartaledd o £187 fesul taith a £57 y noson yn 2019) yn is oherwydd bod cyfran uwch o lety hunanarlwyo am bris is yn cael ei ddefnyddio yn ystod teithiau

[78] Ers 2021, mae’r arolygon hyn wedi’u hailgyflwyno fel arolwg ar-lein cyfun newydd. Ni ddylid cymharu data o 2021 ymlaen â data o 2019 a chynt oherwydd gwahaniaethau ym methodoleg yr arolwg.
[79] Arolwg Twristiaeth Prydain Fawr: 2019 | LLYW.CYMRU

- mae teithiau gwyliau hwy (4+ noson) yn fwy cyffredin yng Nghymru nag yn Lloegr a'r Alban tra bod teithiau busnes (7 y cant) yn cyfrif am gyfran is o ymweliadau dros nos â Chymru o gymharu â Lloegr a'r Alban.

**Ymweliadau undydd domestig**

Dengys arolwg diweddaraf o Ymweliadau Undydd Prydain Fawr (2019)[80]:

- y bu gostyngiad o 9 y cant yn nifer yr ymweliadau undydd [81] â Chymru yn ystod 2019, o 96 miliwn yn 2018 i 87 miliwn erbyn 2019. Rhwng 2011 a 2019, gostyngodd nifer yr ymweliadau undydd gan dwristiaid yn raddol bob blwyddyn o uchafbwynt o 117 miliwn yn 2011, heblaw rhwng 2013 a 2014 ac yna eto rhwng 2015 a 2016 pan welwyd cynnydd bach.
- bod y gwariant cyffredinol ar ymweliadau undydd gan dwristiaid yn 2019 yn £3.4 biliwn, sy'n cynrychioli gostyngiad o 14 y cant o wariant o £4.0 biliwn yn 2018. Amrywiodd y gwariant blynyddol ar ymweliadau undydd gan dwristiaid rhwng 2011 a 2019, gan gyrraedd uchafbwynt o £4.4 biliwn yn 2012
- roedd y gwariant cyfartalog ar ymweliadau undydd gan dwristiaid ledled Cymru yn 2019 yn £39 ac roedd ychydig yn is na chyfartaledd Prydain Fawr (sef £41).

**Ymwelwyr tramor**

Mae'r Arolwg Teithwyr Rhyngwladol (IPS) yn rhoi cipolwg ar faint a gwerth arosiadau dros nos yng Nghymru gan ymwelwyr rhyngwladol[82]. Mae'r data'n dangos y canlynol:

- yn 2019, bu 1.02 miliwn o ymweliadau â Chymru gan ymwelwyr rhyngwladol. Er bod nifer yr ymweliadau wedi cynyddu dros amser ers 2012, cyrhaeddodd ei uchafbwynt yn 2017, sef 1.11 miliwn.

---

80 Arolwg Ymweliadau Undydd Prydain Fawr: 2019 | LLYW.CYMRU
81 Diffinnir ymweliad undydd gan dwristiaid fel ymweliadau undydd hamdden sy'n para tair awr neu fwy ac sy'n cynnwys gweithgaredd hamdden nad yw'n cael ei wneud yn rheolaidd ac sy'n digwydd mewn cyrchfan sy'n wahanol i'r man lle mae unigolyn yn byw.
82 Inbound trends by UK nation, region & county | VisitBritain

- yn 2019, roedd gwariant gan ymwelwyr rhyngwladol yn £515 miliwn. Mae gwariant wedi cynyddu dros amser ers 2011, gan gyrraedd uchafbwynt o £507 miliwn yn 2016 cyn gostwng a chynyddu eto erbyn 2019
- Cyfanswm y nosweithiau a dreuliwyd gan ymwelwyr rhyngwladol yng Nghymru oedd 7.2 miliwn yn 2019. Mae lefelau wedi amrywio ers 2011 rhwng 5.9 a 7.6 miliwn y flwyddyn.

Mae Arolwg Ymwelwyr Cymru yn taflu goleuni ar foddhad ymwelwyr o'r DU sy'n aros dros nos, ymwelwyr undydd y DU ac ymwelwyr tramor â Chymru. Cynhaliwyd yr arolwg tair blynedd diweddaraf yn 2019[83] a chanfuwyd bod:

- tuag wyth o bob deg o'r ymwelwyr a oedd yn aros yn y DU ac ymwelwyr undydd o'r DU, a thri chwarter yr ymwelwyr tramor â Chymru, yn fodlon iawn â Chymru'n gyffredinol fel lle i ymweld ag ef. Mae sgorau boddhad ymhlith ymwelwyr sy'n aros yn y DU ac ymwelwyr undydd o'r DU wedi aros yn gymharol ddigyfnewid ers 2013 er bod cyfraddau boddhad ymhlith ymwelwyr tramor wedi amrywio dros amser. Mae'r prif feysydd o anfodlonrwydd yn ymwneud â hygyrchedd i bobl anabl, glendid ac argaeledd toiledau cyhoeddus, cysylltedd digidol, siopau, safon yr arwyddion i dwristiaid ac ansawdd ac argaeledd trafnidiaeth gyhoeddus.
- canfuwyd bod boddhad ynghylch yr atyniadau yr ymwelwyd â hwy yn uchel iawn, gyda thri chwarter o bob math o ymwelwyr yn rhoi sgôr o 9 neu 10 am eu mwynhad cyffredinol o'r atyniadau yr ymwelwyd â nhw. Roedd y gwasanaeth a dderbyniwyd yn yr atyniadau yr ymwelwyd â nhw hefyd wedi cael sgorau arbennig o uchel gan bob math o ymwelwyr er y rhoddwyd sgorau ychydig yn is ar gyfer safon y cyfleusterau, eu gwerth am arian a'r ystod o atyniadau sydd ar gael. Roedd cyfraddau boddhad cyfartalog yr atyniadau yr ymwelwyd â nhw ychydig yn uwch yn 2019 nag yn

[83] Arolwg Ymwelwyr Cymru | LLYW.CYMRU

2016 ymhlith ymwelwyr dros nos ac ymwelwyr undydd o’r DU, ond ni welwyd unrhyw newid ymhlith ymwelwyr tramor

- roedd boddhad gyda bwyta allan yn is na lefel y boddhad ar gyfer atyniadau ymhlith pob math o ymwelwyr. Mae cyfraddau boddhad wedi cynyddu ychydig ymhlith ymwelwyr o'r DU sy'n aros dros nos ers 2016 ond maent wedi gostwng ymhlith ymwelwyr tramor ac wedi aros yn gymharol gyson ar gyfer ymwelwyr undydd o’r DU
- roedd dwy ran o dair o ymwelwyr a oedd yn aros yn y DU a chwech o bob deg o ymwelwyr tramor yn fodlon iawn gyda'u llety, a gwelwyd lefelau boddhad uwch ar gyfer llety hunanarlwyo nag ar gyfer gwestai ymhlith y ddwy garfan. Yn gyffredinol, mae sgorau boddhad cyfartalog ar gyfer llety ymhlith ymwelwyr o'r DU sy'n aros dros nos wedi gwella dros amser ac mae'r sgorau wedi aros yn gyson ar gyfer ymwelwyr tramor.

**Galw yn y farchnad dwristiaeth**

Mae Croeso Cymru yn cynnal ymchwil blynyddol ymhlith ei farchnadoedd blaenoriaeth.  Mae arolygon a gynhaliwyd ym mis Mehefin 2022 yn cwmpasu’r DU ac Iwerddon[84]. Mae canfyddiadau hefyd ar gael o 2020 sy'n cwmpasu'r DU, Iwerddon a'r Almaen.

Prif ganfyddiadau arolwg 2022 sy’n cwmpasu’r DU yw:

- 'cyrchfannau glan môr traddodiadol', 'arfordir a harbwrs golygfaol' a 'dinasoedd a threfi mawr' yw'r mathau o gyrchfannau yr oedd marchnad wyliau'r DU yn fwyaf tebygol o gymryd gwyliau byr/gwyliau iddynt yn ystod y 12 mis nesaf. 'Trefi hanesyddol a threftadaeth' a 'chefn gwlad a phentrefi golygfaol' yw'r cyrchfannau mwyaf poblogaidd nesaf
- mae cyllid yn chwarae rhan bwysig yn y dewis o deithiau, wedi'i ddilyn gan rwyddineb teithio i'r gyrchfan ac o'i chwmpas

[84] Adroddiadau galw'r farchnad ym maes twristiaeth: Mehefin 2022 | LLYW.CYMRU

- mae pwysigrwydd llety o ansawdd uchel wedi cynyddu'n sylweddol ers 2020, ac mae'r ymchwil yn awgrymu y gallai hyn fod oherwydd newidiadau mewn disgwyliadau llety yn dilyn y pandemig
- roedd tua thri o bob pump o farchnad wyliau'r DU wedi cymryd gwyliau byr neu wyliau yng Nghymru o'r blaen ac yn bwriadu gwneud hynny eto yn y dyfodol.

**Sylwadau i gloi**

Hyd at 2019, bu cynnydd cyson yn nifer yr ymwelwyr a oedd yn aros dros nos a gwariant gan ymwelwyr dros nos rhwng 2011 a 2019. Cynyddodd nifer a gwariant ymwelwyr tramor hefyd dros y cyfnod hwn ond cyrhaeddodd uchafbwynt yn ystod 2016-2017. Mewn gwrthgyferbyniad â hyn, fodd bynnag, mae'r data'n dangos gostyngiad mewn ymweliadau undydd gan dwristiaid rhwng 2011 a 2019 a gostyngiad yn y gwariant gan ymwelwyr undydd ers 2017 sydd efallai'n adlewyrchu'r ffaith bod polisi Llywodraeth Cymru wedi canolbwyntio ar gefnogi a datblygu'r farchnad ymwelwyr sy'n aros dros nos yn ystod y cyfnod hwn, gan fod gan y farchnad hon y potensial i wneud mwy o gyfraniad at dwf y sector o gymharu ag ymwelwyr undydd.

Mae'r data hefyd yn awgrymu bod pob math o ymwelwyr yn fodlon ar y cyfan â Chymru fel lle i ymweld ag ef er ei bod yn nodedig bod cyfraddau boddhad wedi aros yn gymharol ddigyfnewid ers y 2010au. Mae lefelau boddhad ymwelwyr yn well ar gyfer atyniadau a llety nag ar gyfer bwyta allan. Mae pob math o ymwelwyr yn adrodd yn gyson am yr angen am well mynediad i bobl anabl, toiledau cyhoeddus glanach a mwy ohonynt, gwell cysylltedd digidol, gwell siopa, gwell arwyddion i dwristiaid yn ogystal â gwell ansawdd ac argaeledd trafnidiaeth gyhoeddus. Mae'r adborth hwn yn cefnogi'r angen am gynlluniau buddsoddi cyfalaf fel MSBF a TAIS ledled Cymru, i wella boddhad ymwelwyr ymhellach yn enwedig o ran darpariaeth seilwaith sylfaenol.

## Atodiad F: Rhestr o adnoddau

**Data'r sector twristiaeth**

Adroddiadau galw'r farchnad ym maes twristiaeth: Mehefin 2022 | LLYW.CYMRU

Arolwg Twristiaeth Prydain Fawr: 2019 | LLYW.CYMRU

Arolwg Ymweliadau Undydd Prydain Fawr: 2019 | LLYW.CYMRU

Arolwg Ymwelwyr Cymru | LLYW.CYMRU

Inbound trends by UK nation, region & county | VisitBritain

**Dogfennau polisi a rhaglen**

Dogfen Rhaglen Datblygu Gwledig 2014 i 2020 | LLYW.CYMRU tud.371 (Saesneg yn unig)

Llywodraeth Cymru (2015) Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)

Llywodraeth Cymru (2016) Symud Cymru Ymlaen 2016-21

Llywodraeth Cymru (2017) Ffyniant i Bawb - Cynllun Gweithredu ar yr Economi

Llywodraeth Cymru (2018) Partneriaeth ar gyfer Twf: Adolygiad interim o flaenoriaethau 2016

Llywodraeth Cymru (2020) Croeso i Gymru: Blaenoriaethau i'r economi ymwelwyr 2020 - 2025

Llywodraeth Cymru (2020) Strategaeth Ryngwladol

Llywodraeth Cymru (2020) Y Genhadaeth i Gryfhau ac Ailadeiladu'r Economi

Llywodraeth Cymru (2021) Dewch i lunio'r dyfodol.

Roadshow_Investment_Brochure_Mid_E.pdf (gov.wales)

Roadshow_Investment_Brochure_North_E.pdf (gov.wales)

Roadshow_Investment_Brochure_South_East_E.pdf (gov.wales)

Roadshow_Investment_Brochure_South_West_E.pdf (gov.wales)

Strategaeth Twristiaeth Llywodraeth Cymru 2013 - 2020 Cynllun Gweithredu Fframwaith Blynyddoedd 1 - 3

Strategaeth Twristiaeth Llywodraeth Cymru 2013-2020 Partneriaeth ar gyfer Twf

[Y Deyrnas Unedig - Rhaglen Datblygu Gwledig (Rhanbarthol) - Cymru (llyw.cymru)]
(Saesneg yn unig)